Y Comisiynydd Cam-drin Domestig

# Dysgu o Golled: Sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o adolygiadau lladdiadau domestig yn arwain at newid

Gorffennaf 2025

Y Comisiynydd Cam-drin Domestig

# Dysgu o Golled: Sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o adolygiadau lladdiadau domestig yn arwain at newid

Cyflwynwyd i Senedd y DU yn unol ag adran 8 (6) o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021

Gorffennaf 2025

OGL

© Hawlfraint y Goron 2025

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn
**commissioner@domesticabusecommissioner.independent.gov.uk.**

ISBN 978-1-5286-5892-8

E03400492 07/25

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ddeunydd ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

**Ymroddiad i ddioddefwyr a'u teuluoedd**

Mae pob adolygiad, argymhelliad a cham gweithredu yn yr adroddiad hwn yn deillio o achosion trasig o golli bywyd o ganlyniad i weithredoedd rhywun agos at y dioddefwr.

Mae pob achos o golli bywyd, boed hynny o ganlyniad i laddiad neu hunanladdiad, yn gadael ei waddol ac yn effeithio ar deulu, ffrindiau a chymunedau na fydd eu bywydau byth yr un fath. Mae rhai teuluoedd yn cael eu gadael yn aros am atebion, heb unrhyw adolygiad ffurfiol neu ymchwiliad i farwolaeth eu hanwylyd yng nghyd-destun cam-drin, ac mae'n rhaid i rai teuluoedd ymgyrchu'n ddiflino dros newidiadau angenrheidiol i bolisi.

Wrth wraidd y gwaith hwn mae'r parch mwyaf tuag at y dioddefwyr nad ydynt gyda ni mwyach, ac ymdrech i'w hanrhydeddu a'u cofio drwy adrodd eu stori. Ond yn ogystal â choffau dioddefwyr, mae'n rhaid i ni weithredu ar y gwersi a ddysgwyd o farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin er mwyn diogelu dioddefwyr yn well yn y dyfodol a dwyn tramgwyddwyr i gyfrif.

Mae sefydlu Proses Oruchwylio yn rhan o'r ymdrech honno. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r angen i ddysgu o farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin er mwyn diogelu ac amddiffyn bywydau yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn dyst i'r rhai sydd wedi cael eu lladd neu sydd wedi marw drwy hunanladdiad o ganlyniad i gam-drin domestig a'r newidiadau angenrheidiol sydd eu hangen ac y mae eu marwolaethau wedi codi ymwybyddiaeth ohonynt.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys teyrngedau i ddioddefwyr unigol gan y rhai a oedd yn eu hadnabod ac yn eu caru,  wedi'u dyfynnu o adolygiadau cyhoeddedig o laddiadau domestig, yn y gobaith y bydd yn rhoi cipolwg ar eu bywydau ac yn rhoi llais i'w profiadau. Rydym yn dal i fod yn gadarn yn ein hymrwymiad i deuluoedd sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i gam-drin domestig ac yn ymrwymedig i sicrhau'r newidiadau sydd eu hangen i atal niwed yn y dyfodol.

Rydym yn cydymdeimlo'n ddiffuant â phob teulu, ffrind, plentyn ac anwylyd sydd wedi colli rhywun o ganlyniad i gam-drin domestig.

**Cydnabyddiaethau**

Rwy'n ddiolchgar i'r ardaloedd hynny a roddodd o'u hamser i ymrwymo i dreialu'r broses oruchwylio ac a helpodd i lunio proses sy'n dangos y newid a all ddeillio o adolygiadau lladdiadau domestig. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys

**Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu**

- Southend, Essex a Thurrock (SET)
- Norfolk
- Cleveland
- Glannau Mersi
- Ynys Wyth a Hampshire
- De Cymru
- Swydd Gaerloyw
- Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf
- Northumbria
- Dyfed Powys (wedi tynnu'n ôl)

**Partneriaethau Diogelwch Cymunedol**

- Dwyrain a Gorllewin Sussex
- Swydd Warwig
- Bwrdeistref Lambeth yn Llundain
- Westmoreland a Furness
- Leeds
- Cernyw
- Bwrdeistref Hounslow yn Llundain
- (Cyngor Dinas) Manceinion
- Northumberland
- Gogledd-ddwyrain Swydd Lincoln
- Swydd Hertford

**Rhagair – Y Fonesig Nicole Jacobs, y Comisiynydd Cam-drin Domestig**



Y llynedd, cafodd 108 o bobl eu lladd gan bartner neu aelod o'r teulu, a bu farw mwy o ddioddefwyr cam-drin domestig drwy hunanladdiad nag o ganlyniad i laddiad domestig am yr ail flwyddyn yn olynol.

Pan fydd rhywun yn colli ei fywyd o ganlyniad i gam-drin domestig, mae'n fethiant ofnadwy ar ran ein cymdeithas, y wladwriaeth a'r systemau a ddyluniwyd i'n cadw'n ddiogel. Felly, pan fydd yr annychmygol yn digwydd, mae'n rhaid sicrhau nad oes yr un garreg heb ei throi wrth geisio deall sut y bu farw'r unigolyn a phennu sut y byddwn yn gwneud yn siŵr bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i atal hynny rhag digwydd eto.

Serch hynny, mae cyfleoedd hollbwysig i atal marwolaethau yn cael eu colli'n rheolaidd ledled Cymru a Lloegr.

Am dros 13 mlynedd, mae adolygiadau lladdiadau domestig wedi casglu gwersi allweddol a ddysgwyd ar ôl i ormod o bobl golli eu bywydau. Ond er gwaethaf y teuluoedd mewn profedigaeth, ceisiadau gennyf i a'r sector cam-drin domestig am fwy o atebolrwydd yn ein hymateb i gam-drin domestig, nid oes proses ar waith o hyd i sicrhau bod y newidiadau pwysig a nodwyd yn yr adolygiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith ar lefel genedlaethol a lleol.

Mae'r adroddiad hwn – sy'n crynhoi prosiect peilot gan fy swyddfa i ystyried y ffordd orau o fonitro'r broses o roi argymhellion ar waith a chymryd camau sy'n deillio o'r adolygiadau hyn – wedi dangos canfyddiadau brawychus sy'n peri pryder.

Mae teuluoedd torcalonnus yn gorfod aros tair blynedd ar gyfartaledd i adolygiadau ddod i ben, ac nid yw rhai eraill yn cael unrhyw atebion ffurfiol na hyd yn oed ymchwiliad ffurfiol i farwolaeth eu hanwylwyd.

Pan ddaw adolygiadau lladdiadau domestig i ben, mae fy swyddfa wedi datgelu faint o'r argymhellion hyn a allai achub bywydau, ac a ystyriwyd yn ofalus dros nifer o flynyddoedd, sy'n cael eu gadael i hel llwch yn adrannau'r llywodraeth.

Yn yr un modd, mae asiantaethau lleol wedi rhoi'r gorau i argymhellion eraill oherwydd diffyg adnoddau neu gyfarwyddyd gan arweinyddiaeth genedlaethol. Mae'n bryd i hyn newid.

Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i anrhydeddu pob bywyd a gollwyd, drwy ddiogelu dioddefwyr yn well yn y dyfodol a dwyn tramgwyddwyr i gyfrif.

Drwy fanteisio ar bŵer technoleg newydd a deallusrwydd artiffisial, gallwn sicrhau bod asiantaethau lleol a chenedlaethol yn gallu dysgu gwersi'n gynt o achosion trasig o golli bywydau ac, yn ei dro, cymryd camau gweithredu – boed hynny drwy roi arferion gorau ar waith yn lleol neu newid polisi cenedlaethol.

Yn wyneb targed uchelgeisiol i haneru nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod a merched mewn degawd, rhaid i'r llywodraeth fanteisio ar bob ysgogiad – ac mae'n rhaid bod sefydlu

system goruchwylio gadarn ar gyfer adolygiadau lladdiadau domestig yn rhan o hynny. Ni allwn fforddio peidio â gweithredu.

**Rhagair – Frank Mullane**



Roeddwn yn falch iawn o gael cais i lunio rhagair i'r achos cymhellol hwn gan y Comisiynydd Cam-drin Domestig dros oruchwylio'r broses o roi argymhellion Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar waith. Bron ddeng mlynedd yn ôl, pan ddiweddarwyd y canllawiau statudol ar adolygiadau lladdiadau domestig ddiwethaf, trafododd y Fonesig Nicole Jacobs a minnau yr angen am fwy o ffocws ar sicrhau bod canfyddiadau'r adolygiadau pwerus hyn yn cael eu troi'n gwasanaethau gwell i ddioddefwyr cam-drin domestig.

Ar ôl cyfnod hir o gam-drin domestig a bygythiadau o farwolaeth yn erbyn fy chwaer, bu ei hymdrechion taer hithau a minnau i gael cymorth effeithiol, yn bennaf gan yr heddlu, yn ofer, dro ar ôl tro. Ar ôl i fy chwaer, Julia, a'i mab, William, gael eu llofruddio, dywedodd fy mrawd yng nghyfraith, Mike Mason, *"Mae rhywbeth o'i le yma, ac allwn ni ddim troi ein cefn nes ein bod wedi rhoi cynnig go iawn ar wella pethau."*

Er gwaethaf y pwysau penderfynol a threfnus a roddodd fy nheulu ar yr heddlu yn bennaf, a chwest a gynhaliwyd wedi hynny, dim ond adolygiad lladdiad domestig (Adolygiad Pemberton) a ddatgelodd yr hyn yr oedd angen i bob un ohonom ei wybod ac a arweiniodd at y canfyddiadau a fyddai'n ysgogi newid sylweddol. Dywedodd yr Athro Neil Websdale, a gyflwynodd y math hwn o adolygiad yn yr UD ac mewn gwledydd eraill, fod Adolygiad Pemberton yn adolygiad o safon aur.

Roedd fy nheulu yn gwneud rhywbeth a oedd yn teimlo fel democratiaeth weithredol – dinasyddion yn cyflwyno heriau a chwestiynau dilys i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Roedd Adolygiad Pemberton yn bwysig am y rhesymau hyn: rhoddodd atebion digonol i gwestiynau fy nheulu; disgrifiodd yn fanwl sut beth yw byw dan reolaeth drwy orfodaeth; datgelodd wendidau difrifol mewn perthynas ag amddiffyn y cyhoedd a rhoddodd hwb, yn enwedig i'r heddlu, wella gwasanaethau. Rhoddodd Adolygiad Pemberton sylw i'r gorffennol er mwyn sicrhau dyfodol gwell.

Cyfarfûm â Nicola am y tro cyntaf ddeng mlynedd yn ôl, a gwnaeth ei gwybodaeth, ei doethineb a'i synnwyr cyffredin, argraff arnaf. Roedd yn amlwg nad oedd wedi'i llyffetheirio gan ddogma a bod ganddi feddwl agored bob amser. Mae'n golygu, pan fydd yn dod i gasgliadau pendant, fel y gwelir yn y ddogfen hon, eu bod wedi'u hystyried a'u profi'n ofalus, y dylid gwrando arnynt. Un o gasgliadau allweddol yr adroddiad hwn yw'r ffaith, er mwyn i'r llywodraeth gyflawni ei huchelgais i haneru nifer yr achosion o Drais yn erbyn Menywod a Merched mewn degawd, y bydd yn hanfodol sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o adolygiadau lladdiadau domestig yn cael eu hymgorffori'n lleol ac yn genedlaethol.

Mae'r adran ar ganfyddiadau'r prosiect peilot yn frawychus gan ei bod yn cynnwys rhesymau pam na chafodd camau gweithredu a ddeilliodd o adolygiadau lladdiadau domestig eu

cwblhau. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg adnoddau. Gan fod un o'r camau gweithredu cyffredin sy'n deillio o adolygiadau lladdiadau domestig yn ymwneud â hyfforddiant, mae hyn yn destun pryder arbennig. Dylai pob dioddefwr cam-drin domestig sy'n ceisio help proffesiynol dybio'n rhesymol fod y rhai a neilltuir i'w helpu yn gymwys yn broffesiynol.

Mae'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, gyda'i thrylwyredd nodweddiadol, yn galw am i'r Broses Oruchwylio gael ei hariannu'n llawn fel bod *"camau gweithredu a gwblhawyd yn cael eu dadansoddi a'u hystyried mor fanwl â'r rhai nad ydynt wedi'u cwblhau."*

Mae'r adroddiad yn awgrymu rhesymau pam rydym yn ei chael hi'n anodd mesur y newidiadau a ysgogir gan adolygiadau lladdiadau domestig. Un enghraifft annifyr yw diffyg proses ar gyfer cydlynu argymhellion (i'w cymhwyso'n genedlaethol) ar draws y llywodraeth. Ond mae hefyd yn cynnwys manteision niferus y Broses Oruchwylio, gan gynnwys *"defnyddio un adnodd canolog i rannu gwersi a ddysgwyd yn lleol, ar draws rhanbarthau, ac yn genedlaethol".* Nid bwrw bai yw byrdwn adolygiadau lladdiadau domestig ond sicrhau atebolrwydd, ac mae'r adroddiad hwn yn dangos sut y gall y Broses Oruchwylio herio a chefnogi ardaloedd lleol lle nad yw argymhellion yn cael eu rhoi ar waith.

Dylai'r adolygiadau hyn leihau nifer yr achosion o gam-drin domestig a cham-drin domestig angheuol. Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, mae angen gweithgarwch penodol i sicrhau bod canfyddiadau adolygiadau yn arwain at newid arferion pobl eraill a systemau. Yn yr adroddiad hwn, mae'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn nodi'r hyn y gellir ei gyflawni.

*Frank Mullane yw Prif Swyddog Gweithredol Advocacy After Fatal Domestic Abuse (AAFDA). Mae'n darparu eiriolaeth a chymorth arbenigol i deuluoedd sydd mewn profedigaeth o ganlyniad i bob math o gam-drin domestig, yn cynnig hyfforddiant proffesiynol helaeth, gan gynnwys hyfforddiant i Gadeiryddion adolygiadau lladdiadau domestig, ac yn dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth cenedlaethol. Gweithiodd Frank yn agos gyda'r Swyddfa Gartref i ddatblygu'r model adolygiadau lladdiadau domestig ac mae wedi parhau â'i waith byth ers hynny. Cafodd ei benodi'n un o ddarllenwyr adolygiadau y Swyddfa Gartref ac mae AAFDA yn rhan o'r Panel Sicrhau Ansawdd.* Yn y rolau hynny, mae wedi darllen tua 1,200 o adolygiadau lladdiadau domestig.

**Cynnwys**

Rhagair – Y Fonesig Nicole Jacobs, y Comisiynydd Cam-drin Domestig....... 3

Rhagair – Frank Mullane ....... 4

Cyflwyniad....... 9

Cwmpas yr adroddiad ....... 11

Methodoleg....... 11

Pennod 1 Adolygiadau Lladdiadau Domestig: Cyd-destun a Hanes....... 12

1.1 Beth yw Adolygiad Lladdiad Domestig? ....... 12

1.1.1 Proses ....... 12

1.1.2 Argymhellion Adolygiad Lladdiad Domestig a chynlluniau gweithredu....... 14

1.2 Pam y cafodd Adolygiadau Lladdiadau Domestig eu cyflwyno? ....... 14

1.3 Hanes a datblygiad Adolygiadau Lladdiadau Domestig ....... 15

Pennod 2: Yr angen am oruchwyliaeth ....... 16

2.1 Y broblem: diffyg goruchwyliaeth o'r broses o roi argymhellion Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar waith, ac atebolrwydd am hynny ....... 17

2.2 Adolygiadau Lladdiadau Domestig: Yr heriau presennol ....... 19

2.2.1 Amseroldeb adolygiadau ....... 19

2.2.2 Nifer cynyddol o adolygiadau....... 21

2.2.3 Cost uniongyrchol ac anuniongyrchol cynnal adolygiadau ....... 23

2.2.4 Anawsterau wrth ddangos effaith....... 24

Pennod 3 Profi dull o oruchwylio'r broses o roi Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar waith ....... 25

3.1 Nod y prosiect peilot....... 25

3.2 Methodoleg....... 27

3.2.1 Dyluniad y prosiect peilot ....... 27

3.2.2 Recriwtio ardaloedd peilot....... 28

3.3 Profi....... 28

3.3.1 Casglu data ar y broses o roi argymhellion ar waith ....... 28

3.3.2 Datblygu rhwydweithiau a rhannu gwersi a ddysgwyd ....... 30

3.4 Canfyddiadau o ddata ardaloedd peilot....... 31

3.5 Canfyddiadau meintiol ....... 31

Dangosfwrdd 1 – Dadansoddiad o ddata ar gynlluniau gweithredu Adolygiadau Lladdiadau Domestig a gyflwynwyd gan ardaloedd peilot ....... 33

3.6 Canfyddiadau ansoddol....... 35

3.6.1 Amrywiadau o ran amcanion argymhellion ....... 37

3.6.2 Rôl Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ....... 37

3.7 Canfyddiadau thematig....... 38

Dangosfwrdd 2 – Dadansoddiad o themâu a thueddiadau ardaloedd peilot....... 39

3.8 Canfyddiadau'r broses....... 40

Dangosfwrdd 3 – Gwerthusiad ardaloedd peilot o'u cyfraniad at y prosiect a'r prosesau casglu data ....... 41

3.8.1 Cwblhau ceisiadau am ddata ... 43
3.8.2 Blaenoriaethau lleol ... 43
3.8.3 Adnoddau lleol ... 44
3.8.4 Heriau wrth ddadansoddi data ... 44
3.8.5 Creu cymunedau ymarfer cryfach i gefnogi ardaloedd lleol ... 45
3.8.6 Cymharu ardaloedd wedi'u harwain gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ac ardaloedd wedi'u harwain gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ... 45
Pennod 4 Argymhellion polisi cenedlaethol o Adolygiadau Lladdiadau Domestig ... 46
Dangosfwrdd 4 – Argymhellion cenedlaethol ... 47
4.1 Argymhellion lleol sy'n berthnasol yn genedlaethol ... 49
4.1.1 Dysgu trawsffiniol ... 50
4.2 GIG Lloegr a Byrddau Gofal Integredig ... 50
4.3 Argymhellion polisi cenedlaethol ychwanegol ... 52
4.3.1 Trwyddedu Arfau Tanio ... 52
4.3.2 Lladdiadau cudd a marwolaethau diesboniad ... 53
4.3.3 Hunanladdiad a dwyn tramgwyddwyr o flaen eu gwell ... 54
Pennod 5 O gynnal prosiect peilot i gyflwyno goruchwyliaeth genedlaethol ... 56
5.1 Cynnig a argymhellwyd ar gyfer cyflwyno proses genedlaethol ... 56
5.1.1 Technoleg newydd ... 57
5.1.2 Cyllid ... 59
5.1.3 Darparu adnoddau ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig ... 59
5.1.4 – Cynllun a'r camau nesaf ... 60
5.2 Manteision goruchwylio ... 61
5.2.1 Atebolrwydd ... 62
5.2.2 Blaenoriaethu, tryloywder, a statws ... 62
5.2.3 Cymorth i deuluoedd a hyder ... 63
5.2.4 Meithrin dealltwriaeth o gam-drin domestig, dysgu, a nodi ac uwchygyfeirio materion systemig ... 63
5.2.5. Trawsnewid prosesau llunio polisïau a gwaith cynllunio strategol lleol a chenedlaethol ... 64
5.2.6 Ysgogi arbedion effeithlonrwydd a symleiddio prosesau casglu data ... 64
5.2.7 Gwella a chefnogi'r broses o roi adolygiadau perthnasol eraill ar waith ... 65
Pennod 6: Casgliadau ac argymhellion ... 66
6.1 Argymhellion statudol ... 66
6.2 Argymhellion ymarfer ar gyfer Cadeiryddion Adolygiadau Lladdiadau Domestig, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ... 69
Rhestr termau ... 70
Atodiad A: Cylch Gorchwyl: Proses Goruchwylio Lladdiadau Domestig: Prosiect Goruchwylio Peilot Lleol ... 74
Atodiad B: Model ar gyfer cyflwyno proses oruchwylio leol ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ... 77
Atodiad C: Ffurflen casglu data ar broses oruchwylio ardaloedd peilot ... 78

Atodiad D: Canllawiau i arweinwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar gwblhau ffurflen oruchwylio Adolygiad Lladdiad Domestig ........ 80
Atodiad E: Ymarfer nodedig o'r prosiect peilot ........ 82
Atodiad F: Crynodeb o ddadansoddiad thematig a gynhaliwyd gan HALT ........ 86
Atodiad A: Datblygu system ddigidol ar gyfer y Broses Goruchwylio Marwolaethau sy'n gysylltiedig â Cham-drin Domestig ........ 88

**Cyflwyniad**

Mae nifer y lladdiadau domestig yn dal i fod yn annerbyniol o uchel yn ein cymdeithas. [1] Cofnodwyd 108 o laddiadau domestig yng Nghymru a Lloegr rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024. Mae hyn yn gyfystyr â chwarter yr holl laddiadau yn ystod y cyfnod hwn ac nid yw'r ffigur wedi newid llawer yn y 10 mlynedd diwethaf. [2] Yn ogystal â'r lladdiadau a gofnodwyd, mae nifer y bywydau a gollwyd o ganlyniad i gam-drin domestig yn debygol o fod yn fwy byth, ac mae astudiaethau diweddar yn dangos bod nifer y dioddefwyr cam-drin sy'n cymryd eu bywydau eu hunain o ganlyniad i gam-drin domestig yn fwy na nifer y lladdiadau domestig. Ers 2016, mae marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig wedi bod yn destun Adolygiadau Lladdiadau Domestig hefyd. [3] Cofnododd Prosiect Lladdiadau Domestig y Rhaglen Gwybodaeth ac Ymarfer Bregusrwydd (VKPP)[4] 1,012 o farwolaethau yn ystod y pedair blynedd rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2024, a oedd yn cynnwys 501 o laddiadau domestig a 354 o hunanladdiadau dioddefwyr posibl o ganlyniad i gam-drin domestig.

Mae pryder cynyddol hefyd am nifer y 'lladdiadau cudd' – pan fydd marwolaeth yn sydyn, yn annisgwyl neu'n anesboniadwy, o dan amgylchiadau amheus, ond ni chaiff unrhyw gyhuddiadau eu gwneud. [5]

Mae lladdiadau domestig a hunanladdiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn cael ffaith andwyol ar fenywod. Mae ymchwil i laddiadau menywod (*femicide*) [6]yn fwy cyffredinol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang, yn parhau i ddangos realiti blaen marwolaethau menywod dan ddwylo partneriaid neu aelodau o'r teulu. Mae UNODC yn nodi bod tua 51,100 o fenywod a merched wedi cael eu lladd gartref gan bobl a oedd yn perthyn yn agos iddynt yn 2023, sef 140 bob dydd ar gyfartaledd, gan gyfrif am 60% o'r holl achosion o ladd menywod. [7] Mewn gormod o achosion, roedd dioddefwyr lladdiadau menywod wedi rhoi gwybod am drais, a phe bai camau wedi'u cymryd i ymyrryd, gellid bod wedi eu hatal rhag cael eu lladd. Yn y DU, mae'r Cyfrifiad Lladdiadau Menywod a ryddhawyd ym mis Mehefin 2024 yn dangos bod 147 o

---

[1] Yng Nghymru a Lloegr, mae hyn yn cynnwys llofruddiaeth a dynladdiad gan gyn-bartner agos neu bartner agos presennol, neu aelod o'r teulu. Nid yw hwn yn ddiffiniad cyfreithiol ac mae adolygiadau lladdiadau domestig hefyd wedi cynnwys lletywyr neu gydbreswylwyr. Pan fydd y newidiadau arfaethedig i Adolygiadau Lladdiadau Domestig wedi'u gwneud, ni fyddant yn cynnwys lletywyr neu gydbreswylwyr mwyach, i gysoni â'r diffiniad o gam-drin domestig yn Neddf Cam-drin Domestig 2021.

[2] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) (2025) *Homicide in England and Wales Articles*.

[3] Rowlands, J. et al (2023) The Challenges and Opportunities of Reviewing Domestic Abuse-Related Deaths by Suicide in England and Wales. *Journal of Family Violence*, tt.723–737.

[4] Mae'r VKPP yn gweithio o fewn y Coleg Plismona i ddarparu prosiectau sy'n datblygu'r sail dystiolaeth ar gyfer bregusrwydd a throseddau difrifol cysylltiedig, ar draws heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, gan ysgogi gwelliannau mewn ymarfer.

[5] BBC News (2025) *Mum of murdered teen wants 'hidden homicide' data to be gathered - BBC News*.

[6] Mae'r Cenhedloedd Unedig yn diffinio 'femicide' (neu 'feminicide', fel y cyfeirir ato mewn rhai cyd-destunau) yn Saesneg fel achosion bwriadol o ladd â chymhelliant sy'n gysylltiedig â rhywedd. Mae'n wahanol i laddiad, lle nad yw'r cymhelliant o reidrwydd yn gysylltiedig â rhywedd. Caiff lladdiadau menywod eu hysgogi gan wahaniaethu yn erbyn menywod a merched, cysylltiadau pŵer anghyfartal, stereoteipiau rhywedd neu normau cymdeithasol niweidiol. UN Women (2024) *Five essential facts to know about femicide | UN Women – Headquarters*.

[7] United Nations (2024) *Femicides in 2023: Global estimates of intimate partner/family member femicides*.

fenywod wedi cael eu lladd gan 144 o ddynion yn 2021. O blith y 147 o fenywod, cafodd 105 (71%) eu lladd gan bartner presennol neu gyn-bartner neu aelod o'r teulu. [8]

Yng Nghymru a Lloegr, menywod yw'r mwyafrif o ddioddefwyr lladdiadau domestig, ac mae'r rhan fwyaf o achosion o ddynion yn cael eu lladd drwy laddiad yn digwydd y tu allan i'r cartref, mewn amgylchiadau nad ydynt yn gysylltiedig â cham-drin domestig. Mae amgylchiadau a theipolegau cam-drin yn tueddu i amrywio rhwng dynion a menywod – gyda dynion yn tueddu i fod wedi cael eu lladd gan ddyn arall (naill ai aelod o'r teulu neu bartner mewn cydberthynas o'r un rhyw), o gymharu â menywod sy'n fwy tebygol o gael eu lladd gan bartner neu gyn-bartner gwrywaidd. O blith y 108 o ddioddefwyr lladdiadau domestig yn ystod y 12 mis tan 31 Mawrth 2024, roedd 83 yn fenywod a 25 yn ddynion. Roedd y rhan fwyaf o'r tramgwyddwyr (93 allan o 108) yn ddynion a chafodd 64% (16) o'r dioddefwyr gwrywaidd eu lladd gan ddyn arall. Er eu bod yn cynrychioli lleiafrif o ddioddefwyr, mae'n bwysig deall profiadau gwahanol dioddefwyr cam-drin gwrywaidd. Mae Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn rhoi gwybodaeth am brofiadau dynion o gam-drin, ac mae ymchwil a gyhoeddwyd yn 2021 yn dangos themâu a ddaeth i'r amlwg mewn perthynas â marwolaethau dynion o ganlyniad i gam-drin domestig drwy drais gan bartner agos, [9]gan gynnwys lle roedd y tramgwyddwr yn fenyw.

Mae adroddiad y Centre for Women's Justice yn nodi [10]mai darlun cyfyngedig a roddir gan ystadegau swyddogol mewn perthynas ag amgylchiadau dynion a laddwyd gan eu partneriaid agos benywaidd, ac amgylchiadau'r lladdiadau hynny. Mae'n werth nodi bod ei dadansoddiad o 92 o achosion dros gyfnod o ddeng mlynedd wedi canfod tystiolaeth i awgrymu bod menywod, yn y 77% o'r achosion hynny, wedi wynebu trais neu gamdriniaeth gan yr unigolyn a fu farw. Nid yw profiadau dynion a laddwyd o ganlyniad i gam-drin domestig yn cael eu harchwilio'n ddigonol o hyd ac mae angen gwneud mwy o ymchwil yn y maes hwn. [11]

Mae mwy nag un math o gam-drin domestig a dylid ystyried lladdiadau domestig o safbwynt croestoriadol. Mae hyn yn ffocws pwerus sy'n ein galluogi i ddeall profiadau cyfan dioddefwyr/goroeswyr ac i nodi achosion o orthrwm systemig ac ymyleiddio. Mae bwlch amlwg wrth ystyried croestoriadedd mewn adolygiadau lladdiadau domestig. Canfu ymchwil gan y Centre for Women's Justice ac Imkaan (2023) ddiffyg ymchwiliadau yn dilyn hunanladdiadau menywod Du a lleiafrifiedig, sy'n awgrymu nad yw'r marwolaethau hyn yn cael eu harchwilio o hyd a'u bod yn parhau i fod yn anweledig. Nododd yr ymchwil hon mai dim ond pan fydd teuluoedd yn pwyso amdanynt y caiff yr adolygiadau hyn eu cynnal yn aml,

---

[8] Cyfrifiad Lladdiadau Menywod (2021) *Femicide Census: 2021 report*.

[9] Hope, K. et al (2021) What can we learn from Domestic Homicide Reviews with male victims? *Partner Abuse*, 12(4), tt.384–408.

[10] Centre for Women's Justice (2021) *Women who kill: How the state criminalises women we might otherwise be burying*.

[11] Rowlands, J. (2022) The Potential and Limitations of Domestic Homicide Review: A Response to Hope et al. *Partner Abuse*, 13(3), tt.316–325.

ond ar yr un pryd, ei bod yn bosibl na fydd llawer o deuluoedd Du a lleiafrifiedig yn ymwneud â'r broses hon.

**Cwmpas yr adroddiad**

Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o broses adolygiad lladdiad domestig, yn nodi'r angen am atebolrwydd a goruchwyliaeth ganolog, ac yn amlinellu'r gwaith a wneir gan y Comisiynydd Cam-drin Domestig i brofi dull o roi hyn ar waith. Bydd hefyd yn nodi glasbrint a argymhellir ar gyfer cyflwyno system atebolrwydd a goruchwyliaeth genedlaethol, a manteision posibl hyn o ran gwella'r ymateb ehangach i achosion o gam-drin domestig.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r gwaith a wneir gan y Comisiynydd i sefydlu proses goruchwylio gadarn ac mae'n rhoi trosolwg o'r hyn sydd ei angen i gyflwyno system o'r fath yn genedlaethol.

Drwy'r adroddiad hwn, mae'r Comisiynydd yn nodi'r canlynol:

- Yr angen am oruchwyliaeth ac atebolrwydd canolog wrth roi adolygiadau lladdiadau domestig ar waith
- Y manteision y byddai gwaith o'r fath yn eu cynnig o ran datgloi gwersi a ddysgwyd a chefnogi gwaith cynllunio strategol a gweithredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Gallu technoleg newydd i sicrhau goruchwyliaeth effeithiol ac ymgorffori gwersi a ddysgwyd
- Yr angen am ail flwyddyn o dreialu er mwyn helpu i ymgorffori system ar gyfer casglu a dadansoddi data
- Pwysigrwydd rheoli'r effaith ar adnoddau lleol.

**Methodoleg**

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar amrywiaeth o ffynonellau o waith ymchwil allanol a mewnol, gwybodaeth am ymarfer, a mewnbwn gan unigolion sy'n gweithio ar adolygiadau lladdiadau domestig ar lefel. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig wedi ystyried y canlynol:

- Adolygiad o ymchwil a llenyddiaeth academaidd ar adolygiadau lladdiadau domestig.
- Data a gasglwyd drwy dreialu system goruchwyliaeth leol.
- Arolygon a mewnbwn gan ardaloedd peilot am eu profiadau o'r system goruchwyliaeth a phrosesau adolygiadau lladdiadau domestig.
- Ymatebion llywodraeth genedlaethol i argymhellion adolygiadau lladdiadau domestig.
- Fforwm Adolygiadau Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig (Fforwm DARDR);[12] dull cydweithredol o ddod â'r rhai sy'n arwain ar adolygiadau lladdiadau

[12] Diben y Fforwm DARDR yw cefnogi'r rhai sy'n gyfrifol am reoli proses adolygiad marwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig ar lefel weithredol a strategol. Mae'r fforwm yn rhoi lle i rannu gwersi a ddysgwyd ac ymarfer,

domestig mewn awdurdodau lleol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a chyrff iechyd ynghyd. Ffurfiodd y Comisiynydd y Fforwm DARDR ar y cyd â'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLlL) a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu er mwyn dod â'r rhai sy'n arwain ar adolygiadau lladdiadau domestig mewn awdurdodau lleol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a chynrychiolwyr iechyd lleol ynghyd. Pennodd y fforwm ei gylch gorchwyl ei hun.

- Mewnbwn gan arbenigwyr ar dechnoleg newydd i ddadansoddi data.
- Dysgu o adolygiadau lladdiadau domestig.

O ystyried yr amrywiaeth o fewnbwn i'r adroddiad hwn, mae angen cynnwys cymysgedd o sylwebaeth ac argymhellion ar bolisi, ymchwil ac ymarfer.

## Pennod 1 Adolygiadau Lladdiadau Domestig: Cyd-destun a Hanes

Mae'r bennod hon yn amlinellu cefndir a diben Adolygiad Lladdiad Domestig, gan gynnwys beth yw adolygiad o'r fath a beth mae'n ei wneud, y datblygiadau hyd yma a dyfodol y broses adolygu.

### 1.1 Beth yw Adolygiad Lladdiad Domestig?

Mae Adolygiad Lladdiad Domestig yn ymchwilio i amgylchiadau marwolaeth yn dilyn cam-drin domestig. Partneriaethau Diogelwch Cymunedol sy'n bennaf cyfrifol am Adolygiad Lladdiad Domestig, ac am roi unrhyw wersi a ddysgwyd ar waith. Mae'r meini prawf ar gyfer cynnal adolygiad, a'r hyn y dylai adolygiad ei gynnwys, wedi'u nodi mewn canllawiau statudol, y disgwylir iddynt gael eu diweddaru yn ystod haf 2025. [13]

Yn hollbwysig, nod yr Adolygiad Lladdiad Domestig yw deall yr hyn a gollwyd yn yr ymateb statudol cyn y farwolaeth, ac fel arfer, ni fydd yr adolygiad yn ystyried unrhyw weithgarwch neu gyfranogiad gan asiantaethau yn dilyn y farwolaeth. Diben adolygiadau yw dysgu, yn hytrach na bwrw'r bai ar sefydliadau neu unigolion, a chanolbwyntio ar gamau adeiladol y gellir eu cymryd i atal marwolaethau yn y dyfodol.

#### 1.1.1 Proses

Pan fydd marwolaeth yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnal Adolygiad Lladdiad Domestig, cyflwynir hysbysiad i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, fel arfer gan yr heddlu ond weithiau gan asiantaethau eraill, neu deuluoedd mewn profedigaeth sydd wedi dadlau dros adolygiad. Ar ôl cael yr hysbysiad, bydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn dechrau'r broses o gomisiynu adolygiad. Mae'r canllawiau statudol yn pwysleisio y dylid rhoi'r cyfle i deuluoedd

---

codi materion a phryderon, a chael y wybodaeth ddiweddaraf am laddiadau domestig sy'n gysylltiedig â gwaith a marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, gan gynnwys hunanladdiadau.

[13] Y Swyddfa Gartref (2016) *Domestic homicide reviews: statutory guidance*.

fod yn rhan annatod o adolygiadau ac y dylid eu trin fel rhanddeiliaid allweddol – dylai hyn ddigwydd ar bob cam o'r broses a dylid cynnwys teuluoedd mewn adolygiadau cyn gynted â phosibl. [14] Mae'n bwysig bod teuluoedd yn cael cynnig eiriolaeth a chymorth arbenigol, a lle y bo angen, diwylliannol gymwys, cyn gynted â phosibl. [15] Ar ôl cael hysbysiad, bydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn casglu gwybodaeth berthnasol i benderfynu, ar y cyd â phartneriaid amlasiantaethol, p'un a ddylid cynnal Adolygiad Lladdiad Domestig ai peidio, a bydd yn rhoi gwybod i'r Swyddfa Gartref am y penderfyniad hwnnw. Mewn achosion lle bydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi penderfynu peidio â chomisiynu adolygiad, gall y Swyddfa Gartref gyfarwyddo'r Bartneriaeth i gynnal adolygiad os bydd o'r farn bod angen gwneud hynny.

Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol sy'n gyfrifol am sicrhau bod Adolygiad Lladdiad Domestig yn cael ei gynnal ond bydd yn penodi Cadeirydd annibynnol ac yn cynnull panel o gynrychiolwyr o sefydliadau statudol a gwirfoddol lleol sydd naill ai wedi ymwneud ag achos neu sy'n cynnig arbenigedd penodol. Bydd y panel wedyn yn adolygu amgylchiadau'r farwolaeth ac ymateb asiantaethau statudol ac asiantaethau eraill i gam-drin domestig er mwyn nodi pa wersi y mae angen eu dysgu, a sut y gellid gwella ymateb asiantaethau statudol ac asiantaethau eraill i gam-drin domestig, yn ogystal â thynnu sylw at enghreifftiau o ymarfer da. Gofynnir i sefydliadau a fu'n ymwneud â'r unigolion dan sylw i ddarparu Adolygiad Rheoli Unigol. Mae'r adolygiad hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o'i gysylltiad â'r dioddefwr, y tramgwyddwr neu'r tramgwyddwr honedig a'u teuluoedd, wedi'i ategu gan gronoleg. Lle y bo modd, dylai'r Cadeirydd ymgysylltu â'r teulu mewn profedigaeth, ffrindiau a rhwydweithiau eraill, fel cyflogwyr, cydweithwyr a chymdogion, er mwyn deall yr hyn a ddigwyddodd a chlywed unrhyw bryderon neu bryderon y gallant fod am eu codi. Lle y bo modd, gall y Cadeirydd hefyd ymgysylltu â'r tramgwyddwr/tramgwyddwr honedig.

Pan fydd yr holl wybodaeth wedi'i chasglu a'i dadansoddi, bydd y Cadeirydd y llunio adroddiad 'trosolwg' llawn, ynghyd â chrynodeb gweithredol. Cyn y gellir cymeradwyo'r adroddiad, rhaid i fersiwn ddrafft ohono gael ei rhannu â Phanel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref. Mae'r Panel Sicrhau Ansawdd yn cynnwys cynrychiolwyr o asiantaethau statudol perthnasol yn ogystal â'r sector gwirfoddol, sy'n cael adroddiadau ynghyd ag adborth gan grŵp craidd o 'ddarllenwyr' sy'n adolygu'r Adolygiad Lladdiad Domestig yn fanwl ac yn nodi materion perthnasol i'w hystyried. Mae'r panel yn gyfrifol am sicrhau ansawdd pob adroddiad trosolwg ar gyfer Adolygiad Lladdiad Domestig. Os bydd y panel o'r farn bod adroddiad terfynol yn annigonol, bydd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol sy'n gyfrifol am yr adolygiad i esbonio pam y mae angen diwygio'r adroddiad. [16] Gall fod angen nifer o newidiadau ac adolygiad pellach gan y Panel Sicrhau Ansawdd cyn y caiff adroddiad ei

---

[14] Y Swyddfa Gartref (2016) *Multi-agency Statutory Guidance for the Conduct of Domestic Homicide Reviews*.
[15] Y Swyddfa Gartref (2017) *Domestic homicide review: leaflet for family*.
[16] Y Swyddfa Gartref (2013) *Terms of reference: Domestic Homicide Review Quality Assurance Panel*.

ystyried yn barod i'w gyhoeddi. Pan fydd yn barod, tynnir unrhyw enwau o'r adroddiad trosolwg a'r crynodeb gweithredol ac, mewn sawl achos, cânt eu cyhoeddi ar wefan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol neu bartneriaeth leol arall, yn ogystal â'r storfa genedlaethol (llyfrgell Adolygiadau Lladdiadau Domestig y Swyddfa Gartref). [17] Ni chaiff rhai Adolygiadau Lladdiadau Domestig eu cyhoeddi'n llawn, os o gwbl, os bydd pryderon am ddiogelu'r aelodau sy'n weddill o'r teulu a ffrindiau.  Mae'r adroddiad yn cynnwys ffeithiau'r achos, pa wersi y mae angen eu dysgu, argymhellion i fynd i'r afael â'r rhain, a chynllun gweithredu i fynd ar drywydd yr argymhellion.

### 1.1.2 Argymhellion Adolygiad Lladdiad Domestig a chynlluniau gweithredu

Bydd y Cadeirydd annibynnol yn llunio argymhellion a bydd panel yr Adolygiad Lladdiad Domestig yn cytuno arnynt. Dylai'r argymhellion hyn fod wedi'u teilwra'n benodol a dylent fynd i'r afael â'r gwersi a ddysgwyd. Dylai'r argymhellion fod yn rhai CAMPUS[18] a chanolbwyntio ar wella'r ymateb i gam-drin domestig, naill ai ar lefel leol, rhanbarthol neu genedlaethol.

Ar ôl i adolygiad gael ei gyhoeddi, bydd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn datblygu cynllun gweithredu i gefnogi'r broses o roi'r argymhellion ar waith ar lefel leol a chenedlaethol. Disg Disgwylir i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol olrhain cynnydd camau gweithredu sy'n gysylltiedig ag argymhellion mewn adolygiadau drwy gynlluniau gweithredu amlasiantaethol. Mae'r canllawiau statudol diwygiedig yn nodi bod cynlluniau ac argymhellion yn rhan allweddol o broses Adolygiad Lladdiad Domestig, a'i bod yn hollbwysig bod digon o ffocws ar sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn ystyrlon, yn berthnasol ac yn sicrhau'r newid sydd ei angen i atal rhagor o laddiadau ac achosion o gam-drin.

## 1.2 Pam y cafodd Adolygiadau Lladdiadau Domestig eu cyflwyno?

Cyflwynwyd Adolygiadau Lladdiadau Domestig er mwyn pennu pa wersi y gellid eu dysgu o laddiadau domestig a sut y gellid eu rhoi ar waith er mwyn gwella ymatebion gwasanaethau, helpu i ddeall trais a cham-drin domestig a datblygu a nodi enghreifftiau o ymarfer da. [19]

Ar ôl i Frank Mullane ymgyrchu'n ddiflino i roi llais i'w chwaer, Julie Pemberton a'i nai, William Pemberton ar ôl eu marwolaeth, cafodd yr Adolygiad Lladdiad Domestig cyntaf, cyn i'r canllawiau statudol gael eu cyhoeddi, ei gynnal gan Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Gorllewin Berkshire a'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2008.  Ystyriodd yr adolygiad farwolaethau Julia a William a chafodd ei drafod yn Senedd y DU.[20] Yn ystod y drafodaeth, dywedwyd bod Dr Carolyn Hoyle wedi nodi yn yr adolygiad bod yn rhaid i Heddlu Dyffryn Tafwys ***"ensure that the tragic deaths of Julia and William Pemberton are embedded into its institutional memory in order that current commitment to helping victims of domestic violence does not wane"***.[21] O'r

---

[17] Y Swyddfa Gartref (2025) *Domestic Homicide Review Library*.

[18] Ystyr CAMPUS yw cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol.

[19] Y Swyddfa Gartref (2016) *Multi-agency Statutory Guidance for the Conduct of Domestic Homicide Reviews*.

[20] Hansard (2009) *House of Commons Debate: Pemberton Homicide Review*.

[21] Hansard (2009) *House of Commons Debate: Pemberton Homicide Review*.

cychwyn cyntaf, mae teuluoedd a seneddwyr wedi bod yn poeni am sut i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn arwain at newid.

**1.3 Hanes a datblygiad Adolygiadau Lladdiadau Domestig**

- Er bod Adran 9 o'r Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr wedi deddfu ar eu cyfer yn 2014, dim ond yn 2011 y cafodd Adolygiadau Lladdiadau Domestig eu rhoi ar waith yn ffurfiol yng Nghymru a Lloegr drwy gyflwyno canllawiau statudol. Nid oedd Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn cynnwys hunanladdiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig tan 2016 pan gyflwynwyd newidiadau yn ffurfiol yn y canllawiau statudol diwygiedig.
- Mae'r canllawiau statudol diwygiedig yn pennu mai rôl adolygiadau yw **taflu goleuni ar y gorffennol er mwyn sicrhau dyfodol mwy diogel**,[22] drwy roi sylw i'r mathau niferus o farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, gan gynnwys lladdiadau partneriaid agos, lladdiadau aelodau o'r teulu sy'n oedolion, a dioddefwyr sy'n marw drwy hunanladdiad, yn ogystal â chyfleoedd a gollwyd i ymyrryd.
- Yn 2022, ymrwymodd y Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig i gyflwyno rôl fwy ffurfiol ar gyfer y Comisiynydd Cam-drin Domestig wrth oruchwylio'r broses o roi Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar waith, a darparodd £100k er mwyn helpu i ddatblygu prosiect peilot.

- Yn 2023, creodd y Swyddfa Gartref lyfrgell Adolygiadau Lladdiadau Domestig,[23] gyda'r nod o ddod ag Adolygiadau Lladdiadau Domestig cyhoeddedig ynghyd mewn un lleoliad ar-lein canolog. Mae'r adolygiadau hyn ar gael i'r cyhoedd.

- ***Yn 2024, aeth Llywodraeth Cymru ati i dreialu a chyflwyno Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl.*** Er bod y canllawiau statudol ar Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn gymwys i Gymru a Lloegr, mae Cymru wedi treialu'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) ac wedi ei roi ar waith yn ffurfiol. Mae'r broses hon yn golygu bod un adolygiad i gwmpasu pob adolygiad diogelu yng Nghymru, [24]gyda'r nod o sicrhau bod y teulu dan sylw wrth wraidd proses adolygu hwylus a thrylwyr. Mae'r ADUS yn ei flwyddyn weithredu gyntaf a chaiff ei lywodraethu gan ganllawiau statudol,[25] sy'n cynnwys cyfeiriadau at y canllawiau statudol ar Adolygiadau Lladdiadau Domestig. [26] Bwrdd Gweinidogol ADUS Cymru, sy'n cynnwys Grŵp Strategaeth ADUS a Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd, sy'n gyfrifol am oruchwylio'r broses hon. Ochr yn ochr â'r broses ADUS y mae storfa sy'n coladu adolygiadau, argymhellion a chamau gweithredu. Erbyn mis Mehefin 2025,

---

[22] Mullane, F. (2017) 'The impact of family members' involvement in the domestic violence death review process' yn M. Dawson (Ed.), *Domestic homicides and death reviews: An international perspective*. Y DU: Palgrave Macmillan.
[23] Y Swyddfa Gartref (2025) *Domestic Homicide Review Library*.
[24] Mae hyn yn cynnwys Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Lladdiadau Domestig, Adolygiadau Lladdiadau Iechyd Meddwl ac Adolygiadau Lladdiad ag Arf Ymosodol.
[25] Llywodraeth Cymru (2024) *Adolygiad Diogelu Unedig Sengl: canllawiau statudol*.
[26] Mae'n ofynnol i Adolygiadau Lladdiadau Domestig ddilyn y canllawiau statudol ar Adolygiadau Lladdiadau Domestig o hyd. Fodd bynnag, mae Cymru yn treialu dull amgen o sicrhau ansawdd y tu allan i Banel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref.

disgwylir y bydd defnyddwyr cofrestredig yn gallu nodi gwersi a ddysgwyd o ADUSau yng Nghymru. Nod yr ADUS yw gwella ffyrdd o adolygu gwersi a ddysgwyd fel bod llunwyr polisi, academyddion, llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol yn defnyddio'r ADUS, a bydd hyn yn helpu i wella'r sail dystiolaeth i newid ymarfer.

- Ym mis Ionawr 2025, ailffurfiodd y Swyddfa Gartref y Panel Sicrhau Ansawdd drwy benodi aelodau drwy broses benodi gyhoeddus fwy ffurfiol. Nod hyn yw sicrhau bod y Panel yn fwy trylwyr.
- Mae'r Swyddfa Gartref wedi ymrwymo i roi hyfforddiant ffurfiol i gadeiryddion ac wedi comisiynu Advocacy After Fatal Domestic Abuse (AAFDA) i ddarparu'r hyfforddiant hwn dros gyfnod o ddwy flynedd yn dechrau ym mis Ebrill 2024, er mwyn gwella nifer ac ansawdd y Cadeiryddion sydd ar gael ar gyfer Adolygiadau Lladdiadau Domestig. Mae tîm y Comisiynydd yn bwydo i mewn yn uniongyrchol i'r grŵp llywio ar gyfer y rhaglen hyfforddiant hon. Pan fydd y gronfa o Gadeiryddion hyfforddedig yn ddigon mawr, disgwylir mai dim ond y rhai sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant gaiff gadeirio Adolygiadau Lladdiadau Domestig.
- Cyflwynodd Adran 19 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 newid i enw'r adolygiadau, sef Adolygiadau Marwolaethau Sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig, ynghyd â diwygiadau i Adran 9 o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 i gynnwys y diffiniad o gam-drin domestig yn Neddf Cam-drin Domestig 2021 mewn perthynas â phryd y dylai hysbysiad ar gyfer adolygiad fod yn gymwys. Cyflwynir y newidiadau hyn yn ffurfiol yn 2025 ochr yn ochr â'r canllawiau statudol diwygiedig. [27]

**Pennod 2: Yr angen am oruchwyliaeth**

Dros y 13 mlynedd diwethaf, gwelwyd ailadrodd sylweddol o ran natur a thema argymhellion. . Ochr yn ochr â hyn, ni fu unrhyw oruchwyliaeth o'r themâu mynych hynny mewn argymhellion lle mae angen newidiadau i ddeddfwriaeth genedlaethol, adnoddau ychwanegol neu ganllawiau er mwyn sicrhau newid cyson wedi'i ymwreiddio ar lefel leol.

Bydd y bennod hon yn rhoi trosolwg o'r angen am broses oruchwylio, gan amlinellu rhai o'r prif faterion a heriau a nodwyd gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, asiantaethau statudol ac asiantaethau gwirfoddol a fu'n ymwneud ag Adolygiadau Lladdiadau Domestig. Mae hyn yn cynnwys materion a nodwyd gan y Comisiynydd wrth bennu'r angen am broses oruchwylio ac a godwyd gan deuluoedd mewn profedigaeth o ganlyniad i farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.

Mae manteision goruchwyliaeth genedlaethol wedi'u nodi ym Mhennod 3, ac mae'r dyluniad a argymhellwyd gan y Comisiynydd ar gyfer proses oruchwylio wedi'i nodi ym Mhennod 5.

[27] Y Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion (2024): Adran 19.

## 2.1 Y broblem: diffyg goruchwyliaeth o'r broses o roi argymhellion Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar waith, ac atebolrwydd am hynny

Ni fu erioed unrhyw oruchwyliaeth nac atebolrwydd cenedlaethol mewn perthynas â'r broses o roi argymhellion ar waith. Yn rhinwedd ei rôl ddynodedig, pwysleisiodd y Comisiynydd fod angen craffu'n annibynnol ar Adolygiadau Lladdiadau Domestig. Wrth basio Deddf Cam-drin Domestig 2021[28], dadleuodd dros ddarpariaeth gyfreithiol i'w gwneud yn ofynnol i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol rannu eu hadolygiadau â'r Comisiynydd ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi. Felly, mae'r Ddeddf Cam-drin Domestig yn ei gwneud yn ofynnol i bob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol gyflwyno unrhyw adolygiadau terfynol i'r Comisiynydd, a fydd yn gam cyntaf pwysig tuag at sefydlu proses oruchwylio.

Nid yw'r canllawiau statudol presennol, er bod disgwyl iddynt gael eu diweddaru yn ddiweddarach yn 2025, yn cyfeirio at unrhyw oruchwyliaeth nac atebolrwydd cenedlaethol mewn perthynas â'r broses o roi argymhellion ar waith. Mae'r broses o roi cynlluniau gweithredu ar waith wedi parhau'n gyfrifoldeb lleol, ac er bod Partneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi nodi eu bod wedi rhannu argymhellion cenedlaethol â'r Comisiynydd a/neu gyrff cenedlaethol eraill, nid yw'n glir a yw'r cynlluniau gweithredu hyn wedi'u rhoi ar waith, na sut. O ganlyniad, nid oes unrhyw gyd-ddealltwriaeth o ran a yw argymhellion a'r camau gweithredu dilynol wedi'u cwblhau na pha effaith y maent wedi eu cael o ran atal niwed yn y dyfodol.

Mae academyddion wedi beirniadu'r defnydd o Adolygiadau Lladdiadau Domestig a'u heffeithiolrwydd, gan nodi diffyg gwaith craffu, goruchwyliaeth ac atebolrwydd mewn perthynas â'r broses o roi argymhellion a gwersi a ddysgwyd ar waith. Yn fwyaf diweddar, yn ei archwiliad o botensial a pherygl adolygu marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, nododd Rowlands[29]:

- Materion yn ymwneud â chapasiti Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i gyflawni prosesau Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn gyson.
- Diffyg goruchwyliaeth genedlaethol gyson, nid yn unig o ran craffu ar Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ond hefyd o ran casglu gwersi a ddysgwyd ynghyd a mynd i'r afael â nhw yn genedlaethol, gan olygu nad oes sicrwydd cyson bod adolygiadau yn arwain at gamau gweithredu.
- Diffyg eglurder ynglŷn â'r newidiadau sy'n deillio o adolygiadau.
- Tan yn ddiweddar, pan lansiwyd y llyfrgell Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn 2023, nid oedd unrhyw ffordd o wybod am wersi a ddysgwyd mewn ardaloedd eraill ar raddfa genedlaethol ar wahân i brosiectau academaidd penodol. [30]

[28] Y Ddeddf Cam-drin Domestig (2021): Adran 17.
[29] Rowlands, J. (2025) *The Potential and Peril of Reviewing Domestic Abuse-related Deaths*.
[30] Sharp-Jeffs, N. a Kelly, L. (2016) *Domestic homicide review (DHR): case analysis report for Standing Together*; Chantler, K. et al. (2020) Learning from domestic homicide reviews in England and Wales, *Health and Social Care in the Community*, 28(2), tt.485-493.

Tameidiog fu'r gwaith o ddadansoddi adolygiadau a'r themâu a'r tueddiadau ynddynt cyn i'r llyfrgell Adolygiadau Lladdiadau Domestig gael ei ddatblygu. Fodd bynnag, mae academyddion wedi llunio dadansoddiad pwysig o amgylchiadau'r lladdiadau a'r marwolaethau hyn a'r gwersi a ddysgwyd oddi wrthynt.[31]

Ers 2020, mae'r Swyddfa Gartref wedi comisiynu dadansoddiad ansoddol blynyddol o Adolygiadau Lladdiadau Domestig. [32] Mae'r dadansoddiad yn archwilio tueddiadau yn seiliedig ar leoliad, demograffeg, nodweddion dioddefwyr a thramgwyddwyr, ac yn ystyried cyfraniadau gan y teulu at y broses adolygu. Mae'r dadansoddiad hwn, a dadansoddiadau eraill, fel yr un a gynhaliwyd gan brosiect Homicide Abuse Learning Together (HALT)[33] wedi dangos themâu cyson yn ailadrodd mewn adolygiadau. Mae hyn yn dangos yn glir nad yw gwersi'n cael eu hymgorffori na'u rhannu ar draws ardaloedd.

Er bod tua 600 o adolygiadau ar gael drwy'r llyfrgell Adolygiadau Lladdiadau Domestig, dim ond meysydd yr argymhellion y gellir eu cymharu, nid sut y cawsant eu rhoi ar waith (neu, yn bwysicach, p'un a gawsant eu rhoi ar waith ai peidio).

Nododd Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig 2022[34] amcanion ac agenda ddiwygio y Llywodraeth flaenorol ar gyfer Adolygiadau Lladdiadau Domestig. Roedd hyn yn cynnwys pwysigrwydd rhoi gwersi a ddysgwyd o laddiadau domestig ar waith ac ymrwymiad i greu proses oruchwylio gryfach. Ymrwymodd y Cynllun i gyflwyno rôl ffurfiol ar gyfer y Comisiynydd Cam-drin Domestig wrth oruchwylio'r broses o roi argymhellion adolygiadau ar waith ac ystyriodd gyflwyno rôl ffurfiol ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i haneru nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod mewn degawd.[35] Mae'r uchelgais hon yn allweddol i gyflawni'r genhadaeth Strydoedd Mwy Diogel ehangach. [36] Mesur llwyddiant allweddol fydd mynd i'r afael â'r achosion mwyaf difrifol o niwed, lle mae bywydau wedi'u colli. Mae Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn cynrychioli cyfoeth o wybodaeth, ond eto, nid oes gennym unrhyw syniad ar hyn o bryd i ba raddau y mae argymhellion a chynlluniau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn gyfle enfawr a gollwyd.

[31] Sharp-Jeffs, N. a Kelly, L. (2016) *Domestic homicide review (DHR): case analysis report for Standing Together*; Chantler, K. et al. (2020) Learning from domestic homicide reviews in England and Wales, Health and Social Care in the Community, 28(2), tt.485-493.
[32] Y Swyddfa Gartref (2024) *Analysis of domestic homicide reviews*.
[33] Rhwng 2019 a 2021, cynhaliodd Prifysgol Fetropolitan Manceinion astudiaeth o Adolygiadau Lladdiadau Domestig drwy ei phrosiect Homicide Abuse Learning Together (HALT). Coladodd prosiect HALT, gyda chymorth King's College Llundain, storfa o 316 o Adolygiadau Lladdiadau Domestig, a dadansoddodd 302 o adolygiadau a gyhoeddwyd rhwng 2011 a 2019. Casglwyd yr adolygiadau hyn drwy dudalennau gwe awdurdodau lleol a rhannwyd adroddiadau drwy wefannau HALT. Maent bellach wedi'u cynnwys yn Llyfrgell y Swyddfa Gartref.
[34] Llywodraeth EF (2022) *Tackling Domestic Abuse Plan*.
[35] Y Blaid Lafur (2024) *Labour Party Manifesto 2024: Our plan to change Britain*.
[36] Swyddfa'r Prif Weinidog (2025) *Safer Streets*.

### 2.2 Adolygiadau Lladdiadau Domestig: Yr heriau presennol

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer proses oruchwylio ar gyfer Adolygiadau Lladdiadau Domestig, ceisiodd y Comisiynydd wybodaeth gan amrywiaeth o ffynonellau er mwyn deall yr heriau a wynebir wrth gynllunio Adolygiadau Lladdiadau Domestig a'u rhoi ar waith. Mae rhai o'r heriau hyn wedi'u nodi isod.

#### 2.2.1 Amseroldeb adolygiadau

*"The whole process takes too long, far too long for families because you can't move on, you can't get to the inquest, you can't get anywhere until that DHR is done."*[37]

*Aelod o deulu mewn profedigaeth, yn adroddiad WWIN, 2024*

Roedd yr amser a gymerodd i adolygiad gael ei gwblhau a'i gyhoeddi yn broblem mewn 71% o'r ardaloedd peilot a arolygwyd gan y Comisiynydd. Ar hyn o bryd, mae'r canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i adolygiad trosolwg gael ei gwblhau o fewn chwe mis i benderfyniad i gynnal adolygiad, ond pur anaml y mae hyn yn digwydd. [38] Nid oes gofyniad amser ar gyfer cwblhau'r broses sicrhau ansawdd. Nododd partneriaethau lleol oedi rhwystredig o ran y broses sicrhau ansawdd, ac mae hyn yn rhywbeth y mae'r Swyddfa Gartref yn ceisio mynd i'r afael ag ef drwy recriwtio penodeion cyhoeddus i'r panel.

Mae dadansoddiad o'r arolwg o ardaloedd peilot yn dangos mai'r cyfnod cyfartalog o amser rhwng cynnal cyfarfod cyntaf y panel ac anfon yr Adolygiad Lladdiad Domestig at y Swyddfa Gartref i sicrhau ei ansawdd oedd **18 mis**, gan amrywio o ddau fis i 55 mis. Ar gyfartaledd, aeth pum mis heibio ar ôl i'r Panel Sicrhau Ansawdd wrando'r adolygiad cyntaf cyn iddo ei gymeradwyo (Ffigur 1).


**O ddyddiad marwolaeth y dioddefwr i'r dyddiad cyhoeddi, yr amser cyfartalog a gymerodd i gwblhau adolygiad, ar sail cyflwyniadau'r prosiect peilot, oedd 37 mis.**

---

[37] Dangar, S. (2024) *Domestic Homicide Reviews: The role of family, friends and community – 'A hierarchy of testimony'?*

[38] BBC News (2025) *Domestic abuse review delays are 'hell', bereaved families say - BBC News*.

Ffigur 1: Cyfnodau cyfartalog o amser ar draws camau gwahanol proses Adolygiad Lladdiad Domestig




Canfu dadansoddiad gan y Swyddfa Gartref o Adolygiadau Lladdiadau Domestig fod y cyfnod o amser rhwng marwolaeth dioddefwr a chwblhau'r adolygiad yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys ymchwiliad yr heddlu, treial troseddol, cwest crwner a chyswllt â'r teulu, yn ogystal â chyflwyniad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i'r Swyddfa Gartref a'r broses sicrhau ansawdd. Nododd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol hefyd fod y nifer cynyddol o adolygiadau yn cyfrannu at yr amser a gymerir i'w cwblhau.

Nododd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol y materion penodol canlynol:

- Hyd achosion troseddol
- Anawsterau wrth recriwtio Cadeiryddion
- Capasiti asiantaethau i gwblhau Adolygiadau Rheoli Unigol
- Capasiti asiantaethau i gymryd rhan yn y broses
- Y gallu i gymryd rhan yn y broses, pan fo pwysau ar gapasiti o ganlyniad i gyfrannu at nifer o brosesau adolygu.

O ganlyniad, bu oedi mewn rhai ardaloedd cyn dechrau neu symud ymlaen gydag hadolygiad. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar deuluoedd, a nododd un aelod o'r teulu "the whole process takes too long, far too long for families because you can't move on, you can't get to the inquest, you can't get anywhere until that DHR is done"[39] ac nac yw Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn atebol am hyn.

Mae'r mater parhaus o brosesau adolygu hir yn effeithio ar hyder yn y broses adolygu ei hun, yn enwedig i aelodau teulu, y mae rhai ohonynt wedi brwydro am adolygiad ac wedi bod yn rhan o'r broses ers sawl blwyddyn. [40]

[39] Dangar, S. (2024) *Domestic Homicide Reviews: The role of family, friends and community – 'A hierarchy of testimony'?*
[40] BBC News (2025) *Domestic abuse review delays are 'hell', bereaved families say - BBC News*.

Yn ei hymateb i'r ymgynghoriad ar y canllawiau statudol, argymhellodd y Comisiynydd y dylid diwygio'r canllawiau statudol wedi'u diweddaru i orfodi terfyn amser ar oedi adolygiad yn hytrach na disgwyliad i'w gwblhau o fewn cyfnod o chwe mis, sy'n afrealistig. Dylai'r canllawiau bennu'r hyn sy'n gyfystyr ag oedi rhesymol, megis achosion troseddol neu apeliadau hir. [41] Dylai'r Swyddfa Gartref hefyd ystyried diwygiadau pellach i'r Panel Sicrhau Ansawdd, y tu hwnt i recriwtio penodeion cyhoeddus, er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch wrth gwblhau adroddiadau trosolwg a chyhoeddiadau.

Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn cyfrannu cyfran fawr o gyllid at Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn lleol, ac, mewn rhai ardaloedd, dim ond awdurdodau lleol sy'n cyfrannu at gostau Adolygiad Lladdiadau Domestig. [42] Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol hefyd yn gyfrifol a oruchwylio proses yr Adolygiad Lladdiad Domestig. Y Cadeirydd, gan weithio gyda'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, sy'n gyfrifol am gynnal yr Adolygiad. Fodd bynnag, mae'r ddau beth hyn yn aml yn ddryslyd, oherwydd diffyg capasiti Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, neu oherwydd diffyg cysondeb o ran y ffordd y mae Cadeiryddion yn cyflawni eu rôl i gynnal Adolygiadau Lladdiadau Domestig, ymhlith materion eraill. Mae teuluoedd hefyd wedi mynegi pryderon bod rhai cadeiryddion yn ymgymryd â gormod o adolygiadau[43] ac mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi nodi heriau wrth recriwtio cadeiryddion.

Mae oedi wrth sicrhau ansawdd yn broblem hefyd. Tynnodd Fforwm DARDR sylw at bryderon am oedi wrth sicrhau ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys ôl-groniadau o adolygiadau ar gyfer y Panel Sicrhau Ansawdd yn ogystal ag adborth anghyson neu annefnyddiol, y mae angen ei ddiwygio cyn ei ailgyflwyno i sicrhau ei hansawdd. Canfu'r Comisiynydd oedi ar ddiwedd y broses hefyd, rhwng cymeradwyaeth y Panel Sicrhau Ansawdd a'r cyhoeddiad terfynol.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae llawer o ardaloedd wedi rhoi prosesau 'adolygu cyflym' ar waith fel bod modd i asiantaethau nodi gwersi cynnar a ddysgwyd a'u rhoi ar waith cyn gynted â phosibl cyn i adolygiad cynhwysfawr ddechrau. Amlinellodd y Swyddfa Gartref elfennau 'Adolygiad Cwmpasu' yn y canllawiau diwygiedig drafft, a oedd â'r nod o gefnogi'r broses o reoli nifer cynyddol o hysbysiadau. Mae'r 12 mis ers i'r canllawiau drafft gael eu cyhoeddi – heb unrhyw ganllawiau terfynol wedi'u cadarnhau – wedi arwain at anghysondeb rhwng ardaloedd lleol wrth roi adolygiadau cyflym effeithiol ar waith.

### 2.2.2 Nifer cynyddol o adolygiadau

Mae'r broses well o nodi marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, er ei bod i'w chroesawu, yn cael effaith gronnol ar nifer yr adolygiadau sy'n cael eu cynnal ar yr un pryd.

---

[41] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2024) *Consultation on updating the Domestic Homicide Review Statutory Guidance: Written submission from the Domestic Abuse Commissioner for England and Wales*.

[42] Y Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig (2024) *Domestic Homicide Review Survey 2024: Research Report.*

[43] Dangar, S. (2024) *Domestic Homicide Reviews: The role of family, friends and community – 'A hierarchy of testimony'?*

Mae hyn yn arbennig o wir am ddioddefwyr sy'n marw drwy hunanladdiad neu 'laddiadau cudd'.

Mae nifer yr Adolygiadau Lladdiadau Domestig sy'n cael eu clywed gan Banel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, gyda chynnydd o 23% yn nifer yr Adolygiadau rhwng mis Medi 2020 a mis Medi 2023. 44 Mae Prifysgol Durham a Phrifysgol City St George's Llundain wrthi'n cynnal ymchwil ar y cyd i fapio'r hysbysiadau a gafwyd gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r Adolygiadau Lladdiadau Domestig a gomisiynwyd er mwyn olrhain y cynnydd hwn mewn amser real.

Er gwaethaf y cynnydd, ni fu fawr ddim newid yn y broses na'r adnoddau i ddarparu ar ei gyfer. Nid yw'r canllawiau statudol wedi mynd i'r afael yn ddigonol â'r angen i gynnwys marwolaethau y tu hwnt i farwolaethau o ganlyniad i laddiadau nac wedi ei reoli'n effeithlon.

Mae cynnwys hunanladdiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yng nghanllawiau statudol 2016 wedi cael effaith benodol yn hyn o beth. Er eu bod yn eu cefnogi'n fras, mae llawer yn teimlo bod y canllawiau statudol ar y marwolaethau penodol hyn yn annigonol. [45] Mae hyn wedi golygu bod y broses yn frith o anghysondeb ac ansicrwydd. Mae'r adolygiadau hyn yn codi cwestiynau ac, yn aml, mae angen ystyriaethau cyfreithiol mwy cymhleth, er enghraifft yn absenoldeb cyhuddiad yn erbyn cyflawnwr cam-drin domestig neu pan fydd tramgwyddwr yn cadw cyfrifoldeb rhiant am blant yr ymadawedig. Mae hyn yn golygu bod materion yn aml o ran rhannu gwybodaeth a chynnwys teuluoedd, a all arwain at oedi pellach wrth gynnal adolygiadau.

Mae'r newid arfaethedig i enw'r adolygiadau, i egluro cwmpas Adolygiadau Lladdiadau Domestig, wedi'i groesawu. Fodd bynnag, heb ystyriaethau gofalus o ran sut i liniaru unrhyw faterion o ran adnoddau ychwanegol, mae risg y caiff Partneriaethau Diogelwch Cymunedol eu llethu gan nifer yr adolygiadau, a allai gynyddu'n sylweddol.

Craidd y mater hwn yw capasiti a diffyg canllawiau clir, nid yn unig i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ond hefyd i asiantaethau, gan gynnwys sefydliadau 'gan ac ar gyfer' arbenigol a'r sector arbenigol ehangach sy'n cyfrannu at adolygiadau, y mae gan lawer ohonynt nifer cyfyngedig o gynrychiolwyr priodol a all gyflawni rôl y panel. Ychwanegir at y mater hwn pan fydd nifer o adolygiadau yn cronni ar yr un pryd a phan fydd ffiniau asiantaethau yn croesi sawl awdurdod lleol neu ymddiriedolaeth y GIG. Adolygiad Lladdiad Domestig yw'r cyfle olaf i godi llais dioddefwr a deall yr amgylchiadau a arweiniodd at y farwolaeth. Mae'n hollbwysig bod unrhyw sy'n rhan o banel Adolygiad Lladdiad Domestig yn teimlo ei fod yn gallu rhoi ei sylw di-dor iddo a bod teuluoedd sy'n arsylwi ar y broses hon neu'n cymryd rhan ynddi yn teimlo bod aelodau'r panel yn ymroi'n llwyr i'r broses.

Mae'r Comisiynydd yn ymddiried ym mhroses Adolygiad Lladdiad Domestig i daflu goleuni ar y gorffennol er mwyn sicrhau dyfodol mwy diogel. Fodd bynnag, os nad oes gan Bartneriaethau

---

[44] Y Swyddfa Gartref (2024) *Analysis of domestic homicide reviews*.


[45] Rowlands, J. a Dangar, S. (2023) The Challenges and Opportunities of Reviewing Domestic Abuse-Related Deaths by Suicide in England and Wales. *Journal of Family Violence*, 39, tt.723-727.

Diogelwch Cymunedol y capasiti i gynnal adolygiadau craff ac amserol (heb sôn am roi argymhellion ar waith), mae hyn yn ddefnydd gwael o adnodd lleol, y dylid manteisio i'r eithaf arno er mwyn dysgu gwersi o golled.

**2.2.3 Cost uniongyrchol ac anuniongyrchol cynnal adolygiadau**

Mae'r ardaloedd peilot wedi nodi'n gyson fod diffyg cyllid digonol ar gyfer Cadeiryddion, cymorth gweinyddol, a chydlynu, ac nid dim ond oherwydd bod nifer yr adolygiadau wedi cynyddu. Canfu arolygiad ar y cyd a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2024,  rhwng y Comisiynydd a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLlL), fod gwariant ar Adolygiadau Lladdiadau Domestig wedi bod yn cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd yr awdurdodau lleol a ymatebodd eu bod wedi gwario cyfanswm o £1m ar Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn 2022/23, 45% yn fwy na'r hyn a wariwyd yn 2021/22, a oedd, yn ei dro, 29% yn fwy na'r hyn a wariwyd yn 2020/21.

Ffigur 2: Cyfanswm gwariant amcangyfrifedig awdurdodau lleol ar Adolygiadau Lladdiadau Domestig rhwng 2018/19 a 2022/23




n=64 o ymatebwyr

Roedd tua thri chwarter y gwariant hwnnw ar Gadeiryddion Adolygiadau Lladdiadau Domestig. Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd ddarparu costau adnoddau anariannol staff CALl yr aethpwyd iddynt wrth ymgymryd ag Adolygiadau Lladdiadau Domestig a'u rhoi ar waith yn 2022/2023. Ymatebodd 51 o ymatebwyr, gan amcangyfrif 81.6 o staff CALl ar draws pob ardal (neu 1.6 o staff CALl ar gyfartaledd). Yn seiliedig ar gyflog cyfartalog o £30k i gynrychioli'r rolau gwahanol dan sylw, mae hyn yn gyfystyr â chost flynyddol o £2.4m mewn costau staff ar gyfer gweinyddu a chynnal Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn uniongyrchol. [46] Nid yw hyn yn ystyried costau amser aelodau llawn y panel i baratoi Adolygiadau Rheoli Unigol a chymryd rhan mewn adolygiadau (sy'n aml yn niferus), neu gapasiti ac amser asiantaethau ehangach i gymryd rhan mewn adolygiadau.

Awdurdodau lleol sy'n cario baich ariannol adolygiadau, gyda'r cyfraniadau partneriaeth mwyaf yn cael eu gwneud gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ac Ymddiriedolaethau'r GIG.

[46] Y Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig (2024) *Domestic Homicide Review Survey 2024: Research Report.*

Nododd 96% o'r ymatebwyr i arolwg ar y cyd y Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig fod eu Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn wynebu heriau wrth ymgymryd ag Adolygiadau Lladdiadau Domestig a'u rhoi ar waith. [47] Mae'r heriau hyn yn bryder cynyddol i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol sy'n gyfrifol am gynnal adolygiadau sydd â blaenoriaethau gwahanol ar gyfer yr un cyllid cyfyngedig. Mae'n hollbwysig bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn sicrhau bod adolygiadau yn parhau i gael eu cynnal i safon uchel a'u bod yn gallu bod yn effeithiol o ran hyrwyddo newid mewn polisi ac ymarfer.

#### 2.2.4 Anawsterau wrth ddangos effaith

Canfu astudiaeth yn cymharu Adolygiadau Marwolaethau sy'n gysylltiedig â Thrais Teuluol/Domestig ar lefel ryngwladol[48] fod yr holl adolygiadau a archwiliwyd fel rhan o'r astudiaeth wedi nodi mai lleihau nifer y marwolaethau oedd un o nodau'r broses adolygu. Fodd bynnag, ni nododd yr un ohonynt leihad gwirioneddol. Mae astudiaethau wedi dangos ei bod hi'n anodd dangos effaith adolygiadau ar nifer y marwolaethau yn y ffordd hon, o gofio'r analluedd i bennu cysylltiad achosol rhwng argymhellion adolygiadau a lleihad yn nifer y marwolaethau neu niwed. [49] Mae'n arbennig o anodd priodoli effaith Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig wrth i welliannau gael eu gwneud i'r broses o nodi'r marwolaethau hyn (yn enwedig hunanladdiadau).  Mae hyn yn golygu y bydd nifer yr adolygiadau marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn cynyddu, hyd yn oed wrth i welliannau sylweddol gael eu gwneud i'r system. Mae Adolygiadau Lladdiadau Domestig a'r argymhellion a wneir oddi mewn iddynt yn dod â nifer o asiantaethau ynghyd i fynd i'r afael â'r bylchau mewn ymatebion ac atgyfnerthu'r ymateb cymunedol cydgysylltiedig i gam-drin domestig. Bydd y gwersi cyfunol a ddysgwyd o adolygiadau yn ysgogi newid systemig ar lefel genedlaethol ac, felly, gall gymryd mwy o amser i wireddu cyfraniadau o adolygiadau. [50] Fodd bynnag, ni ddylid tanbrisio eu pwysigrwydd o ran cyfrannu at leihau niwed yn y dyfodol na'u potensial i ysgogi camau gweithredu sy'n atal achosion pellach mewn amgylchiadau tebyg. Mae hyn yn heriol, yn rhannol am fod yr heddlu ac asiantaethau wedi dod yn well am nodi lle y gallai cam-drin domestig fod wedi bod yn ffactor – mewn achosion o hunanladdiad neu laddiad cudd – gan gynyddu nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig sy'n cael eu cofnodi a'u hadolygu.

Mae diffyg goruchwyliaeth ac atebolrwydd cenedlaethol yn cyfrannu at yr anawsterau hyn. Nododd cyfranwyr at waith Rowlands fod arweinyddiaeth anghyson gan y Swyddfa Gartref

---

[47] Y Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig (2024) *Domestic* Homicide Review Survey 2024: Research Report.

[48] Bugeja, L. et al (2015) Domestic/family violence death reviews: An international comparison. *Trauma, Violence and Abuse*, 16(2), tt.179-187.

[49] Jones, C. et al (2022) Domestic Homicide Review Committees' Recommendations and Impacts: A Systematic Review. *Homicide Studies*, 28(1).; Bugeja, L. et al (2015) Domestic/family violence death reviews: An international comparison. *Trauma, Violence and Abuse*, 16(2), tt.179-187.

[50] Bugeja, L. et al (2015) Domestic/family violence death reviews: An international comparison. *Trauma, Violence and Abuse*, 16(2), tt.179-187.

wedi cyfrannu at ddiffyg defnyddioldeb Adolygiadau Lladdiadau Domestig.[51] Mynegodd eiriolwr teuluoedd yn yr un astudiaeth bryderon am y cyfnod o amser y mae adolygiadau wedi'u hymwreiddio mewn ymarfer, ond bod yr un cyfleoedd yn cael eu colli dro ar ôl tro. Roedd y rhai a gyfwelwyd gan Rowlands yn teimlo bod diffyg goruchwyliaeth genedlaethol yn golygu bod fawr ddim sicrwydd y byddai adolygiadau yn arwain at gamau gweithredu.

Heb ymrwymiad i broses sy'n ymwneud yn bennaf ag effaith, ni allwn wybod a yw'r buddsoddiad adnoddau ar gyfer asiantaethau a chyfalaf emosiynol teuluoedd, ffrindiau a'r unigolion hynny sy'n gweithio ar adolygiad yn sicrhau'r budd gorau posibl.

Nod cyffredinol cyflwyno proses oruchwylio yw ysgogi gwelliannau yn yr ymateb lleol i gam-drin domestig, gan adeiladu ar y ddealltwriaeth a'r wybodaeth a geir o gannoedd o adolygiadau. Gall hyn leihau nifer y marwolaethau a'r hunanladdiadau yn y dyfodol, ac atal cam-drin domestig, ond mae manteision mwy uniongyrchol, gan gynnwys:

- Proses well o gynllunio camau gweithredu sy'n seiliedig ar ganlyniadau lleol
- Gwybodaeth gyfunol sy'n arwain at newid polisi cenedlaethol
- Ymateb cryfach i achosion o gam-drin domestig.

## Pennod 3 Profi dull o oruchwylio'r broses o roi Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar waith

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o waith i dreialu proses oruchwylio ar gyfer rhoi Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar waith, gwerthusiad cynnar, a gofynion a argymhellwyd ar gyfer cyflwyno'r broses yn genedlaethol.

**Nod Proses Goruchwylio Lladdiadau Domestig y Comisiynydd Cam-drin Domestig yw ychwanegu gwerth, sicrhau cysondeb, a gwella ansawdd prosesau Adolygiadau Lladdiadau Domestig.**

### 3.1 Nod y prosiect peilot

Diben y prosiect goruchwylio peilot lleol oedd profi a dysgu am y ffordd orau y gallai'r Comisiynydd oruchwylio'r broses o roi argymhellion a chamau gweithredu Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar waith, a llywio'r gwaith o ddatblygu'r broses oruchwylio i'w chyflwyno'n genedlaethol. Er bod prosesau adrodd yn bodoli eisoes yn fyd-eang, nid oedd yr un ohonynt wedi cael ei phrofi yng nghyd-destun penodol Adolygiadau Lladdiadau Domestig na gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru a Lloegr, ac roedd yn bwysig profi pa adnoddau y gallai fod eu hangen yn y lle cyntaf, a nodi sut i oresgyn heriau, cyn cyflwyno'r broses oruchwylio.

[51] Rowlands, J. (2025) *The Potential and Peril of Reviewing Domestic Abuse-related Deaths.*

Y prosiect peilot oedd y tro cyntaf hefyd i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ddod ynghyd yn y ffordd hon i ganolbwyntio ar roi Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar waith, a rhoddodd gyfle i ddysgu o ymarfer lleol a'i rannu ag ardaloedd eraill.


Roedd y prosiect peilot yn gyfle i ddeall y capasiti a'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau goruchwyliaeth effeithiol, anghenion ardaloedd lleol a'r ffordd orau y gall goruchwyliaeth helpu i roi argymhellion ar waith yn lleol a dangos effaith.

Yr ystyriaethau allweddol oedd:

- Yr adnoddau sydd eu hangen i oruchwylio'r broses o roi argymhellion a chamau gweithredu Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar waith
- Yr adnoddau sydd eu hangen o ran:
    - Gallu dadansoddi
    - Mewnbwn staff o ardaloedd lleol
    - Staff yn Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig
- Yr heriau a wynebir gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wrth gymryd rhan mewn gwaith goruchwylio
- Y ffyrdd y mae llywodraeth genedlaethol yn ystyried argymhellion ar hyn o bryd a sut y gallai gymryd rhan mewn gwaith goruchwylio
- Arferion gorau yn lleol a/neu genedlaethol
- Rôl y Comisiynydd i gefnogi'r broses o uwchgyfeirio materion a nodwyd drwy argymhellion Adolygiadau Lladdiadau Domestig neu roi camau gweithredu ar waith
- Y broses o rannu arferion da rhwng ardaloedd lleol
- Y broses o gydlynu adolygiadau yn lleol a sut mae hyn yn berthnasol i oruchwylio

### 3.2 Methodoleg

Ffigur 3: Llinell amser y prosiect peilot – Blwyddyn 1




#### 3.2.1 Dyluniad y prosiect peilot

Amlinellwyd nodau ac amcanion y prosiect peilot yn y cylch gorchwyl, sydd i'w weld yn Atodiad A. Cafodd hwn ei ddatblygu mewn cydweithrediad agos â phartneriaid statudol ac anstatudol, gan roi sylw i'r ystyriaethau a nodwyd yn 3.1. Wrth ystyried mecaneg goruchwylio, datblygwyd dau fodel ar gyfer cyfranogiad lleol, y gellir eu gweld yn Atodiad B. Roedd un wedi'i arwain gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a'r llall wedi'i arwain gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, gyda'r nod o bennu pa sefydliad fyddai yn y sefyllfa orau i gydlynu ar lefel leol.

Diben hyn oedd adlewyrchu'r ymarfer a ymgorfforwyd eisoes neu'r cyfranogiad sylweddol mewn rhai ardaloedd yn y broses o reoli a/neu rannu gwersi a ddysgwyd o adolygiadau, a arweinir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu – er enghraifft Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf, Norfolk, Northumbria, Southend, Essex a Thurrock a Hamphire ac Ynys Wyth.

Roedd yn bwysig profi model a arweinir gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn erbyn model a arweinir gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, o gofio ystyriaeth y Swyddfa Gartref i opsiynau ar gyfer rôl fwy ffurfiol ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wrth oruchwylio Adolygiadau Lladdiadau Domestig. Ymatebodd Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i ymgynghoriad y Swyddfa Gartref gan fynegi cefnogaeth i rôl oruchwylio, gan fod eu cyfrifoldebau lleol yn cyd-fynd â chanlyniadau bwriadedig Adolygiadau Lladdiadau Domestig. Bydd yn hollbwysig ystyried rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng ngoleuni agenda datganoli'r Llywodraeth, a'r ffordd y gall newid strwythurau llywodraethu ddylanwadu ar rôl, cyfrifoldebau, a swyddogaethau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu mewn perthynas ag Adolygiadau Lladdiadau Domestig.

### 3.2.2 Recriwtio ardaloedd peilot

Yn ystod hydref 2023, cafodd ardaloedd lleol eu gwahodd i fynegi eu diddordeb mewn cymryd rhan mewn prosiect peilot i brofi'r ddau ddull gweithredu arfaethedig, gan ddod â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ynghyd. Er mwyn cymryd rhan, roedd yn ofynnol i ardaloedd fod wedi cyhoeddi o leiaf un Adolygiad Lladdiad Domestig yn ystod y tair blynedd diwethaf, er mwyn sicrhau bod modd i ardaloedd gymryd rhan lawn yn y prosiect peilot drwy rannu data ar y broses o roi'r adolygiadau hynny a gwblhawyd ar waith. Ystyriodd y prosiect peilot adolygiadau yn ôl-weithredol, weithiau dros 12 mis ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.

Cafwyd datganiadau o ddiddordeb gan 24 o ardaloedd. Cafodd 11 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a 10 Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu eu gwahodd i gymryd rhan yn y prosiect peilot dros gyfnod o 12 mis. Dim ond un ardal (Dyfed Powys) a dynnodd yn ôl prosiect peilot, oherwydd materion yn ymwneud â chapasiti. [52] Fodd bynnag, gwnaethant gymryd rhan yn y broses gynnar a rhoi adborth ar eu profiadau.

## 3.3 Profi

Cafodd y ddau fodel eu profi o fis Ionawr 2024, a gofynnwyd i ardaloedd lleol ddarparu gwybodaeth i'r Comisiynydd ar ddechrau'r prosiect (Ionawr 2024), ar ôl chwe mis (Mehefin 2025) ac ar ddiwedd y prosiect (Rhagfyr 2024). Cyflwynodd ardaloedd eu ffurflenni goruchwylio cychwynnol ar gais y Comisiynydd ym mis Mawrth/Ebrill 2024.


### 3.3.1 Casglu data ar y broses o roi argymhellion ar waith

Gofynnwyd i'r ardaloedd peilot ddarparu data i'r Comisiynydd drwy ffurflen oruchwylio (gweler Atodiad C) yn nodi cynnydd yn erbyn argymhellion unigol a chamau gweithredu dilynol. Roedd hyn yn cynnwys i ba raddau yr oedd argymhellion wedi'u rhoi ar waith.
Cafodd y ffurflenni a gyflwynwyd eu cyfuno er mwyn llunio dadansoddiad manwl. Ar draws y 21 o ardaloedd peilot (yr oedd ardaloedd rhai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn gysylltiedig â nifer o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol), cynhaliwyd 76 o Adolygiadau Lladdiadau Domestig, a arweiniodd at gyfanswm o 1,129 o argymhellion a 1,815 o gamau gweithredu.

Gofynnodd y Comisiynydd i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu bennu, drwy hunanasesiad, i ba raddau yr oedd argymhellion wedi'u rhoi ar waith, boed hynny'n llawn, yn rhannol, i raddau, neu ddim eto.

---

[52] Yn ystod y prosiect peilot, lansiwyd y broses ADUS i Gymru yn ffurfiol. Mae hyn yn debygol o fod wedi cael rhywfaint o effaith ar y ffordd yr ymgysylltodd y Comisiynydd â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru.




Gofynnwyd hefyd i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu pa mor dda roeddent wedi rhoi argymhellion ar waith, yn eu barn nhw, o ran ansawdd gan ddefnyddio safon Aur, Arian ac Efydd, a darparwyd canllawiau gan y Comisiynydd i'w helpu yn hyn o beth. Gellir gweld y meini prawf manwl ar gyfer pob un yn Atodiad D. Cydnabu'r canllawiau ar gwblhau'r ffurflen oruchwylio na fyddai pob argymhelliad yn cyd-fynd yn daclus â'r categorïau a bennwyd ymlaen llaw, ac efallai mai dim ond yn erbyn un neu ddwy elfen o'r meini prawf y byddai rhai argymhellion yn cael eu hasesu. Nid oedd unrhyw ddisgwyliad i'r holl feini prawf gael eu bodloni er mwyn dod i benderfyniad ar asesiad ansawdd penodol. Fodd bynnag, roedd angen sail resymegol.

Lle y bo modd, roedd disgwyl i'r bartneriaeth fod wedi cytuno ar y datganiadau hunanasesu, gan gydnabod mai adolygiad ôl-weithredol oedd hwn o gynlluniau gweithredu a allai eisoes fod wedi bod drwy gyfarfodydd partneriaeth ac nad oeddent yn rhan weithredol o drafodaethau nac agendâu mwyach. Ni nodwyd sut y dylai'r cytundeb hwn gael ei gyflawni at ddibenion y prosiect peilot. Roedd rhai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn teimlo bod y broses ôl-weithredol hon o ystyried argymhellion yn ei gwneud hi'n fwy anodd cynnal asesiad cywir.  Fodd bynnag, nid oedd y Comisiynydd yn rhagweld oedi tebyg rhwng cyhoeddi adolygiadau a rhoi diweddariad ar y broses o roi argymhellion ar waith yn y dyfodol.


Casglwyd data hefyd mewn perthynas â chamau gweithredu yn ymwneud â'r argymhelliad cyffredinol. Mae cynlluniau gweithredu yn galluogi Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i oruchwylio cynnydd asiantaethau yn erbyn camau gweithredu. Roedd p'un a oedd gwybodaeth esboniadol am y broses o roi argymhellion ar waith yn amrywio ar draws yr ardaloedd peilot, a nifer bach oedd â phrosesau presennol i bennu effaith neu ganlyniadau.

Roedd y ffurflen oruchwylio wedi'i dylunio i alluogi ardaloedd lleol i roi esboniad lle nad oedd argymhellion wedi'u rhoi ar waith, neu lle nad oedd camau gweithredu wedi'u cwblhau. Diben hyn oedd rhoi dealltwriaeth fwy manwl a sicrhau, lle roedd enghreifftiau clir o asiantaethau yn methu â chyflawni eu cyfrifoldebau neu fodloni eu hargymhellion, bod modd eu uwchgyfeirio.

Roedd yn elfen allweddol o'r prosiect peilot am fod y Comisiynydd am ddeall pam nad oedd argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith a sicrhau bod y broses ei hun yn darparu dolen

adborth i Gadeiryddion, awduron, a phartïon eraill â diddordeb. Byddai hyn yn sicrhau bod y system yn gallu gwella'n barhaus.

Dyluniwyd proses uwchgyfeirio, fel y nodir isod, i gefnogi ardaloedd lleol i dynnu sylw at rwystrau i roi argymhellion ar waith na ellid eu datrys drwy brosesau llywodraethu lleol. Gallai'r broses hon gael ei sbarduno gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol eu hunain neu drwy ddadansoddi data ffurflenni goruchwylio. Ni chafodd hyn ei gymhwyso a'i brofi ym Mlwyddyn 1 y prosiect peilot.




**3.3.2 Datblygu rhwydweithiau a rhannu gwersi a ddysgwyd**

Drwy'r prosiect peilot, rhoddwyd y dulliau canlynol o rannu gwersi a ddysgwyd ar waith:

- Sefydlwyd 'Cylchlythyr Marwolaethau sy'n gysylltiedig â Cham-drin Domestig' i rannu ymchwil ac arferion gorau nodedig.
- Cydweithiodd y Comisiynydd â CLlL a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i gynnull y Fforwm Adolygu Marwolaethau sy'n gysylltiedig â Cham-drin Domestig, sef digwyddiad chwarterol, gyda nifer cynyddol o'r aelodau yn gyfrifol am arwain y gwaith o gynnal Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar draws Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, awdurdodau lleol, Comisiynwyr yr Heddlu a sefydliadau iechyd.

### 3.4 Canfyddiadau o ddata ardaloedd peilot

Wynebwyd heriau sylweddol wrth gasglu a dadansoddi data ar gyfer y prosiect goruchwylio peilot lleol, a nodir yn fanylach isod. O ran y data a oedd ar gael i'w dadansoddi, nodir y canfyddiadau mewn dangosfwrdd ar ddiwedd adran 3.5.

### 3.5 Canfyddiadau meintiol

Er gwaethaf yr heriau hyn, rhoddodd y data a ddarparwyd gan ardaloedd lleol wybodaeth sylweddol am y broses o roi Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar waith, sy'n hanfodol i'r gwaith o wella'r ymateb i achosion o gam-drin domestig. Yn yr un modd, rhoddodd y broses ddealltwriaeth i'r Comisiynydd o'r hyn sydd ei angen er mwyn cefnogi asiantaethau a'u dwyn i gyfrif wrth roi adolygiadau ar waith.

Drwy'r data a ddarparwyd yn y ffurflenni goruchwylio, bu modd dadansoddi 76 o Adolygiadau Lladdiadau Domestig.

Roedd cyfanswm o 1,129 o argymhellion, a cheir crynodeb ohonynt yn nangosfwrdd 1 ar ddiwedd adran 3.5. Roedd y canfyddiadau allweddol o'r argymhellion hyn yn cynnwys y canlynol:

- **Ar gyfer pwy roedd yr argymhellion:** Cafodd 81% o'r argymhellion eu gwneud ar lefel leol, a chafodd 6% eu gwneud ar lefel ranbarthol a 4% eu gwneud ar lefel genedlaethol. Cafodd 25% o'r argymhellion eu gwneud ar gyfer y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Gan fod y data a gasglwyd gan ardaloedd peilot yn dadansoddi argymhellion yn ôl camau gweithredu, ac yn ôl pa asiantaethau y pennwyd y camau gweithredu ar eu cyfer, cawsant eu dadansoddi ar lefel leol yn hytrach nag ar lefel yr argymhelliad er mwyn cyflwyno'r trosolwg mwyaf manwl o gynlluniau gweithredu'r Adolygiad Lladdiad Domestig. Fodd bynnag, ystyriodd dadansoddiadau ar wahân (a ddangosir yn nangosfwrdd 2 ar ddiwedd adran 3.7) o themâu a thueddiadau'r Adolygiadau Lladdiadau Domestig eu hunain argymhellion a wnaed ar gyfer asiantaethau penodol, er mai dehongliad Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig oedd hwn o adroddiadau Adolygiadau Lladdiadau Domestig.

- **Lefel y gweithredu:** Darparodd yr ardaloedd lleol asesiad ar gyfer 975 o argymhellion (85%) i ddangos i ba raddau roeddent wedi'u rhoi ar waith. Ni ddarparwyd asesiad o'r fath ar gyfer 154 (14%) o argymhellion, ac mae'r rhain wedi'u categoreiddio fel argymhellion coll/gwag. O blith y 975 o argymhellion hyn, roedd 671 (69%) wedi'u rhoi ar waith yn llawn ac roedd 158 (16%) wedi'u rhoi ar waith yn rhannol. Felly, roedd 829 (85%) o'r argymhellion a aseswyd naill ai wedi'u rhoi ar waith yn llawn neu roedd disgwyl iddynt gael eu rhoi ar waith o fewn chwe mis i gyflwyno'r ffurflen oruchwylio. Roedd 58 (6%) wedi'u rhoi ar waith i raddau ac nid oedd 88 o argymhellion (8%) wedi'u rhoi ar waith eto. Ar gyfer 154 (14%) o argymhellion, ni allai'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol gadarnhau i ba raddau roeddent wedi'u rhoi ar waith. Disgwyliwn y gallai hyn fod i'w

briodoli i'r adnoddau a'r capasiti sydd eu hangen i fonitro'r broses o roi argymhellion ar waith ac i ddarparu'r wybodaeth hon ar lefel leol.

- **Ansawdd y gweithredu:** Darparwyd asesiadau ansawdd ar gyfer o 899 (80%) o argymhellion; ni ddarparwyd asesiadau o'r fath ar gyfer 230 (20%) o argymhellion. O blith y 899 o argymhellion, cafodd 725 eu hasesu'n rhai safon Aur, Arian neu Efydd – 281 (31%) o argymhellion safon Aur, 263 (29%) o argymhellion safon Arian, a 181 (20%) o argymhellion safon Efydd. Roedd 100 (11%) o argymhellion ar gam cynnar y broses o'u rhoi ar waith ac nid oedd 74 o argymhellion (8%) wedi'u rhoi ar waith. Byddai darparu adnoddau effeithiol ar gyfer y broses oruchwylio yn galluogi mwy o graffu annibynnol mewn perthynas â hyn.

- **Ansawdd y gweithredu o gymharu â lefel y gweithredu:** Wrth gynnwys y data coll, nodwyd bod 59% o'r argymhellion wedi'u rhoi ar waith yn llawn, yr oedd 42% ohonynt wedi'u rhoi ar waith i safon Aur. Mae hyn yn awgrymu bod ardaloedd lleol yn ystyried bod argymhelliad a roddwyd ar waith yn llawn yn fwy tebygol o gyflawni 'Safon Aur', h.y. darparu tystiolaeth gref o newid. O ran y 158 o argymhellion a roddwyd ar waith yn rhannol (14%), roedd y rhan fwyaf ohonynt yn rhai safon Efydd (35%).

Roedd 1,815 o gamau gweithredu, yn ymwneud â 1,129 o argymhellion, a ddadansoddwyd i bennu'r canlynol:


- **Ar gyfer pa asiantaethau y pennwyd y camau gweithredu:** Roedd 275 o gamau gweithredu ar gyfer y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, a'r unig asiantaeth unigol â mwy na 200 o gamau gweithredu oedd yr Heddlu (215). Roedd dros 100 o gamau gweithredu yr un ar gyfer Ymddiriedolaethau Iechyd Lleol, Byrddau Partneriaeth Cam-drin Domestig, Byrddau Gofal Integredig, Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Gwasanaethau Iechyd Meddwl, a Gwasanaethau Cam-drin. Mae'r rhain wedi'u nodi isod yn nangosfwrdd 1.

- **Nifer y camau gweithredu na chawsant eu cwblhau:** Roedd 25 o achosion lle rhoddwyd y gorau i gamau gweithredu, ar draws 12 o fathau o asiantaethau. Am fod modd i gam gweithredu fod yn gymwys i fwy nag un asiantaeth, mae'r ffigur hwn yn uwch na'r 21 o gamau gweithredu y rhoddwyd y gorau iddynt yn gyffredinol. Roedd 138 o achosion lle na chafodd camau gweithredu eu cwblhau ar draws 29 o fathau o asiantaethau. Unwaith eto, gallai camau gweithredu fod yn gymwys i fwy nag un asiantaeth, felly mae'r ffigur hwn yn uwch na'r 72 o gamau gweithredu yr aseswyd eu bod heb eu cwblhau. Yn eu hymatebion, rhoddodd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol resymau am gamau gweithredu y rhoddwyd y gorau iddynt a chamau gweithredu na chawsant eu cwblhau, a chaiff hyn ei ystyried yn fanylach yn ddiweddarach yn y bennod hon.

- **Nifer y camau gweithredu a gwblhawyd.** Cafodd cyfanswm o 1,288 o gamau gweithredu eu cwblhau. Roedd y Comisiynydd yn falch o weld cyfran y camau

gweithredu a gwblhawyd mewn adolygiadau ac mae'n awyddus i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer y broses o ddatblygu'r broses oruchwylio i'w chyflwyno'n genedlaethol fel bod modd dadansoddi camau gweithredu a gwblhawyd gyda'r un manylder ac ystyriaeth â'r rheini na chawsant eu cwblhau.

**Dangosfwrdd 1 – Dadansoddiad o ddata ar gynlluniau gweithredu Adolygiadau Lladdiadau Domestig a gyflwynwyd gan ardaloedd peilot**




## Camau gweithredu

**1,815** o gamau gweithredu


**71%** – canran y camau gweithredu a oedd wedi'u cwblhc

**15%** – canran y camau gweithredu a oedd yn mynd rhagddynt


**Statws cynnydd camau gweithredu**





**Camau gweithredu y rhoddodd asiantaethau y gorau iddynt**




**Camau gweithredu heb eu cwblhau gan asiantaethau** (ar gyfer yr asiantaethau hynny â mwy na 10 cam gweithredu heb eu cwblhau)





**Camau gweithredu ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, byrddau partneriaeth cam-drin domestig a Byrddau Gofal Integredig**




**12%** – canran y camau gweithredu a oe

**10%** – canran y camau gweithredu a oedd ar gyfer ymddiriedolaethau iechyd lleol

**Camau gweithredu ar gyfer asiantaethau statudol a gwasanaethau cam-drin domestig unigol**




*Noder: Gellir pennu cam gweithredu ar gyfer mwy nag un asiantaeth felly bydd cyfanswm yr holl gamau gweithredu ar gyfer asiantaethau yn fwy na 1,851.*

### 3.6 Canfyddiadau ansoddol

Er nad oedd modd dadansoddi ac adrodd ar yr ymateb i bob argymhelliad fel rhan o'r prosiect peilot, nodwyd rhai enghreifftiau o ymarfer diddorol ac ardderchog. Mae enghreifftiau o ymarfer arbennig o nodedig wedi'u nodi yn Atodiad E.

Rhoddodd y data gyd-destun pellach i'r camau gweithredu y rhoddwyd y gorau iddynt neu na chawsant eu cwblhau, ynghyd â gwybodaeth am sut i sicrhau ansawdd hunanasesiadau o gamau gweithredu.

Roedd y rhesymau dros roi'r gorau i gamau gweithredu yn cynnwys y canlynol:

- diffyg adnoddau a chapasiti
- newid neu ailstrwythuro sefydliadol
- achosion lle y cafodd argymhellion eu disodli gan newid sefydliadol.

Roedd rhesymau dros beidio â chyflawni camau gweithredu yn cynnwys y canlynol:

- diffyg adnoddau a chapasiti
- gwrthdaro â phrosesau eraill
- y ffaith bod y cam gweithredu yn ymwneud ag argymhelliad cenedlaethol heb unrhyw adborth neu ddiweddariad
- rhesymau eraill gan gynnwys problem TG nad oedd modd ei datrys yn llawn.

***Enghraifft o ymarfer: Diffyg adnoddau/capasiti***

**Cafodd yr argymhellion canlynol eu gwneud gan Adolygiadau Lladdiadau Domestig a oedd yn rhan o'r prosiect peilot:**

1. "*Probation to reinstate daily meetings between CPS prosecutors and Court officers (and, where appropriate, the court IDVA*),"

Nododd y cam gweithredu dilynol ar gyfer y ddau wasanaeth y dylai'r Gwasanaeth Prawf gysylltu ag erlynwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron, swyddogion y Llys, a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig y Llys i drefnu cyfarfodydd. Rhoddwyd y gorau i'r cam gweithredu hwn oherwydd diffyg adnoddau a chapasiti. Nodwyd bod cyfarfodydd wedi'u hailgyflwyno'n anffurfiol a'u bod yn cael eu cynnal pan fo modd o ystyried prinder staff yn y ddau sefydliad.

2. Dylai nifer o asiantaethau gynnal archwiliad o gynnwys ac amlder hyfforddiant i'r asiantaethau a fu'n ymwneud â'r achos hwn, er mwyn sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu hymgorffori.

Nid oedd y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau, a'r rheswm a roddwyd oedd '*No capacity in training to provide a comprehensive package covering all these areas, therefore some were prioritised*''.

Er ei bod yn amlwg o'r ymateb lleol fod asiantaethau yn gwneud eu gorau gyda'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau newid, gallai rhoi camau gweithredu o'r fath ar waith mewn ffordd mor achlysurol arwain at fylchau yn yr ymateb ac atal argymhellion sy'n canolbwyntio ar atal rhag cael eu gwireddu.

Un o'r cyfyngiadau yn y prosiect peilot fu'r capasiti a'r adnoddau i roi prosesau uwchgyfeirio ar waith. Er mai rôl a chylch gorchwyl y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yw uwchgyfeirio materion o'r fath yn lleol, nid oes fawr ddim capasiti ar hyn o bryd i uwchgyfeirio materion â chwmpas ehangach (fel hyfforddiant) i lefel genedlaethol.

Mewn rhai achosion lle rhoddwyd y gorau i gam gweithredu o ganlyniad i ffactorau dylanwadol eraill, roedd ardaloedd yn gwneud ymdrechion i bontio'r bwlch mewn ymarfer neu bolisi nes bod modd cwblhau camau gweithredu.

***Enghraifft o ymarfer: Newid sefydliadol***

Nododd argymhelliad y dylai'r Grŵp Optimeiddio System Cydgomisiynu (JCSOG) wneud y canlynol:

*"Develop an integrated approach to mental health support including integrated teams and pathways for those with mental anxiety and distress that don't meet current thresholds."*

Y cam gweithredu ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, ymddiriedolaethau iechyd lleol, comisiynwyr awdurdodau lleol a JCSOG oedd:

*"JCSOG were to develop an integrated approach to mental health support including integrated teams and pathways for those with mental anxiety and distress that don't meet current thresholds."*

Rhoddwyd y gorau i'r cam gweithredu o ganlyniad i newid neu ailstrwythuro sefydliadol am fod yr argymhelliad hwn yn dibynnu ar drawsnewid iechyd meddwl, a theimlwyd bod hynny'n broses araf a beichus. Yn lle hynny, roedd yr ardal hon yn drafftio egwyddorion diagnosis deuol yn lle strategaeth ar y pryd.

Er mwyn sicrhau ansawdd hunanasesiadau ardaloedd lleol, yn ddelfrydol byddai ardaloedd yn darparu tystiolaeth lle bo hynny'n berthnasol i ddilysu eu hasesiad Aur, Arian neu Efydd. Gan mai adolygiad ôl-weithredol oedd hwn, lle nad oedd disgwyliad presennol wedi'i bennu'n flaenorol mewn canllawiau statudol ar Adolygiadau Lladdiadau Domestig, roedd llai o enghreifftiau o dystiolaeth glir. Fodd bynnag, bu modd i rai gefnogi eu hasesiad â data, a roddodd wybodaeth am y ffordd y caiff argymhellion Adolygiadau Lladdiadau Domestig eu rhoi ar waith yn lleol.

***Enghraifft o ymarfer: Asesu ansawdd y gweithredu***

Gan ddangos effeithiolrwydd cam gweithredu o ran cofnodi atgyfeiriadau ar gyfer Cynllun Datgelu Trais Domestig mewn Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC), nododd un

ffurflen ymateb y canlynol mewn perthynas ag effaith rhoi un o argymhellion Adolygiad Lladdiad Domestig ar waith:

"*MARAC has seen an increase in referrals for DVDS in the last year (Nov 2019-Nov 2020) by 40%, demonstrating an increase in awareness of DVDS and referrals*."

Roedd enghreifftiau hefyd o achosion lle na allai ardaloedd ddangos tystiolaeth o welliant drwy archwiliad neu waith olrhain penodol ond lle y gallent roi rhywfaint o sicrwydd drwy oruchwyliaeth ac adborth.

Yn un ardal Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, nododd yr argymhelliad:

"*The [Police] to audit the 'Strengthening Local Policing' programme' to ensure it enables a consistent and robust process for the supervision of all domestic abuse incidents/crimes*."

Yn yr achos hwn, roedd yr Heddlu wedi cymryd camau i ymgorffori goruchwyliaeth benodol yn ei fodel Unedau Rheoli Sylfaenol ac i sicrhau ymchwiliad gan dimau diogelu dynodedig. Wrth adolygu'r broses o roi'r argymhelliad hwn ar waith at ddibenion goruchwylio, nododd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn ei hadborth fod goruchwyliaeth well a ffocws gwell ar droseddau a archwiliwyd. Roedd mewnbwn yr Heddlu yn adlewyrchu ei bod yn ymddangos bod troseddau'n cael eu goruchwylio mewn ffordd fwy penodol ac wedi'i thargedu.

Wrth asesu ansawdd camau gweithredu, nododd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol fod ei phanel adolygu yn cytuno ag adborth yr Heddlu fod yr argymhelliad hwn a gwaith arall a oedd eisoes yn cael ei wneud i wella goruchwyliaeth yn yr Heddlu wedi arwain at newid mewn ymarfer a diwylliant. Er nad oedd yn teimlo y gallai gymhwyso'r safon Aur am nad oedd wedi cynnal archwiliad i fesur ffactorau a fyddai'n cyfiawnhau hynny, roedd consensws a chyfle i herio hunanasesiad yr Heddlu yn lleol fel rhan o'r broses oruchwylio.

### 3.6.1 Amrywiadau o ran amcanion argymhellion

Roedd nifer, ansawdd, ac amcanion yr argymhellion yn amrywio'n sylweddol rhwng adolygiadau – gyda rhai yn cynnwys dros 40 ar draws amrywiaeth o weithgareddau. Roedd yr argymhellion yn amrywio o newid sefydliadol sylweddol i gamau gweithredu syml i asiantaethau.

### 3.6.2 Rôl Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Roedd nifer uchel o gamau gweithredu ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a byrddau partneriaeth cam-drin domestig, a allai arwain at wrthdaro o ystyried eu rôl wrth sicrhau ansawdd a goruchwylio camau gweithredu ar lefel leol.

Wrth werthuso'r prosiect peilot, nododd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol nad oeddent o'r farn mai eu rôl nhw oedd pwyso a mesur ansawdd camau gweithredu. Yn lle hynny, eu rôl oedd herio pob asiantaeth o ran statws argymhellion ac adrodd ar ganlyniadau mewn cynlluniau gweithredu. Roeddent o'r farn mai mater i brosesau goruchwylio ac archwilio mewnol pob asiantaeth oedd llywodraethu ansawdd camau gweithredu.

### 3.7 Canfyddiadau thematig

Gwnaed rhywfaint o waith dadansoddi thematig gan ystyried adolygiadau o ardaloedd peilot, gan adeiladu ar waith a wnaed gan sefydliad ymchwil HALT ac a gomisiynwyd gan y Comisiynydd Cam-drin Domestig. Ceir crynodeb o waith HALT yn Atodiad F. Cafodd yr argymhellion eu codio yn erbyn themâu, gan gynnwys ar gyfer pa asiantaethau y cawsant eu gwneud a'r themâu ehangach, a oedd yn codi dro ar ôl tro yn aml, roeddent yn gysylltiedig â nhw. Dangosir hyn isod mewn dangosfwrdd.


Oherwydd capasiti, adnoddau ac argaeledd data priodol a systemau i dynnu'r data hynny, cafodd y dadansoddiad hwn ei gyfyngu i grynodeb o'r themâu heb gyd-destun ehangach yr adolygiadau. O ganlyniad, ni fu modd i'r dadansoddiad ystyried data demograffig yn ymwneud â dioddefwyr a thramgwyddwyr na ph'un a oedd yr adolygiad yn ymwneud â lladdiad neu farwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.

## Dangosfwrdd 2 – Dadansoddiad o themâu a thueddiadau ardaloedd peilot


### Dadansoddiad o themâu a thueddiadau ardaloedd peilot

**Argymhellion a nodwyd mewn Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar gyfer...**

**IECHYD**




**CYFIAWNDER TROSEDDOL**






**GWASANAETHAU OEDOLION**

**46** o argymhellion ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion

**29** argymhellion ar gyfer byrddau diogelu oedolion

**GWASANAETHAU PLANT**







## 3.8 Canfyddiadau'r broses

Chwe mis ar ôl dechrau'r prosiect peilot, cynhaliodd y Comisiynydd arolwg o'r ardaloedd peilot. Gellir gweld canfyddiadau'r arolwg hwn isod yn nangosfwrdd 3. Nod y gwerthusiad oedd ceisio barn am brofiadau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu o'r prosiect peilot, eu barn am brosesau casglu data ac unrhyw wersi a ddysgwyd/heriau yn y model arfaethedig a phrosesau ehangach Adolygiadau Lladdiadau Domestig.


## Dangosfwrdd 3 – Gwerthusiad ardaloedd peilot o'u cyfraniad at y prosiect a'r prosesau casglu data

### Gwerthusiad ardaloedd peilot o'u cyfraniad at y prosiect a'r broses casglu data

#### Beth sy'n gweithio'n dda yn eich ardal chi?




#### Prif heriau a nodwyd




#### Gweithredu

# 76%


– canran yr ardaloedd a oedd yn teimlo

bod Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn cael eu rhoi ar waith yn **dda neu'n dda iawn.**

Fodd bynnag, roedd gan bron hanner

yr ardaloedd faterion neu bryderon roeddent

am eu codi gyda swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig




Mae profiad o'r prosiect peilot yn dangos bod Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn ymrwymedig i sicrhau newid gyda chefnogaeth i brosesau Adolygiadau Lladdiadau Domestig a chamau gweithredu yn lleol.

### 3.8.1 Cwblhau ceisiadau am ddata

Yn absenoldeb system TG wedi'i datblygu'n llawn ar gyfer y prosiect peilot ac i brofi lefel y wybodaeth y gallai fod angen ei chasglu, cafodd ffurflen Microsoft Excel ei llunio a'i rhannu ag ardaloedd lleol. Roedd y mwyafrif o'r farn bod y ffurflen yn hawdd neu'n hawdd iawn i'w chwblhau, ac yn fodd i gasglu data mewn fformat cyson.

Fodd bynnag, lle roedd ardal leol yn ymateb ar gyfer nifer o Adolygiadau Lladdiadau Domestig, roedd hyn yn fwy anodd.

*"This was challenging as each of the CSPs taken differing administrative approaches to the oversight and action monitoring, which made it difficult to standardise within the document. But I feel this could be resolved if CSPs agree to implement this process to monitor future DHRs so the standardisation would be established for future DHRs." [Ardal beilot Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu]*

Darparwyd canllawiau i alluogi ardaloedd lleol i roi'r safonau ansawdd ar waith, ac roedd y mwyafrif o'r farn bod hyn yn ddefnyddiol ac yn rhoi adborth defnyddiol ar gyfer gwella. Roedd rhai o'r materion a nodwyd o ran y ffurflen yn ymwneud â'i hymarferoldeb. Roedd y rheini â nifer uchel o argymhellion o'r farn bod y ffurflen yn llafurus. Un awgrym a wnaed oedd y dylid **datblygu ffurflen ar-lein y gallai nifer o bartneriaid ei defnyddio a'i diweddaru ar yr un pryd er mwyn lleihau ansawdd ac achosion o ddyblygu.** Mae hyn yn elfen allweddol o waith cwmpasu'r Comisiynydd wrth ddatblygu system ddigidol.

### 3.8.2 Blaenoriaethau lleol

Nododd ardaloedd peilot fod eu cyfranogiad ym mhrosiect goruchwylio peilot y Comisiynydd wedi arwain at fwy o ddiddordeb yn y broses o roi Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn eu hardal, ac ystyriaeth o'r newid systemig yr oedd ei angen. Nododd yr ardaloedd a ymatebodd i arolwg gwerthuso'r prosiect peilot fod y broses oruchwylio ei hun wedi hyrwyddo mwy o feddylfryd sy'n seiliedig ar ganlyniadau, a dywedodd hanner yr ardaloedd fod hyn wedi arwain at fwy o gyfranogiad mewn adolygiadau.

O ran yr ardaloedd yr oedd eu cyfranogiad yn y prosiect peilot wedi gwella atebolrwydd, gwnaethant nodi eu bod wedi gwneud y canlynol o ganlyniad i hynny:

- Adolygu'r broses ar gyfer lledaenu gwersi a ddysgwyd ar draws byrddau lleol ac ar gyfer rhannu gwersi a ddysgwyd ar draws ardal heddlu
- Ystyried pwy fydd yn gyfrifol am reoli'r cynllun gweithredu
- Rhoi prosesau newydd ar waith ac adolygu gwaith etifeddiaeth yn ymwneud ag argymhellion i sicrhau bod camau priodol wedi'u cymryd i fynd ar eu trywydd.
- Rhoi prosesau adolygu cyflym a gweithdrefnau goruchwylio ar waith gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau yr eir ar drywydd argymhellion mewn modd amserol ac y caiff gwersi a ddysgwyd eu rhannu a'u rhoi ar waith.
- Sefydlu llwybrau i rannu gwersi a ddysgwyd, pryderon a diweddariadau ar draws Adolygiadau Marwolaethau sy'n gysylltiedig â Cham-drin Domestig.

#### 3.8.3 Adnoddau lleol

Fel y nodwyd ym Mhennod 1 yr adroddiad hwn, nododd tîm y Comisiynydd broblemau yn ymwneud â chyfyngiadau adnoddau a chapasiti ymhlith yr ardaloedd peilot. Nododd 23% o'r ardaloedd peilot fod capasiti yn cyfyngu ar eu gallu i fynd ar drywydd camau gweithredu mewn modd amserol. Dywedodd rhai ardaloedd fod diffyg cysylltiad rhwng aelodau panel a'r rheini sy'n gyfrifol am weithredu mewn sefydliadau.

#### 3.8.4 Heriau wrth ddadansoddi data

Wynebwyd heriau sylweddol wrth dreialu proses oruchwylio gyda'r adnoddau a oedd ar gael. Yn benodol, wynebodd swyddfa'r Comisiynydd broblemau wrth gasglu a dadansoddi data, y ceir crynodeb ohonynt isod.

i. **Ni allai'r adnoddau technolegol a oedd yn bodoli eisoes ymdopi â nifer y data.** Arweiniodd y ffurflenni casglu data a gwblhawyd gan yr ardaloedd peilot at setiau data mawr o bron 1.4m i gelloedd yn Microsoft Excel. Roedd archwilio'r data hyn, at ddibenion dadansoddi, mewn taenlenni Excel yn broblematig. Roedd ymarferoldeb y fformiwla a'r tabl talgrynnu yn agored i gyfyngiadau prosesu a'r risg o wallau dynol. Byddai'r dull hwn o gasglu data, pe bai'n cael ei gyflwyno'n genedlaethol, yn anghynaliadwy.

ii. **Asesiad goddrychol o gamau gweithredu yn lleol.** Roedd y data a ddarparwyd yn seiliedig ar hunanasesiad yn bennaf ac, felly, gallent gynnwys amrywiadau neu ragfarn. Gall safbwyntiau gwahanol effeithio ar asesiad a gellid ystyried bod ardaloedd yn 'marcio eu gwaith cartref eu hunain.' Nid oedd gan swyddfa'r Comisiynydd y capasiti na'r adnoddau i archwilio datganiadau unigol.

iii. **Adolygiad ôl-weithredol o gynlluniau gweithredu.** Ar gyfer y prosiect peilot, nid oedd modd osgoi hyn ond roedd yn golygu bod ardaloedd yn llai tebygol o siarad ag asiantaethau yn unigol neu geisio eu barn ar gamau gweithredu. Pe bai'r prosesau'n cael eu cyflwyno'n genedlaethol, dywedodd rhai ardaloedd peilot y byddent yn cynnwys yr asesiad hwn fel rhan o'u dull sicrwydd ac yn ceisio barn asiantaethau eraill, gan awgrymu y gallai hyn ddigwydd drwy eu his-grŵp Adolygiadau Lladdiadau Domestig.

iv. **Cyfrifoldebau a rennir yn lleol:** Yn un rhan o dair o'r ardaloedd peilot, roedd diffyg trefniadau partneriaeth clir ar gyfer ariannu Adolygiadau Lladdiadau Domestig ac argymhellion neu gamau gweithredu a wnaed ar gyfer 'pob asiantaeth'. Er nad yw'r rhain yn cynrychioli argymhellion o ansawdd uchel (a ddylai, yn ôl y canllawiau statudol, fod yn rhai CAMPUS ac wedi'u targedu), maent yn bodoli, sy'n cyfyngu ar allu'r Comisiynydd i ddwyn asiantaethau unigol i gyfrif.

v. **Cynlluniau gweithredu anghyson:** Roedd fformat cynlluniau gweithredu yn amrywio rhwng ardaloedd, a oedd yn ei gwneud hi'n anodd gwneud cais am gynlluniau

gweithredu i'w hadolygu, gan nad oedd modd coladu'r data yn gyson. Felly, bu'n rhaid defnyddio ffurflen bwrpasol ar gyfer casglu data.

### 3.8.5 Creu cymunedau ymarfer cryfach i gefnogi ardaloedd lleol

Mae'n amlwg o ymatebion ardaloedd peilot yn y gwerthusiad fod angen rhannu arferion da. Dylai hynny fod ar sawl ffurf, o rwydweithio wyneb yn wyneb, naill ai yn rhithwir neu'n bersonol, i fforymau ar-lein, hyfforddiant, a chylchlythyrau.

Cafodd ymdrechion swyddfa'r Comisiynydd i ddod ag ardaloedd peilot ynghyd i rannu eu profiadau eu croesawu'n fawr gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Cafwyd presenoldeb da iawn mewn cyfarfodydd rhwydwaith a digwyddiadau dysgu, a mynegodd ardaloedd lleol angen gwirioneddol am y mathau hyn o gysylltiadau ac awydd clir i'r Comisiynydd eu hwyluso.

### 3.8.6 Cymharu ardaloedd wedi'u harwain gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ac ardaloedd wedi'u harwain gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

O blith y 21 o ardaloedd a gymerodd ran yn y prosiect peilot, roedd 11 wedi'u harwain gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a 10 wedi'u harwain gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Canfu gwerthusiad o'r broses fod modelau a arweinir gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn fwy effeithlon na modelau a arweinir gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, er bod rhai manteision i ddull a arweinir gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

Mae consensws ymhlith Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu y dylai fod ganddynt rôl am fod eu cyfrifoldebau'n cyd-fynd â chanlyniadau dymunol Adolygiadau Lladdiadau Domestig. Felly, mae eu cyfranogiad yn y broses yn allweddol i wella ymatebion lleol i atal achosion o gam-drin domestig a lladdiadau. [53]

Fodd bynnag, gwnaethant fynegi pryderon yn ymwneud â goruchwylio Adolygiadau Lladdiadau Domestig mewn perthynas ag annibyniaeth weithredol partneriaid. Er bod gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu y pŵer i gynnull, nid oes unrhyw gytundeb llywodraethu eang yn bodoli ar hyn o bryd sy'n rhoi pwerau i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ddwyn asiantaethau i gyfrif am weithredu ar argymhellion.

Yn yr un modd, roedd yr holl ddata a gynhyrchwyd – beth bynnag fo'r model – yn dibynnu ar Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol i ddarparu gwybodaeth. Yn ystod y prosiect peilot, cwblhaodd ardaloedd wedi'u harwain gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu y ffurflenni goruchwylio a gwnaethant weithredu fel pwynt cyswllt unigol ar gyfer tîm y Comisiynydd. Manteision hyn oedd y gallai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gydlynu ar draws ardaloedd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a chynllun partneriaid mewn trafodaethau am gamau gweithredu. Fodd bynnag, o safbwynt casglu data, roeddent yn dibynnu ar Bartneriaethau

[53] Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (2025) *APCC consultation response: Updating the domestic homicide review statutory guidance*.

Diogelwch Cymunedol i ddarparu'r data, gan ychwanegu elfen o aneffeithlonrwydd at y broses.

Drwy oruchwylio, caiff cyrhaeddiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu mewn cyfarfodydd, paneli a grwpiau llywio sy'n gysylltiedig ag Adolygiadau Lladdiadau Domestig ei ehangu, gan gynyddu eu dealltwriaeth o adolygiadau a phontio'r bwlch rhwng Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn lleol mewn perthynas ag Adolygiadau Lladdiadau Domestig.

**Pennod 4 Argymhellion polisi cenedlaethol o Adolygiadau Lladdiadau Domestig**


Ystyriodd y Comisiynydd i ba raddau roedd yr argymhellion a wnaed i lywodraeth genedlaethol wedi'u rhoi ar waith, ac roedd ei chanfyddiadau yn destun pryder difrifol. Yn yr un modd ag yr ydym yn disgwyl i ardaloedd lleol gymryd argymhellion Adolygiadau Lladdiadau Domestig o ddifrif, mae'n rhaid i lywodraeth genedlaethol wneud hynny hefyd, sydd â'r adnoddau a'r ysgogiadau i sicrhau newid. Nid yw'n dderbyniol bod argymhellion a wnaed i lywodraeth genedlaethol, ar ôl ystyriaeth ofalus a cholli bywyd dynol, yn cael eu gadael i hel llwch.

Cyn hyn, teimlwyd bod argymhellion cenedlaethol yn cael eu hanwybyddu neu eu diystyru i raddau helaeth, a bod adolygiadau yn ymdrech leol. [54] Fodd bynnag, maent yn aml yn cynnwys argymhellion ar gyfer asiantaethau cenedlaethol a llywodraeth genedlaethol, a all arwain at newid sylweddol ar lefel genedlaethol. Mae rôl hefyd i lywodraeth genedlaethol wrth ystyried y themâu cyson hynny sy'n dod i'r amlwg o Adolygiadau Lladdiadau Domestig, sy'n dangos problem systemig y mae angen mynd i'r afael â hi yn genedlaethol.

Am y tro cyntaf, ceisiwyd ymatebion i'r holl argymhellion cenedlaethol a wnaed gan yr Adolygiadau Lladdiadau Domestig a oedd ar gael ar y llyfrgell rhwng 2019 a 2021. Mae'r rhain yn cael eu rhannu'n gyhoeddus gan adrannau'r llywodraeth ac maent wedi'u darparu'n llawn ar wefan y Comisiynydd Cam-drin Domestig[55] a'u crynhoi isod yn nangosfwrdd 4.

[54] Rowlands, J. *(2025) The Potential and Peril of Reviewing Domestic Abuse-related Deaths.*
[55] Hafan – Y Comisiynydd Cam-drin Domestig

## Dangosfwrdd 4 – Argymhellion cenedlaethol




Roedd 110 o argymhellion cenedlaethol – yr oedd y mwyafrif ohonynt ar gyfer y Swyddfa Gartref – ac ers 2019, mae nifer yr argymhellion cenedlaethol wedi lleihau bob blwyddyn.

Wrth archwilio'r argymhellion cenedlaethol, canfu'r Comisiynydd y canlynol:

- Mae oedi cyn i argymhellion gyrraedd y Swyddfa Gartref.
- Yn aml, dim ond â'r tîm Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn y Swyddfa Gartref y caiff argymhellion eu rhannu, ac nid â'r tîm mwyaf perthnasol i'w rhoi ar waith.
- Caiff rhai argymhellion eu gwneud i'r Swyddfa Gartref fel mater o drefn, pan ddylent fod wedi cael eu gwneud ar gyfer adrannau eraill.
- Nid oes unrhyw gydlynu ar draws y llywodraeth at ddibenion dadansoddi argymhellion neu eu rhoi ar waith.
- Nid oes unrhyw drefniant i gadeiryddion Adolygiadau Lladdiadau Domestig ymgysylltu ag adrannau'r llywodraeth wrth bennu argymhellion. Mae rhai cadeiryddion yn ceisio ymgysylltu ag adrannau'r llywodraeth, ond nid yw hyn bob amser yn broses syml.
- Nid oes unrhyw gyfathrebu rheolaidd ag ardaloedd lleol ar y broses o roi eu hargymhellion ar waith. Nid oedd adrannau'r llywodraeth neu gyrff cenedlaethol eraill wedi cadarnhau a oeddent wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol neu ni allent gadarnhau hynny.

Yn fwyaf brawychus, yn y mwyafrif o'r adolygiadau, nid oedd y corff cenedlaethol neu adran y llywodraeth yn ymwybodol o'r argymhellion a wnaed ar ei gyfer/chyfer neu ni allai gadarnhau ei fod/bod yn ymwybodol ohonynt (56%). Ni allai adrannau'r llywodraeth gadarnhau a oeddent wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y broses o roi camau gweithredu ar waith.

Er mwyn sicrhau bod ymateb i bob argymhelliad lle y bo modd a gyda chytundeb y Swyddfa Gartref, ceisiodd y Comisiynydd ymatebion gan adrannau'r llywodraeth a oedd yn gyfrifol am y maes polisi hwnnw ar unrhyw waith y gallent fod wedi ei wneud mewn perthynas â'r argymhelliad.

Roedd dwy enghraifft lle y byddai wedi bod yn well pe bai argymhellion wedi cael eu gwneud i'r Adran Busnes a Masnach. Fodd bynnag, nid oedd yn teimlo y gallai ymateb, am nad oedd ganddi unrhyw wybodaeth flaenorol am yr argymhelliad ar gam mor hwyr yn y broses.

Er gwaethaf y pryderon sylweddol a amlinellwyd isod, mae nifer o enghreifftiau o wersi a ddysgwyd o Adolygiadau Lladdiadau Domestig sydd wedi'u rhoi ar waith ac wedi arwain at newid polisi cenedlaethol. Mae'n hollbwysig bod hyn yn dod yn arfer cyffredin, ac nid yn eithriad, a bod gwybodaeth am gynnydd yn cael ei rhannu â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a theuluoedd.

***Enghraifft o ymarfer: Gweithredu cenedlaethol***

Enghraifft 1: Mae'r canllawiau statudol diwygiedig ar gyfer awdurdodau tai lleol yn cyfeirio at y gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad o farwolaeth Salma yn 2019[56] fel enghraifft astudiaeth achos wrth bennu sut i weithio gydag asiantaethau eraill i gadw dioddefwyr yn ddiogel.

*Argymhelliad 3: Dylai'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol adolygu'r gwersi a ddysgwyd o'r achos hwn a chyhoeddi canllawiau cenedlaethol priodol i sicrhau y gellir rhoi gwybod i ddarparwyr tai am bryderon diogelu ar y cam enwebu tenantiaeth.*

Yn yr achos hwn, roedd yr adran yn ymwybodol o'r argymhellion ac yn gallu sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad yn cael eu hymgorffori yn y canllawiau.

Enghraifft 2: Nododd argymhelliad ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau y canlynol:

*"That Citysafe explore with the Department for Work and Pensions, Liverpool Clinical Commissioning Group and Liverpool Adult Social Care the feasibility and circumstances of when the Department for Work and Pensions could make referrals to those organisations for people in receipt of carer's allowance."*

Wrth ymateb i'r argymhelliad, nododd yr Adran Gwaith a Phensiynau fod ganddi eisoes ganllawiau a phrosesau cenedlaethol sefydledig ar waith i ddelio â chwsmeriaid agored i

[56] Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2024) *Allocation of accommodation: guidance for local housing authorities in England.*

niwed os rhoddir gwybod iddi am y statws agored i niwed hwn. Rhoddodd enghreifftiau o'r cyngor a roddir i'r staff a dywedodd ei bod yn mynd ati'n rheolaidd i godi ymwybyddiaeth y staff o'r prosesau ac y bydd yn parhau i wneud hynny. Ar y sail hon, nid oedd yn teimlo bod angen sefydlu trefniadau lleol penodol gan fod rhai cenedlaethol eisoes ar waith. Mae hyn yn dangos y diffyg cysylltiad rhwng gwersi lleol a chenedlaethol.

#### 4.1 Argymhellion lleol sy'n berthnasol yn genedlaethol

Fel y nodwyd eisoes, mae achosion mynych lle y caiff argymhellion tebyg eu gwneud ar draws nifer o Adolygiadau Lladdiadau Domestig, sy'n dangos problem systemig a allai warantu ymyrraeth gan lywodraeth genedlaethol pe bai'n ymwybodol ohoni. Yn aml, mae ardaloedd lleol yn ceisio goresgyn diffyg gweithredu cenedlaethol drwy gymryd eu camau gweithredu eu hunain, ond nid yw hyn yn ddigon cydgysylltiedig a gall fod yn aneffeithlon.

***Enghraifft o ymarfer: Canllawiau cenedlaethol***

Ni fu modd cwblhau cam gweithredu i feddygon teulu wneud ymholiad cyffredinol am gam-drin domestig pan fydd claf yn nodi gorbryder neu iselder, a hynny o ganlyniad i broblem TG (wrth gyflwyno negeseuon atgoffa ar systemau meddygon teulu) na fu modd ei datrys yn llawn. Ceisiodd partneriaid sicrwydd bod y mater yn cael ei godi'n genedlaethol, yn enwedig o ystyried y gwaith cyflym mewn rhai practisau meddygon teulu ac nid mewn rhai eraill. Yn y cyfamser, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i arweinwyr diogelu practisau meddygon teulu ar y broblem a dywedwyd wrthynt, pa bryd bynnag y bydd y claf yn datgelu gorbryder neu iselder, y dylai'r meddyg teulu holi am gam-drin domestig p'un a fydd y neges atgoffa yn wedi ymddangos ai peidio.

Rhoddodd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol sicrwydd pellach fod yr Ymddiriedolaeth leol yn parhau i ymgorffori'r cyfarwyddyd hwn mewn hyfforddiant ac yn atgyfnerthu'r neges ynglŷn â gwneud ymholiad cadarnhaol am gam-drin domestig pan fydd claf yn datgelu gorbryder ac iselder. Yn yr achos hwn, ymddengys nad oes modd cwblhau'r cam gweithredu ar ei ffurf bresennol. Fodd bynnag, mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi ceisio ei roi ar waith beth bynnag, er bod hynny ar ffurf lai cadarn na phe bai systemau TG yn cael eu haddasu ar lefel genedlaethol.

Mae'r enghraifft hon yn rhoi tystiolaeth o natur dameidiog argymhellion Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn absenoldeb proses oruchwylio genedlaethol. Ni ddylai'r argymhelliad i gyflwyno ymholiad cyffredinol fod yn ddadleuol ac os canfu Adolygiad Lladdiad Domestig y gallai atal niwed yn y dyfodol, yna nid oes rheswm pam na ddylai ardaloedd lleol gyflwyno cynllun tebyg. Fodd bynnag, mae diffyg cydgysylltu cenedlaethol, canllawiau, a'r gallu i uwchgyfeirio camau gweithredu, yn rhwystr.

Roedd sawl enghraifft o gamau gweithredu yn ymwneud â chofnodion iechyd neu systemau meddygon teulu nad oedd modd eu rhoi ar waith, yn aml am nad oedd y dechnegol yn cynnwys y gallu i wneud hynny. Mewn achosion eraill, nid aed ar drywydd camau gweithredu oherwydd diffyg adnoddau a gallu, megis cam gweithredu i *'revisit training and share information to health professionals regarding the importance of routine screening and asking the question of patients whether they are experiencing domestic abuse, as set out in NICE guidelines.'* Fel uchod, gallai ymyrraeth genedlaethol fod yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Roedd enghreifftiau hefyd o achosion lle rhoddwyd y gorau i gamau gweithredu am eu bod wedi'u gwneud ar lefel leol ar gyfer asiantaethau a bod angen arweinyddiaeth, mandad, neu ganllawiau cenedlaethol er mwyn sicrhau polisi cyson ar draws pob ardal.

#### 4.1.1 Dysgu trawsffiniol

Gan y bydd prosesau Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn cael eu cyflwyno yn yr Alban yn fuan, mae'r Comisiynydd yn croesawu cyfleoedd i ddysgu ar y cyd ledled y Deyrnas Unedig. Mae dysgu trawsffiniol wedi'i nodi mewn adolygiadau a dylai fod yn rhan o unrhyw fodel goruchwylio cenedlaethol o ran sicrhau na chaiff argymhellion a wnaed y tu allan i Gymru a Lloegr, y mae llywodraeth genedlaethol yn gyfrifol amdanynt, eu colli.

***Enghraifft o ymarfer:* Camau gweithredu dros y ffin**

Gwnaed argymhelliad trawsffiniol yn argymell y canlynol:

*"A cross-border process is agreed with key stakeholders to facilitate domestic abuse checks by the Probation Responsible Officer for perpetrators residing in Scotland."*

Roedd y cam gweithredu ar gyfer yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf fel y nodwyd yn yr argymhelliad, a rhoddwyd y gorau iddo ar y sail ganlynol:

"*Work in this area was commenced 2019. Initial efforts by agencies to progress this action as a part of that work have shown* ***it is not achievable at a local force or probation delivery level – it is one that requires national consideration****. Agencies will forward the action for progression at national leve*l."

### 4.2 GIG Lloegr a Byrddau Gofal Integredig

Roedd y mwyafrif o'r argymhellion a wnaed ar gyfer cyrff cyhoeddus cenedlaethol neu ranbarthol eraill ar gyfer GIG Lloegr, sydd hefyd yn chwarae rôl wrth gasglu argymhellion ynghyd ar gyfer Byrddau Gofal Integredig yn lleol (yn ogystal ag eistedd ar y Panel Sicrhau Ansawdd cenedlaethol). O blith y 107 o argymhellion cenedlaethol, cafodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol 15 (14%) a chafodd GIG Lloegr 14 (13%), gan gynrychioli 27% o'r holl argymhellion cenedlaethol gyda'i gilydd. Canfu adroddiad diweddar gan Standing Together Against Domestic Abuse[57] fod 47 o Adolygiadau Lladdiadau Domestig wedi'u cyhoeddi ar y llyfrgell Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn 2024, yr oedd 42 (89%) ohonynt yn cynnwys o

[57] Standing Together Against Domestic Abuse (Mehefin 2025) Never Again. Again A review of health recommendations following a domestic abuse related death.

leiaf un argymhelliad yn ymwneud â'r sector iechyd neu weithwyr iechyd proffesiynol. Ar gyfer yr adroddiad hwn, rhoddodd GIG Lloegr ddiweddariad ar gynnydd yr argymhellion hyn. Ni allai ddarparu ymateb manwl o ganlyniad i ddiffyg cofnodion ffurfiol ar gyfer argymhellion unigol ar lefel genedlaethol, ac nid oes unrhyw ddisgwyliad iddo wneud hynny yn y canllawiau statudol presennol.

Mae pob un o'r 42 o Fyrddau Gofal Integredig yn atebol yn weithredol am ddilysu argymhellion iechyd ac adborth ar Adolygiadau Lladdiadau Domestig cyn eu cyhoeddi fel rhan o brosesau Adolygiadau Lladdiadau Domestig y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol lol. Gyda'i gilydd, cawsant 177 o argymhellion cenedlaethol.

Mae gan GIG Lloegr rôl unigryw i'w chwarae mewn prosesau Adolygiadau Lladdiadau Domestig am ei fod wedi cael ei gynrychioli gan Banel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref ers 2018. Fel rhan o'r rôl hon, mae tîm Diogelu'r GIG yn rhoi adborth ar argymhellion drafft, a rennir â phaneli Adolygiadau Lladdiadau Domestig lleol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol drwy gofnodion Panel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref.

Ar yr un pryd, mae GIG Lloegr yn cefnogi cydweithwyr Diogelu Byrddau Gofal Integredig a rhanbarthol wrth gasglu data nad ydynt yn cynnwys gwybodaeth bersonol adnabyddadwy adolygiadau achosion diogelu statudol, gan gynnwys Adolygiadau Lladdiadau Domestig, ar feddalwedd tracio adolygiadau achosion difrifol (S-CRT), sy'n ffurfio rhan o'i Ddangosfwrdd Data Diogelu Integredig.

Mae gan GIG Lloegr ffyrdd penodol o ymateb i argymhellion Adolygiadau Lladdiadau Domestig. Nododd fod unrhyw argymhellion sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth ar draws rhannau o'r sector iechyd yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth bresennol ar rannu data a GDPR. Yn yr un modd, nododd y byddai argymhellion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl yn destun adolygiad gweithredol a chomisiynu gan arweinydd iechyd meddwl y Bwrdd Gofal Integredig ac y byddai arweinwyr iechyd meddwl strategol GIG Lloegr a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn craffu arnynt.

Caiff argymhellion i rannu gwersi a ddysgwyd eu gwneud drwy'r Grŵp Llywio Diogelu Cenedlaethol a bydd hynny'n parhau nes y caiff canllawiau statudol diwygiedig eu cyhoeddi. Ers 2022, caiff gwersi a ddysgwyd hefyd eu rhannu gan FutureNHS, llwyfan ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol.

O fis Hydref 2026, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol fydd yn gyfrifol am y dyletswyddau hyn, ar ôl i GIG Lloegr ddod i ben. Mae pob un o'r 42 o Fyrddau Gofal Integredig wedi'u mandadu i sicrhau costeffeithlonrwydd gweithredol o 50% o fis Rhagfyr 2025 ac mae pob un o Ymddiriedolaethau'r GIG wedi'u mandadu i leihau costau gweithredu 15% ar eu gorbenion rheoli. [58] Dim ond llesteirio gallu asiantaethau i roi eu camau gweithredu ar waith ac adrodd ar gynnydd y bydd toriadau i gostau gweithredu . Rhaid ystyried sut mae GIG Lloegr, Byrddau Gofal Integredig a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn bwydo i mewn i brosesau Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar lefel genedlaethol a lleol er mwyn sicrhau bod

[58] GIG Lloegr (2025) *Working together in 2025/26 to lay the foundations for reform*.

argymhellion a gwersi ehangach a ddysgwyd yn cael eu rhoi ar waith mewn modd trylwyr a chyson.

Mae rôl asiantaethau iechyd yn hollbwysig ar lefel genedlaethol a lleol. Ar lefel leol, o blith y 21 o ardaloedd peilot, roedd 323 o gamau gweithredu ar gyfer ymddiriedolaethau iechyd lleol a gwasanaethau iechyd meddwl.

### 4.3 Argymhellion polisi cenedlaethol ychwanegol

Mae gan Adolygiadau Lladdiadau Domestig ddiben penodol i nodi gwersi a ddysgwyd a newid mewn ymarfer. Fodd bynnag, mae marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn codi materion pwysig ar gyfer newid cenedlaethol a pholisi y tu hwnt i gwmpas Adolygiadau Lladdiadau Domestig.

Drwy'r flwyddyn beilot yn unig, bu modd i'r Comisiynydd ddangos tystiolaeth o'r angen am newid mewn nifer o adroddiadau cyhoeddedig ac ymatebion i ymgynghoriad y llywodraeth. Fodd bynnag, mae rhai materion polisi yn weddill o hyd sy'n gofyn am ddiwygiadau brys sy'n ymwneud yn fwy amlwg ag Adolygiadau Lladdiadau Domestig, lladdiadau domestig, a hunanladdiadau domestig yn benodol.

#### 4.3.1 Trwyddedu Arfau Tanio

Gwnaeth Adolygiad Lladdiad Domestig a gwblhawyd ym mis Mawrth 2024 yn dilyn marwolaethau dau oedolyn a dau blentyn yn 2020 chwe argymhelliad i'r Swyddfa Gartref yn ymwneud â thrwyddedu arfau tanio (gweler ymatebion y llywodraeth i argymhellion cenedlaethol yn www.domesticabusecommissioner.uk). Rhwng adeg y marwolaethau a chyhoeddi'r Adolygiad Lladdiad Domestig, cynhaliodd y Llywodraeth flaenorol ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Mehefin a mis Awst 2023 i geisio barn am drwyddedu arfau tanio ar ôl dau achos trasig arall o saethu angheuol gan ddeiliaid drylliau trwyddedig. Yn ystod y cyfnod hwn, mae teuluoedd mewn profedigaeth wedi lobïo'n ddiflino er mwyn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i atal niwed pellach a rhagor o achosion o golli bywyd yn y dyfodol. Cyhoeddodd y Llywodraeth ei hymateb i'r ymgynghoriad ym mis Chwefror eleni. [59] Croesewir y diwygiadau ym maes trwyddedu arfau tanio, yn enwedig y newidiadau i'r Canllawiau Statudol i Brif Swyddogion yr Heddlu sydd bellach yn ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu gynnal asesiad parhaus o ddeiliaid trwyddedau yn ystod cyfnod y dystysgrif, wedi'u hategu gan y dynodydd meddygol digidol newydd sy'n galluogi meddygon teulu i dynnu sylw at bryderon meddygon a all effeithio ar y risg y mae deiliad trwydded yn ei pheri. [60] Roedd gweld nad oedd camau cryfach yn cael eu cymryd mewn perthynas ag uniondeb ac anonestrwydd ceiswyr yn destun pryder i'r Comisiynydd, ac mae'n annog llywodraeth genedlaethol i sicrhau, lle y canfyddir bod

[59] Y Swyddfa Gartref (2023) *Recommended changes to firearms licensing: government response*.
[60] Y Swyddfa Gartref (2023) *Statutory guidance for chief officers of police on firearms licensing (diwygiwyd ym mis Chwefror 2023)*.

ceisydd wedi bod yn anonest yn fwriadol neu wedi gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n fyrbwyll, y caiff y broses gwneud cais ei therfynu.

Mae'r Comisiynydd yn annog llywodraeth genedlaethol i fonitro effeithiau newidiadau ar gyfraddau troseddau sy'n gysylltiedig ag arfau tanio, y cynnydd neu'r lleihad yn nifer y lladdiadau sy'n gysylltiedig ag arfau tanio, neu'r cynnydd neu'r lleihad yn nifer yr arfau anghyfreithlon. Rhaid i argymhellion a nodweddion Adolygiadau Lladdiadau Domestig lle roedd trwydded arfau tanio wedi'i chymeradwyo neu ei chynnwys yn yr adolygiad gael eu hymgorffori mewn adolygiad parhaus. Yn yr un modd, dylai unrhyw newidiadau yn y dyfodol barhau i fod yn seiliedig ar weithgarwch ymgysylltu â'r sector cam-drin domestig, goroeswyr cam-drin domestig, teuluoedd mewn profedigaeth ac arweinwyr cam-drin domestig mewn sefydliadau statudol.

#### 4.3.2 Lladdiadau cudd a marwolaethau diesboniad

Ar eu ffurf bresennol, nid yw prosesau Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn galluogi gwersi cyson i gael eu dysgu o amgylchiadau lle mae dioddefwyr cam-drin domestig wedi marw drwy hunanladdiad, neu lle mae'r marwolaethau hynny yn dal i fod yn ddiesboniad. At hynny, mae cyflwyno'r broses oruchwylio ac ymgysylltu â theuluoedd mewn profedigaeth wedi cadarnhau pryder y Comisiynydd ynglŷn â'r ymateb i amgylchiadau lle mae dioddefwyr cam-drin domestig wedi colli eu bywydau drwy'r hyn a elwir yn 'lladdiadau cudd.'

Cofnododd adroddiad VKPP, "Domestic Homicides and Suspected Victim Suicides 2020-2024 Year 4 Report, a ariannwyd gan y Swyddfa Gartref, 1,012 o farwolaethau mewn 979 o achosion. O blith y rhain, roedd 354 yn hunanladdiadau dioddefwyr posibl o ganlyniad i gam-drin domestig a 71 yn farwolaethau annisgwyl, a chafodd 25 eu dosbarthu'n farwolaethau 'eraill'. Mae'r adroddiad yn dangos dro ar ôl tro y cynnydd yn nifer yr hunanladdiadau o ganlyniad i gam-drin domestig a marwolaethau annisgwyl a nodir ac y rhoddir gwybod amdanynt, ac mae'n argymell y dylid gwneud rhagor o waith cwmpasu, ymchwilio ac adolygu mewn perthynas â'r polisïau a'r ymarfer sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig ag ymateb yr heddlu i farwolaethau sydyn. [61] Mae'r Comisiynydd yn cefnogi'r argymhelliad hwn gan VKPP ac mae'n awyddus i weld y ffrwd waith hon yn datblygu ochr yn ochr â'i hargymhelliad a dderbyniwyd yn ddiweddar i'r Swyddfa Gartref, ynghyd ag arweinwyr plismona, i roi mwy o statws i gam-drin domestig ym maes plismona. Fodd bynnag, mae'n rhaid gwneud mwy i sicrhau bod polisïau ac ymarfer sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau i hunanladdiadau a marwolaethau annisgwyl yn ystyried cyd-destun posibl cam-drin domestig yn llawn.

Er bod canllawiau diwygiedig y Coleg Plismona[62] ar nodi achosion o gam-drin domestig a rhoi gwybod amdanynt ac ymchwiliadau cysylltiedig yn gadarnhaol, ni ellir eu defnyddio os na

---

[61] Hoeger, K. et al (2025) *Vulnerability Knowledge and Practice Programme (VKPP) Domestic Homicides and Suspected Victim Suicides 2020-2024: Year 4 Report*.

[62] Y Coleg Plismona (2025) *Authorised Professional Practice: Identification, reporting and associated investigations*.

chaiff achosion o gam-drin domestig eu nodi'n gyson, fel sy'n wir yn achos yr hyn a elwir yn 'lladdiadau cudd.'

Mae Adolygiad Lladdiad Domestig a gyhoeddwyd yn 2022 gan Safer West Sussex Partnership[63] o farwolaeth 'Laura', a fu farw ym mis Ebrill 2011, ac adolygiad dewisol o farwolaeth 'Rachel', un o gyn-bartneriaid y tramgwyddwr (a fu farw yn 2006), yn dangos yn glir bwysigrwydd ymchwiliad trylwyr sy'n ystyried cam-drin domestig. Ar adeg marwolaeth Laura, canfu ymchwiliad gan yr heddlu ei bod wedi marw o achosion damweiniol ac ni fu erlyniad. Yn dilyn ymgyrch hir gan deulu Laura, cynhaliwyd ailymchwiliad ac adolygiad patholeg annibynnol arall yn 2016, a arweiniodd at euogfarn am lofruddiaeth. Cafodd y tramgwyddwr yn yr achos hwn hefyd ei euogfarnu am ddynladdiad yn yr un treial ar ôl cael ei ganfod yn euog o ladd Rachel bum mlynedd cyn marwolaeth Laura. Ni chafodd marwolaeth Rachel chwaith ei thrin yn amheus ar y pryd.

Mae llawer mwy o deuluoedd mewn profedigaeth sy'n dal i ymgyrchu dros gyfiawnder mewn achosion o'r hyn a elwir yn 'lladdiad cudd', ac mae'n rhaid cymryd camau i sicrhau bod cam-drin domestig yn cael ei ystyried yn awtomatig mewn llinellau ymholi tystiolaethol er wyn gwneud yn siŵr nad oes achos posibl o laddiad.

**Felly, mae'r Comisiynydd yn argymell y dylai unrhyw ymchwiliad neu gwest i farwolaeth annisgwyl neu hunanladdiad ystyried a oes unrhyw dystiolaeth o gam-drin domestig cyfredol neu hanesyddol.** Mae chwilfrydedd proffesiynol a dull ymholgar yn hollbwysig, a rhaid i heddluoedd ystyried a oedd cam-drin domestig yn ffactor a gyfrannodd at y farwolaeth.

### 4.3.3 Hunanladdiad a dwyn tramgwyddwyr o flaen eu gwell

Mewn achosion trasig lle mae dioddefwyr wedi marw drwy hunanladdiad o ganlyniad i'w profiadau o gam-drin domestig, rhaid i dramgwyddwyr gael eu dwyn i gyfrif. Mae cwest nodedig diweddar wedi nodi'r cysylltiadau rhwng bod yn ddioddefwr cam-drin domestig a hunanladdiad yn dilyn marwolaethau trasig Jessica Laverack (2022), Roisin Hunter Bennett (2022) a Kellie Sutton (2024).[64] Yn fwyaf diweddar, cafodd tramgwyddwr Keina Dawes (2025) ei gyhuddo ond ei ryddfarnu o ddynladdiad, a'i euogfarnu am ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol ac ymosod. Mae angen newid er mwyn sicrhau cyfiawnder i deuluoedd sydd mewn profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. Mae'r Comisiynydd yn croesawu adolygiad Comisiwn y Gyfraith o laddiadau ac mae'n cefnogi unrhyw waith i ddatblygu troseddau dynladdiad neu droseddau eraill er mwyn sicrhau cyfiawnder yn yr achosion hyn.

Yn fwy cyffredinol, mae'r Comisiynydd wedi galw ers tro am ddiwygio dedfrydau am laddiadau yn llwyr, wrth i ni barhau i weld achosion lle y rhoddir dedfrydau llai llym am laddiadau

---

[63] Safer West Sussex Partnership (2022) *Domestic Homicide Review: Laura.*

[64] Keynejad, R.C. et al (2022) Domestic abuse is important risk factor for suicide, *British Medical Journal*, 379.

domestig o gymharu â mathau eraill o laddiad. Mae pryderon am ddedfrydau wedi'u codi'n gyson gan deuluoedd mewn profedigaeth.

At hynny, ochr yn ochr ag ymateb cyfiawnder troseddol cryfach, mae'n rhaid gwneud mwy i sicrhau bod gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ganllawiau clir o ran pryd i gynnull adolygiad marwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig pan fydd marwolaethau yn ddiesboniad, neu pan fydd dioddefwyr wedi marw drwy hunanladdiad neu hunanladdiad posibl.

## Pennod 5 O gynnal prosiect peilot i gyflwyno goruchwyliaeth genedlaethol

Hyd yma, mae'r adroddiad hwn wedi nodi cyfres o heriau i ddysgu cynifer o wersi â phosibl o Adolygiadau Lladdiadau Domestig, proses oruchwylio gychwynnol, a thystiolaeth o'r angen clir am fwy o atebolrwydd a goruchwyliaeth ar lefel genedlaethol. Mae wedi dangos ymdrechion cychwynnol y Comisiynydd i dreialu proses oruchwylio leol, yn ogystal â chanfyddiadau o argymhellion cenedlaethol a wnaed gan Adolygiadau Lladdiadau Domestig dros gyfnod o ddwy flynedd.
Mae'r Comisiynydd wedi ymgysylltu'n helaeth ag asiantaethau lleol, sefydliadau cam-drin domestig arbenigol, arbenigwyr ym maes technoleg a theuluoedd mewn profedigaeth. Drwy hyn, mae wedi datblygu model arfaethedig ar gyfer cyflwyno proses atebolrwydd a goruchwyliaeth genedlaethol ar gyfer Adolygiadau Lladdiadau Domestig.

Manylir ar y broses arfaethedig a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer goruchwyliaeth genedlaethol yn adran 5.1, ac mae adran 5.2 yn nodi'r manteision y byddai proses o'r fath yn eu cynnig.

### 5.1 Cynnig a argymhellwyd ar gyfer cyflwyno proses genedlaethol

Mae blwyddyn beilot y Comisiynydd wedi dangos yr angen am broses atebolrwydd a goruchwyliaeth genedlaethol ar gyfer Adolygiadau Lladdiadau Domestig. Manylir ar y model arfaethedig yn yr adran hon, ac yn fras, bydd angen gwneud y canlynol:

1. Treialu proses atebolrwydd a goruchwyliaeth leol a chenedlaethol am flwyddyn arall.
2. Datblygu technoleg bwrpasol, a alluogir gan ddeallusrwydd artiffisial, i gasglu, dadansoddi a rhannu'r setiau data a'r wybodaeth helaeth a geir mewn cannoedd o Adolygiadau Lladdiadau Domestig a Chynlluniau Gweithredu.
3. Darparu adnoddau o fewn Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig annibynnol i graffu ar ddatganiadau a dwyn ardaloedd lleol a llywodraeth genedlaethol i gyfrif.

Model arfaethedig: Proses casglu data a arweinir gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol
Mae'r Comisiynydd yn deall na fydd cyflwyno un model cyffredinol yn briodol. Fodd bynnag, mae angen proses gyson lle y bo modd, ac ar ôl profi'r broses gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, mae'n bwriadu cyflwyno proses a arweinir gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ar gyfer casglu data yn genedlaethol. Mae hyn yn dilyn gwerthusiad gydag ardaloedd peilot a gwaith i ystyried y ffordd fwyaf effeithlon o gasglu data am gamau gweithredu.

Wedi dweud hynny, mae'r Comisiynydd yn dymuno sicrhau bod unrhyw system ddigidol yn hygyrch i bob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac yn rhoi hyblygrwydd i ardaloedd lle mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu eisoes yn arwain y broses o roi Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar waith. Er enghraifft, mewn un ardal Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, mae Bwrdd Cam-drin Domestig y Comisiynydd hwnnw yn cydlynu pob adolygiad ar draws 14 o

ardaloedd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, a darperir cyllid ar gyfer y model gan Gomisiynydd yr Heddlu, Tân a Throseddu, a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Caiff pob argymhelliad ei olrhain ar draws ardaloedd ac eir ar drywydd camau gweithredu ledled y sir. Yn yr ardal hon, ceir proses uwchgyfeirio leol drwy'r bwrdd cam-drin domestig ac mae'r bwrdd yn ysgogi gwaith i rannu gwersi a ddysgwyd, cynnal adolygiadau thematig lleol, darparu hyfforddiant a chynnal cynadleddau, a chyfrannu at gynlluniau strategol. Ni fyddai model arfaethedig y Comisiynydd yn ceisio tarfu ar y gwaith da hwn.

Bydd ail flwyddyn y prosiect peilot yn galluogi'r Comisiynydd a'i thîm i weithio gydag ardaloedd Comisiynwyr yr Heddlu ystyried sut y bydd hyn yn gweithio yn ymarferol, lle bydd angen mwy o hyblygrwydd. Dylai'r model ymateb i faint a graddfa Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, gan gynnwys lle maent yn rhan o awdurdod cyfun neu lle mae ganddynt rôl oruchwylio neu gyflawni strategol mewn Adolygiadau Lladdiadau Domestig. Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn gyfrifol am gynnal a chomisiynu adolygiadau ac am roi argymhellion a chamau gweithredu dilynol ar waith, tra bo gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu rôl gynnull unigryw, a all sicrhau bod gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu a'u hannog. O fewn y prosiect peilot, roedd rhai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn ysgogi camau gweithredu ac yn dod â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol ynghyd yn eu hardal heddlu mewn ffordd gefnogol a chadarnhaol. Ym Mlwyddyn 2, byddai'r Comisiynydd yn ceisio sefydlu llwybrau i hyrwyddo hyn yn genedlaethol, yng nghyd-destun model goruchwylio a arweinir gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ar gyfer casglu data. Byddai cyflwyno'r model hwn yn genedlaethol yn sicrhau bod Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn sefydlu proses uwchgyfeirio leol a threfniadau llywodraethu ar gyfer materion yn ymwneud â rhoi argymhellion ar waith.

Yn y cyfamser, mae angen mwy o eglurder yn y canllawiau statudol ar rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu neu Feiri, a dylid diwygio'r canllawiau i nodi y dylid gwahodd Comisiynwyr yr Heddlu i gymryd rhan mewn unrhyw oruchwyliaeth strategol o Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn eu hardaloedd ac i gefnogi'r broses o rannu gwybodaeth.

#### 5.1.1 Technoleg newydd

Gallai technoleg newydd, a alluogir gan ddeallusrwydd artiffisial, wireddu gweledigaeth y Comisiynydd ar gyfer atebolrwydd a goruchwyliaeth mewn perthynas ag Adolygiadau Lladdiadau Domestig – a thrawsnewid yr ymateb strategol i gam-drin domestig, yn lleol ac yn genedlaethol.

Ar draws ymatebion amlasiantaethol ac adolygiadau diogelu, mae amrywiaeth o ffyrdd o olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion.  Nid yw'r Comisiynydd yn ceisio ailddyfeisio na dyblygu systemau sy'n bodoli eisoes – fodd bynnag, mae'n cydnabod bod angen teilwra a datblygu technoleg yn sylweddol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd drwy'r prosiect peilot. Bu ymdrechion i nodi a chaffael unrhyw systemau parod sy'n bodoli eisoes yn aflwyddiannus, felly hefyd ymdrechion i ddatblygu system drwy dimau datblygu digidol mewnol y Swyddfa Gartref.

Roedd y system Microsoft Excel beilot yn brawf defnyddiol o gysyniad, a ddangosodd ei bod yn amhosibl casglu a chyfuno data gan nifer o ardaloedd lleol i lunio darlun cenedlaethol o gynnydd gyda'r dechnoleg hon. Fel y nodwyd eisoes ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn, ni all technoleg sy'n bodoli eisoes ateb y galw am atebolrwydd a goruchwyliaeth ar gyfer Adolygiadau Lladdiadau Domestig ac ni fyddai'n gallu sicrhau'r manteision ychwanegol a nodir yn ddiweddarach yn y bennod hon (fel gwella a symleiddio'r ymateb strategol i gam-drin domestig yn fwy cyffredinol.

Felly, mae'r Comisiynydd wedi ystyried y posibilrwydd o gyflwyno technoleg newydd yn genedlaethol, wedi'i galluogi gan ddysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial, er mwyn diogelu'r broses o oruchwylio Adolygiadau Lladdiadau Domestig rhag datblygiadau yn y dyfodol a'i datblygu gan ystyried y prosesau adolygu isod sy'n dod i'r amlwg, fel Adolygiadau Lladdiadau ag Arf Ymosodol.

Caiff yr achos dros ddatblygu system oruchwylio ddigidol genedlaethol, wedi'i datblygu gan Catch Impact, sefydliad arbenigol ym maes data a thechnoleg, ei archwilio'n fanwl yn Atodiad A. Mae'r ddogfen hon yn dangos pam mae system o'r fath yn hanfodol, pa broblemau y bydd yn eu datrys a sut y bydd yn gweithio yn ymarferol. Mae anghenion craidd y system a'r argymhellion o ran ei dyluniad wedi'u nodi yn rhan 4 o Atodiad A. Mae rhan 5 yn rhoi sail resymegol dros fuddsoddi ac yn nodi sut y bydd y system yn gwneud arbedion effeithlonrwydd drwy gyflwyno datrysiad cydweithredol diogel y gellir ei ehangu a ddyluniwyd i fynd i'r afael â heriau systemig a chefnogi rhwymedigaethau statudol.

Nodir manteision system o'r fath yn adran 5.2, a cheir amlinelliad manwl o'i nodweddion yn Atodiad A. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithle digidol unedig.
- Mynediad amlasiantaethol yn seiliedig ar rôl, gyda dolenni mewngofnodi diogel a chaniatadau wedi'u teilwra.
- Dull syml o lwytho data (gan ddefnyddio adnoddau mewnforio a gynorthwyir gan ddeallusrwydd artiffisial), gan alluogi ardaloedd lleol i lanlwytho eu Hadolygiadau Lladdiadau Domestig a'u Cynlluniau Gweithredu yn hawdd, heb fod angen mewnbynnu data â llaw, gan ddibynnu'n drwm ar adnoddau.
- Protocolau uwchgyfeirio a hysbysiadau awtomataidd, i ddarparu negeseuon atgoffa a sicrhau diweddariadau amserol, gan leihau faint o adnoddau sydd eu hangen yn ganolog ar dîm y Comisiynydd Cam-drin Domestig.
- Tacsonomeg safonol i ysgogi cysondeb cenedlaethol, fel bod modd sicrhau cysondeb o ran data a dysgu ar draws ardaloedd.
- Y gallu i fonitro a sicrhau ansawdd camau gweithredu, gan hwyluso gwaith olrhain perfformiad manwl ac atebolrwydd.
- Dangosfyrddau sy'n canolbwyntio ar bartneriaid, i roi darlun cyfunol i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac asiantaethau lleol a chenedlaethol eraill.

- Prosesau adrodd a meincnodi aml-haen, gyda'r gallu i edrych yn fanylach ar ddata cenedlaethol a lleol.
- Y gallu i reoli gwybodaeth drwy lyfrgell e-ddysgu.
- Saernïaeth gadarn ar gyfer diogelwch, hygyrchedd a'r gallu i ehangu.
- Y gallu i gydgysylltu ardaloedd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ag ardaloedd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gyda chymorth deallusrwydd artiffisial, gan dynnu sylw at yr argymhellion, y camau gweithredu, a'r cynlluniau gweithredu mwyaf tebyg, er mwyn symleiddio'r broses o roi camau ar waith.
- Rhaglenni a gynorthwyir gan ddeallusrwydd artiffisial i alluogi ardaloedd lleol i ddod o hyd i'r ardaloedd daearyddol a demograffig mwyaf tebyg, er mwyn defnyddio gwybodaeth o Adolygiadau Lladdiadau Domestig perthnasol a'r broses o'u rhoi ar waith i ddatblygu strategaethau newydd.
- Prosesau dilysu a rhyngweithredu di-dor, gan alluogi mynediad diogel ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gyda thrywydd archwilio llawn at ddibenion cydymffurfiaeth.

### 5.1.2 Cyllid

Byddai angen £1m o gyllid cyfalaf i ddatblygu a chyflwyno'r dechnoleg newydd dros gyfnod o 6-10 mis, ac yna hyd at 100k y flwyddyn ar gyfer costau rhedeg a gwaith cynnal a chadw parhaus.

Mae angen £1m i ddatblygu system gynhwysfawr sy'n barod ar gyfer y dyfodol[65] a hyd at 100k y flwyddyn (yn dibynnu ar nifer y defnyddwyr y mae'r system yn ei chefnogi) i'w rhedeg. Mae'r system hon yn defnyddio dulliau prosesu data a gynorthwyir gan ddeallusrwydd artiffisial, dadansoddeg uwch, adnoddau meincnodi, a llyfrgell gwersi a ddysgwyd. Mae'r fersiwn hon yn galluogi'r Swyddfa Gartref i sicrhau effaith hirdymor ar draws y system gyfan ar unwaith.

### 5.1.3 Darparu adnoddau ar gyfer wyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig

Yn ogystal â darparu adnoddau i ddatblygu technoleg newydd, byddai angen cyllid parhaus i staffio tîm bach yn Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig i graffu'n annibynnol ar y broses o roi Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar waith a meithrin gallu a chapasiti ar lefel leol.

Byddai'r adnoddau yr awgrymwyd y byddai eu hangen i gefnogi'r broses o gyflwyno proses atebolrwydd a goruchwyliaeth genedlaethol yn llawn yn costio tua £450k, gan gynnwys saith unigolyn yn cynnwys uwch-swyddog ymchwil, arweinwyr ymgysylltu lleol, staff gweinyddol ac uwch-reolwyr. Gellid cynyddu'r tîm hwn dros amser.

---

[65] Atodiad A: Datblygu system ddigidol ar gyfer Proses Oruchwylio Marwolaethau sy'n gysylltiedig â Cham-drin Domestig.

Byddai tîm ychwanegol y Comisiynydd yn golygu bod modd dadansoddi canfyddiadau ac argymhellion Adolygiadau Lladdiadau Domestig, a'r broses o'u rhoi ar waith, ac ochr yn ochr ag adnodd data newydd, byddai'n gallu darparu dangosfyrddau data manwl ar gyfer llywodraeth leol ac asiantaethau lleol mewn amser real.

At hynny, drwy ddarparu adnoddau ychwanegol, byddai modd gwneud y canlynol:

- Craffu'n drylwyr ar ffurflenni hunanasesu, gan gynnwys hapsamplu ar draws asiantaethau, ardaloedd daearyddol, ac adrannau'r llywodraeth
- Cefnogi ardaloedd lleol unigol os byddant yn ei chael hi'n anodd rhoi Adolygiad Lladdiad Domestig ar waith, gan roi cyngor arbenigol ar arferion gorau
- Sefydlu a chyflwyno proses uwchgyfeirio a ddyluniwyd drwy'r prosiect peilot ac a nodwyd eisoes ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn, fel bod modd archwilio materion sy'n dod i'r amlwg yn barhaus a dwyn asiantaethau i gyfrif
- Atgyfnerthu prosesau sy'n bodoli eisoes ar gyfer dysgu ac ymgysylltu ar draws ardaloedd, fel y fforwm Marwolaethau sy'n gysylltiedig â Cham-drin Domestig.
- Cyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau dysgu, gan adlewyrchu gwersi a ddysgwyd o adolygiadau wrth iddynt gael eu datblygu a'u rhoi ar waith
- Dadansoddi themâu a thueddiadau mewn argymhellion a'r broses o'u rhoi ar waith mewn modd cadarn, a chyhoeddi adroddiadau blynyddol manwl

CYFANSWM Y CYLLID A RAGWELIR – Blwyddyn 2 (y prosiect peilot): £1.45m

- £1m – costau cyfalaf
- £450k – costau adnoddau

Blwyddyn 3 (cyflwyno'n genedlaethol) £550k

- £100k – costau rhedeg blynyddol
- £450k – costau adnoddau


Costau rhedeg blynyddol wedi hynny – £550k

Amcangyfrifir bod cam-drin domestig yn costio £88.9bn y flwyddyn, a bod lladdiadau domestig yn costio £2.9m fesul lladdiad i gymdeithas [66]. Ni allwn danamcangyfrif gwerth atal marwolaeth yn ariannol ac yn emosiynol. Pan fydd rhywun yn cymryd bywyd unigolyn, mae'r effaith yn ddiderfyn. Mae'r potensial i Adolygiadau Lladdiadau Domestig helpu i atal marwolaethau yn y dyfodol yn fawr, ac mae buddsoddi mewn prosesau Adolygiadau Lladdiadau Domestig er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu nodau i atal cam-drin domestig a lladdiadau yn hanfodol i gyflawni'r nodau hyn.

#### 5.1.4 – Cynllun a'r camau nesaf

Os bydd llywodraeth genedlaethol yn derbyn argymhelliad y Comisiynydd i ariannu hyn, dyma'r llinell amser a ragwelir:

[66] Y Swyddfa Gartref (2019) The economic and social costs of domestic abuse




Cyn ei gyflwyno'n genedlaethol, diben y prosiect peilot estynedig fydd:

- Datblygu'r dechnoleg newydd a nodwyd yn gynt yn y bennod hon, yn barod i'w chyflwyno'n genedlaethol ar ôl 12 mis.
- Profi'r broses uwchgyfeirio a amlinellwyd ym mhennod 3.
- Adolygu dulliau presennol o ddysgu ar y cyd a sefydlu cynlluniau i'w cyflwyno'n genedlaethol, gan ddefnyddio'r llwyfan ar-lein i nodi arferion.
- Ymgysylltu'n lleol a chynnal digwyddiadau dysgu ar y cyd.
- Gweithio gyda llywodraeth genedlaethol i ymgorffori proses ar gyfer goruchwylio argymhellion cenedlaethol.

## 5.2 Manteision goruchwylio

*"The LGA recognises the real value of the Commissioner's oversight of Domestic Homicide Reviews. It brings together learning from across the country and highlights what's working – and what isn't – in ways that central government alone can't see. This independent insight helps protect the integrity of the DHR process and builds confidence that reviews are leading to real change on the ground. Now's not the time to step back. With the right backing, this approach could be expanded further – helping to save lives, prevent future tragedies, and make better use of public money."*[67]

Nodwyd manteision sylweddol i fodel goruchwyliaeth ac atebolrwydd cenedlaethol a arweinir gan y Comisiynydd Cam-drin Domestig ar gyfer Adolygiadau Lladdiadau Domestig. Mae'r

[67] Dyfyniad gan y Cynghorydd Heather Kidd, Cadeirydd Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel a Chryfach CLlL.

rhain wedi'u nodi isod ac yn cwmpasu gwersi a ddysgwyd o brosiect peilot lleol, dadansoddiad o argymhellion cenedlaethol, a gweithgarwch ymgysylltu â phartneriaid arbenigol yn y sector a theuluoedd mewn profedigaeth.

**5.2.1 Atebolrwydd**

*"Having the lever of the DAC office oversight increases local accountability by introducing a mechanism for increased oversight and scrutiny."*

*Ardal beilot Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, 2024*

Yr hyn sy'n gwbl glir yw'r diffyg atebolrwydd wrth roi argymhellion a chamau gweithredu Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar waith. Mae llawer o asiantaethau lleol – a rhai o adrannau'r llywodraeth – yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif ac yn gwneud eu gorau i'w rhoi ar waith yn dda. Fodd bynnag, nid oes unrhyw broses i sicrhau cysondeb a newid parhaus, yn enwedig o ystyried y diffyg adnoddau ar lefel leol.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw leoliad canolog i Loegr lle y gellir olrhain camau gweithredu neu ddwyn asiantaethau i gyfrif. Mae prosiect goruchwylio peilot y Comisiynydd yn dangos diffyg gweithredu i roi argymhellion cenedlaethol ar waith, ac anawsterau wrth eu rhoi ar waith ar lefel leol. Drwy oruchwylio hyn yn genedlaethol, byddai'r Comisiynydd yn defnyddio ei phwerau i gasglu gwybodaeth am y broses o roi argymhellion a chamau gweithredu ar waith ac i nodi methiannau wrth wneud hynny.

Mae'n destun pryder arbennig bod cyn lleied o adrannau'r llywodraeth hyd yn oed yn gwybod bod ganddynt argymhellion Adolygiadau Lladdiadau Domestig i'w hystyried.

Mae dioddefwyr a'u teuluoedd yn haeddu gwell. Mae'r Swyddfa Gartref wedi gwneud cynnydd i goladu Adolygiadau Lladdiadau Domestig mewn llyfrgell, sy'n gam cyntaf pwysig, ond nid yw'n cynnig ffordd o ddadansoddi data cyfunol yn rheolaidd nac yn gweithredu fel adnodd i olrhain neu fonitro cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu, ac nid yw chwaith yn rhoi gwybodaeth am y ffordd y mae argymhellion wedi'u rhoi ar waith.

Creodd Deddf Cam-drin Domestig 2021 Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, sy'n gyfrifol am ddwyn llywodraeth genedlaethol a lleol i gyfrif. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau cyfreithiol penodol i'r Comisiynydd a fyddai'n hwyluso atebolrwydd am y broses o roi argymhellion Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar waith, sef dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwybodaeth iddi ac ymateb i'w hargymhellion. Yn yr un modd, byddai natur annibynnol rôl y Comisiynydd yn cefnogi atebolrwydd cadarn am ardaloedd lleol a llywodraeth genedlaethol, heb faich teyrngarwch gwleidyddol neu deyrngarwch arall.

**5.2.2 Blaenoriaethu, tryloywder, a statws**

Mae presenoldeb goruchwyliaeth yn y broses adolygu yn codi proffil adolygiadau am fod hyn yn cynnig haen newydd o graffu a fu ar goll o Adolygiadau Lladdiadau Domestig ers iddynt gael eu sefydlu. Nododd arweinwyr strategol mewn ardaloedd peilot fod goruchwyliaeth gan y

Comisiynydd yn eu grymuso i bwyso am i argymhellion a chamau gweithredu gael eu rhoi ar waith fel blaenoriaeth.

Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng blaenoriaethu'n well a chodi statws Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar lefel leol a chenedlaethol, yn ogystal ag ysgogi blaenoriaethau drwy fwy o dryloywder. Byddai unrhyw broses atebolrwydd a goruchwyliaeth genedlaethol o reidrwydd yn gofyn am lefel uchel o dryloywder, gan ysgogi blaenoriaethau ar lefel leol a chenedlaethol. Byddai proses gyson a ffurfiol o roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn annog mwy o bwyslais ar argymhellion ar lefel leol a chenedlaethol.

#### 5.2.3 Cymorth i deuluoedd a hyder

Byddai atebolrwydd clir wedi'i ysgogi gan y Comisiynydd yn dangos i deuluoedd mewn profedigaeth fod adolygiadau yn cael eu cymryd o ddifrif. Hyd yn oed lle na ellir rhoi pob argymhelliad ar waith yn llawn, bydd proses oruchwylio a gynhelir yn swyddfa'r Comisiynydd annibynnol yn ennyn hyder yn y broses ac yn rhoi sicrwydd nad yw gwersi a ddysgwyd yn mynd yn ofer.

#### 5.2.4 Meithrin dealltwriaeth o gam-drin domestig, dysgu, a nodi ac uwchygyfeirio materion systemig

Ar hyn o bryd, cyfyngir ar ddysgu i'r lefel leol, heb rannu fawr ddim gwersi a ddysgwyd na chynnal dadansoddiad thematig yn genedlaethol. Mae'r Comisiynydd mewn sefyllfa unigryw i ddod ag asiantaethau lleol a llywodraeth genedlaethol ynghyd, i hwyluso'r broses hon o rannu gwersi a ddysgwyd.

Gall proses oruchwylio helpu i rannu gwersi a ddysgwyd, gan ddefnyddio un adnodd canolog i rannu gwersi a ddysgwyd yn lleol, ar draws rhanbarthau, ac yn genedlaethol. Bydd hyn yn rhoi sylw i wersi a ddysgwyd yn lleol ar lwyfan cenedlaethol lle y gall ardaloedd lleol ystyried ble mae bylchau mewn ymarfer eisoes wedi'u nodi a gwaith datblygu polisi wedi'i gyflawni. Gallai ardaloedd lleol wedyn ystyried unrhyw adolygiadau mewn ffordd flaengar yn hytrach nag ailadroddus, gan ystyried yr hyn y gallent ei roi ar waith ar unwaith ar sail gwersi a ddysgwyd mewn ardaloedd eraill.

Drwy'r prosiect peilot a gwaith profi prosesau casglu data, mae angen casglu llawer iawn o wybodaeth er mwyn nodi elfennau newid systemig adolygiadau, yn ogystal â'r materion lleol o ran ymarfer a pholisi thematig. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd system newydd sy'n symleiddio'r broses o adolygu data, sy'n berthnasol i oruchwylio argymhellion ac yn rhoi amser i dîm y Comisiynydd ganolbwyntio ar y camau gweithredu/argymhellion hynny sy'n hanfodol i newid systemig.

Bydd hyn yn cynnig cymorth pellach i lywodraeth genedlaethol dargedu newid mewn polisi i leihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig ac achosion o gam-drin domestig yn fwy cyffredinol yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl. Croesawodd y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a fu'n rhan o'r prosiect peilot y cyfle i weithio gyda'r Comisiynydd i godi materion a nodwyd ganddynt ar lwyfan cenedlaethol.

Gallai hefyd alluogi ardaloedd i sicrhau bod pecynnau hyfforddiant yn cael eu datblygu'n dda ac yn mynd i'r afael â materion cyffredin. Yn yr un modd, dylai dadansoddiad thematig cenedlaethol o gamau gweithredu ysgogi gwelliannau yn ansawdd argymhellion.

Bydd adroddiad blynyddol y Comisiynydd ar y broses oruchwylio yn gwneud argymhellion i gyrff cenedlaethol, gan roi cyfle i argymhellion lleol sy'n berthnasol yn genedlaethol gael eu huwchgyfeirio.

#### 5.2.5. Trawsnewid prosesau llunio polisïau a gwaith cynllunio strategol lleol a chenedlaethol

Gallai goruchwyliaeth genedlaethol, ochr yn ochr â'r adnodd technolegol arfaethedig, drawsnewid y ffordd y mae llywodraeth leol a chenedlaethol yn cynllunio ac yn datblygu eu hymateb i gam-drin domestig yn wirioneddol.

Mae'n wastraff mawr nad yw'r wybodaeth gyfunol o dros filoedd o Adolygiadau Lladdiadau Domestig – ar ôl colli cymaint o fywydau – wedi'i defnyddio'n effeithiol hyd yma.

Bydd technoleg newydd gyffrous, wedi'i hwyluso gan ddeallusrwydd artiffisial, yn galluogi asiantaethau lleol a chenedlaethol i fanteisio i'r eithaf ar gyfoeth o ddoethineb, yn yr argymhellion eu hunain ac yn y broses o'u rhoi ar waith, i ddatblygu ymarfer a pholisi. Bydd hyn yn ysgogi effeithlonrwydd gan y gall ardaloedd lleol wneud defnydd uniongyrchol o lawer iawn o wybodaeth yn ogystal â gwersi a ddysgwyd ledled y wlad, gan ragweld heriau o ran gweithredu a allai fod wedi digwydd yn flaenorol.

Drwy'r adnodd newydd hwn, mae'r Comisiynydd yn rhagweld system lle y gall arweinwyr strategol lleol (a llunwyr polisi cenedlaethol) fewnbynnu gwybodaeth am eu hardal leol, y systemau y maent yn gweithio oddi mewn iddynt, a'r broblem y maent yn ceisio mynd i'r afael â hi. Defnyddir doethineb cyfunol Adolygiadau Lladdiadau Domestig ledled y wlad, nid yn unig i ddatblygu datrysiadau a awgrymwyd, ond hefyd wybodaeth am ba ardaloedd sydd eisoes wedi rhoi systemau tebyg ar waith.

Gallai hyn drawsnewid y broses o ddatblygu gofynion statudol ar lefel leol, fel Asesiadau ar y Cyd o Anghenion Strategol o dan y Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion, Cynlluniau'r Heddlu a Throseddu, y Ddyletswydd Atal Trais Difrifol, a'r Ddyletswydd Llety Diogel, ymhlith rhai eraill.

#### 5.2.6 Ysgogi arbedion effeithlonrwydd a symleiddio prosesau casglu data

Ar hyn o bryd, mae prosesau adolygu lleol yn aneffeithlon iawn, o ran casglu data, rhannu gwersi a ddysgwyd, a rhoi newidiadau ar waith. O ystyried y pwysau o ran capasiti a nodwyd yn gynt yn yr adroddiad, bydd hyn yn hollbwysig. Gallai proses oruchwylio genedlaethol, wedi'i hategu gan dechnoleg newydd, roi'r cyfle i wneud y canlynol:

- **Mewnbynnu data cynlluniau gweithredu mewn adnodd casglu data cenedlaethol cyson yn hawdd.** Byddai hyn yn helpu ardaloedd lleol i lanlwytho setiau data cyson yn hawdd, olrhain camau gweithredu, a defnyddio hyn ar draws ardaloedd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Bydd hyn yn helpu i nodi camau gweithredu dyblyg ar gyfer yr

un asiantaeth ar draws ardaloedd gwahanol, ac yn galluogi arweinwyr cam-drin domestig i ganolbwyntio ar weithredu.

- **Rhannu gwersi a ddysgwyd mewn ffordd well er mwyn rhoi argymhellion ar waith.** Mae'r themâu cyson ar draws Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn dangos nad yw gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu'n effeithiol rhwng ardaloedd lleol. Drwy rannu gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau wrth roi newidiadau ar waith yn hawdd, gall ardaloedd lleol ddefnyddio'r arferion gorau sy'n bodoli eisoes yn hytrach nag ailddyfeisio datrysiadau a all fod wedi'u datblygu mewn mannau eraill yn barod.
- **Monitro amseroldeb mewn ffordd hawdd ac effeithiol,** drwy olrhain amserlenni yn erbyn camau gweithredu fel bod modd mynd i'r afael ag unrhyw gysylltiadau rhwng oedi ac effeithiolrwydd.

Byddai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol hefyd yn elwa ar y gallu i rannu'r themâu cyson a ddangoswyd ar draws adolygiadau eraill yn genedlaethol â Chadeiryddion eu hadolygiadau, er mwyn llywio argymhellion yn well a chydgysylltu gwersi thematig cyffredin a ddysgwyd mewn adolygiadau eu hunain.

**5.2.7 Gwella a chefnogi'r broses o roi adolygiadau perthnasol eraill ar waith**

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw broses i olrhain a monitro newid o ganlyniad i adolygiadau amlasiantaethol, ac i gasglu'r gwersi hyn a ddysgwyd ynghyd.

Mae technoleg newydd yn cynnig y cyfle i ddod ag amrywiaeth ehangach o adolygiadau statudol ac anstatudol ynghyd, gan ddadansoddi data a sicrhau manteision ar draws amrywiaeth o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Mae mathau tebyg o adolygiadau eisoes yn cynnwys lefel o oruchwyliaeth i sicrhau bod argymhellion ar gyfer newid yn cael eu hymgorffori'n briodol, a bod gwersi'n cael eu dysgu'n effeithiol. Byddai'r dechnoleg newydd arfaethedig yn gwella hyn ymhellach ac yn cysylltu ag Adolygiadau Lladdiadau Domestig. Mae gwaith craffu ar adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol ac adolygiadau o farwolaethau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys lefelau amrywiol o oruchwyliaeth mewn perthynas â'r broses yn ogystal â'r gwaith o roi'r argymhellion a wnaed ar waith. Ar hyn o bryd, caiff Adolygiadau Lladdiadau ag Arf Ymosodol eu gwerthuso yn dilyn prosiect peilot ac mae'r canllawiau statudol ar gyfer yr adolygiadau hynny yn amlinellu rôl y Bwrdd Goruchwylio Adolygiadau Lladdiadau ag Arf Ymosodol. Sicrheir ansawdd Adolygiadau Lladdiadau ag Arf Ymosodol yn lleol drwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol neu drefniadau lleol eraill y cytunwyd arnynt.

Drwy sefydlu'r broses atebolrwydd a goruchwyliaeth arfaethedig, gellid dod â'r amrywiaeth lawn hon o adolygiadau lleol ynghyd yn effeithiol.

**Pennod 6: Casgliadau ac argymhellion**

Mae'r Comisiynydd yn croesawu ymrwymiad y llywodraeth i haneru nifer yr achosion o Drais yn Erbyn Menywod a Merched dros y degawd nesaf. Bydd lleihau nifer y lladdiadau domestig yn brawf pwysig o'i gallu i gyflawni hyn.

Gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd drwy'r prosiect peilot hyd yma, mae'r adroddiad hwn yn nodi'r rôl bwysig y byddai proses oruchwylio genedlaethol yn ei chwarae i ddatgloi arferion gorau a chaboli'r broses o lunio polisi cenedlaethol ar ba fesurau sy'n gweithio'n fwy effeithiol i leihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.

Mae'r adroddiad hefyd yn manylu ar lasbrint, a'r goblygiadau cysylltiedig o ran adnoddau, sydd ei angen i gynnal y prosiect peilot am flwyddyn arall gyda'r nod o gyflwyno'r broses yn genedlaethol yn 2027.

Mae'r Comisiynydd mewn sefyllfa annibynnol unigryw i ddarparu cymorth ar lefel leol, casglu ymarfer a gwybodaeth gan ardaloedd lleol a rhanbarthol, uwchgyfeirio materion neu bryderon am weithredu a dod ag ardaloedd ynghyd yn genedlaethol. Ni ellir dangos newid ac effaith mewn cyfnod byr o amser ac mae'r broses Adolygiadau Lladdiadau Domestig eisoes yn araf i fynd i'r afael â hyn.

Nid dyma'r adeg i golli diddordeb yn y broses hon. Yn hytrach, mae angen buddsoddi'n strategol yn yr adnoddau gorau ar gost gymedrol er mwyn sicrhau newid o ganlyniad i adolygiadau marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.

**6.1 Argymhellion statudol**

O dan Ran 2 o'r Ddeddf Cam-drin Domestig, mae Comisiynydd Cam-drin Domestig Cymru a Lloegr yn gwneud yr argymhellion canlynol:

1. **Cyllid i dreialu a chyflwyno Proses Atebolrwydd a Goruchwyliaeth ar gyfer Marwolaethau sy'n gysylltiedig â Cham-drin Domestig yn genedlaethol:** Dylai'r Swyddfa Gartref ddarparu £1.45m ym Mlwyddyn 1 a £550k y flwyddyn wedi hynny i ddatblygu a chyflwyno proses atebolrwydd a goruchwyliaeth genedlaethol, a gynhelir yn Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig. Byddai hyn yn ariannu:
    a. Y gwaith o ddatblygu llwyfan digidol newydd a fyddai'n gwneud y canlynol:
        i. Galluogi Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i lanlwytho Adolygiadau Lladdiadau Domestig, gan gynnwys argymhellion a chynlluniau gweithredu.
        ii. Galluogi asiantaethau lleol a llywodraeth genedlaethol i roi diweddariadau uniongyrchol ar y broses o roi argymhellion a chamau gweithredu eu Hadolygiadau Lladdiadau Domestig ar waith.
        iii. Drwy ddeallusrwydd artiffisial a dysgu peirianyddol, cyfuno'r gwersi a ddysgwyd o argymhellion a chamau gweithredu Adolygiadau Lladdiadau Domestig, a'r cynnydd tuag at eu rhoi ar waith.

iv. Galluogi asiantaethau lleol a llywodraeth genedlaethol i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatblygu ymateb strategol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gam-drin domestig gyda chyngor parod ar arferion da i'w rhoi ar waith.

b. Adnoddau o fewn Swyddfa'r Comisiynydd a chostau rhedeg blynyddol. Byddai hyn yn darparu ar gyfer cynnal a chadw'r llwyfan digidol a thîm bach o arbenigwyr ac ymchwilwyr, a fyddai'n sicrhau mwy o graffu ac yn rhoi'r cyfle i uwchgyfeirio pryderon systemig.

2. **Gwella ymateb y Llywodraeth i'w hargymhellion ei hun o Adolygiadau Lladdiadau Domestig a'r broses o'u rhoi ar waith.** Yn yr un modd ag y disgwylir i asiantaethau lleol ddysgu o farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a chymryd eu hargymhellion o ddifrif, mae'n rhaid i lywodraeth genedlaethol wneud hynny hefyd. Rhaid i lywodraeth genedlaethol weithredu ar argymhellion Cenedlaethol, yn ogystal â chydnabod pan fydd angen ymateb yn genedlaethol i faterion cyson. Mae cyfathrebu amserol rhwng adrannau'r llywodraeth a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol, yn ogystal â chydgysylltu a chyfathrebu rhwng adrannau, yn hanfodol. Mae'r Comisiynydd eisoes wedi argymell cyfres o gynigion ar gyfer gwella'r ffordd yr ymatebir i argymhellion cenedlaethol yn ei hymateb i'r ymgynghoriad ar y canllawiau statudol, ac mae'r rhain yn parhau. [68]

At hynny, mae'r Comisiynydd yn argymell y dylai llywodraeth genedlaethol wneud y canlynol:

2.1 Ymateb yn syth ar ôl cael argymhellion Adolygiadau Lladdiadau Domestig, gyda phob adran unigol o'r llywodraeth yn cymryd cyfrifoldeb clir am roi unrhyw argymhellion a wnaed iddi ar waith.

2.2 Rhannu diweddariadau ar y broses o roi'r argymhellion ar waith â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn uniongyrchol, yn gyflym ac yn dryloyw. Dylai hyn gynnwys:

2.2.1 Creu rhwydwaith o bwyntiau cyswllt penodol yn adrannau'r llywodraeth, gan restru blychau post cyhoeddus mewn canllawiau neu ar gov.uk er mwyn galluogi Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i gysylltu â swyddogion perthnasol yn hawdd

2.2.2 Sefydlu proses ffurfiol ar gyfer rhannu camau a gymerir i roi argymhellion ar waith â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol, pan ofynnir am hynny

2.2.3 Hysbysu Partneriaethau Diogelwch Cymunedol pan nad eir ar drywydd argymhelliad neu pan na fydd yn cael ei roi ar waith

[68] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2024) *Consultation* on updating the Domestic Homicide Review Statutory Guidance: *Written submission from the Domestic Abuse Commissioner for England and Wales*.

2.2.4 Sicrhau bod argymhellion yn cyrraedd yr adran gywir a Hysbysu Partneriaethau Diogelwch Cymunedol pan fydd argymhellion yn cael eu trosglwyddo rhwng adrannau.

2.2.5 Sicrhau bod ymatebion i argymhellion Adolygiadau Lladdiadau Domestig cenedlaethol yn cael eu hystyried o fewn strwythurau llywodraeth trawslywodraethol, fel Bwrdd Gweinidogol Trais yn Erbyn Menywod a Merched. Dylai hyn gynnwys ystyried prosesau adolygu ehangach a'r potensial ar gyfer dysgu a gweithredu ar y cyd, fel ADUSau yng Nghymru, Adolygiadau Ymarfer Diogelu Plant neu Adolygiadau Lladdiadau ag Arf Ymosodol. Dylai hyn fwydo i mewn i'r Bwrdd Cenhadaeth Strydoedd Mwy Diogel.

2.2.6 Creu proses uwchgyfeirio ar gyfer achosion lle nad yw argymhellion ar gyfer adrannau yn cael eu cyflawni.

2.2.7 Dadansoddi themâu cyson mewn Adolygiadau Lladdiadau Domestig i gydnabod problemau systemig sy'n gwarantu ymateb cenedlaethol – p'un a yw hyn yn ymwneud â'r argymhellion eu hunain neu'r broses o'u rhoi ar waith.

2.2.8 Rhoi canllawiau i Gadeiryddion Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar y ffordd orau o ddatblygu argymhellion cenedlaethol.

2.2.9 Sicrhau bod hyfforddiant Cadeiryddion yn meithrin dealltwriaeth o'r ffordd y gallai argymhellion llywodraeth cenedlaethol weithio.

2.2.10 Defnyddio'r broses Sicrhau Ansawdd i gywiro argymhellion a wnaed ar gyfer yr adran anghywir o'r llywodraeth.

**3. Gwella capasiti ac adnoddau i gynnal Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn lleol:** Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyllid penodol i ardaloedd lleol ar gyfer Adolygiadau Lladdiadau Domestig, a ddylai gynnwys costau sy'n gysylltiedig â'r canlynol, ymhlith pethau eraill:

- Cadeiryddion ac awduron
- Aelodau panel arbenigol
- Ymgysylltu â gwasanaethau arbenigol (fel arbenigwyr) gan gynnwys gwasanaethau 'gan ac ar gyfer'
- Cydgysylltu, rheoli a llywodraethu adolygiadau
- Cymorth i deuluoedd gymryd rhan yn y broses
- Rhannu gwersi a ddysgwyd.

Dylai'r Swyddfa Gartref weithio gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i bennu'r modelau cyllido mwyaf priodol.

**6.2 Argymhellion ymarfer ar gyfer Cadeiryddion Adolygiadau Lladdiadau Domestig, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu**

Yn ogystal â'r argymhellion statudol ar gyfer llywodraeth a osodwyd o dan Ran 2 o'r Ddeddf Cam-drin Domestig, nododd y Comisiynydd ymarfer amrywiol o ran cynnal a datblygu Adolygiadau Lladdiadau Domestig, y mae angen tynnu sylw ato. Mae enghreifftiau o ymarfer wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, ond gellir nodi argymhellion penodol i Gadeiryddion yn y gwersi hyn a ddysgwyd:

1. Lle y bo modd, dylai Cadeiryddion osgoi gwneud argymhellion i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol eu rhoi ar waith. Dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol chwarae mwy o rôl mewn trefniadau goruchwylio lleol yn hytrach na chyflawni camau gweithredu, a gallai argymhellion ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol gynrychioli gwrthdaro buddiannau neu ddryswch ynglŷn â rolau statudol.
2. Dylai Cadeiryddion sicrhau bod argymhellion yn rhai CAMPUS a phenodol, a dylai camau gweithredu enwi'r asiantaethau penodol y disgwylir iddynt eu rhoi ar waith.
3. Dylai Cadeiryddion nodi'r pwysigrwydd a'r flaenoriaeth y dylid eu rhoi i argymhellion gwahanol yn eu hadolygiadau ac osgoi camau gweithredu byrdymor unigol. Bydd hyn yn helpu ardaloedd lleol i flaenoriaethu adnoddau cyfyngedig ar argymhellion a fydd yn arwain at newid ystyrlon.

**Rhestr termau**

*Acronymau*

| | |
|---|---|
| AAFDA | Advocacy After Fatal Domestic Abuse |
| APCC | Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu |
| BME | Pobl Ddu ac Ethnig Leiafrifol |
| CCB | Ymddygiad Gorfodaethol a Rheolaethol |
| CCR | Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig |
| CSP | Partneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| CSEW | Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr |
| DAC | Y Comisiynydd Cam-drin Domestig |
| DAPB | Y Bwrdd Partneriaeth Cam-drin Domestig |
| DADR | Marwolaethau sy'n gysylltiedig â Cham-drin Domestig |
| DARDR | Adolygiad Marwolaeth sy'n gysylltiedig â Cham-drin Domestig |
| DBT | Yr Adran Busnes a Masnach |
| DCMS | Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon |
| DfE | Yr Adran Addysg |
| DHR | Adolygiad Lladdiad Domestig |
| DHSC | Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| DVDS | Cynllun Datgelu Trais Domestig |
| DWP | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| HALT | Homicide Abuse Learning Together (Prosiect ymchwil) |
| HMPPS | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| HO | Y Swyddfa Gartref |
| ICB | Bwrdd Gofal Integredig |
| IMR | Adolygiad Rheoli Annibynnol |
| JSNA | Asesiad ar y Cyd o Anghenion Strategol |
| JSOG | Grŵp Optimeiddio System Cydgomisiynu |
| All | Awdurdod Lleol |
| CLlL | Y Gymdeithas Llywodraeth Leol |

| | |
|---|---|
| MARAC | Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg |
| MHCLG | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol |
| MoJ | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| NICE | Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal |
| GIG | Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| NHSE | Gwasanaeth Iechyd Gwladol Lloegr |
| NSSG | Grŵp Llywio Diogelu Cenedlaethol (GIG Lloegr) |
| NPS | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| SYG | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| OPCC | Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| OWHR | Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol |
| PCC | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| PFCC | Comisiynydd yr Heddlu, Tân a Throseddu |
| QAP | Panel Sicrhau Ansawdd |
| CAMPUS | Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol. |
| SR | Adolygiad o Wariant |
| STADA | Standing Together Against Domestic Abuse |
| SUSR | Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl |
| UNODC | Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddu |
| VAWG | Trais yn Erbyn Menywod a Merched |
| VKPP | Rhaglen Gwybodaeth ac Ymarfer Bregusrwydd |

**Terminoleg**

**Lladdiad Aelod o'r Teulu sy'n Oedolyn:** Pan fydd unigolyn 18 oed neu drosodd yn cael ei ladd gan aelod o'r teulu sy'n oedolyn nad yw'n bartner agos.

**'Gwasanaethau 'gan ac ar gyfer':** Sefydliadau sy'n cael eu cynllunio a'u darparu 'gan ac ar gyfer' pobl sydd wedi'u lleiafrifoli (gan gynnwys ar sail hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth drawsryweddol, crefydd neu oedran). Bydd y gwasanaethau hyn wedi'u gwreiddio yn y cymunedau a wasanaethir ganddynt, a gallant gynnwys gwasanaeth adfer a chymorth holistig cofleidiol sy'n mynd i'r afael â holl anghenion dioddefwr/goroeswr, y tu hwnt i gymorth ar gyfer cam-drin domestig yn unig

**Ymddygiad Gorfodaethol a Rheolaethol:** Gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau a bygylu neu gamdriniaeth arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu godi ofn ar ddioddefwr. Defnyddir ymddygiadau rheolaethol i wneud y person yn israddol a/neu'n ddibynnol drwy ei ynysu oddi wrth ffynonellau cymorth, defnyddio eu hadnoddau a'u galluoedd er budd personol, eu hamddifadu o'r modd sy'n angenrheidiol i fod yn annibynnol, i ymwrthod a ffoi ac i reoleiddio eu hymddygiad o ddydd i ddydd. Maent yn fathau o gam-drin domestig, ac yn drosedd sy'n gysylltiedig ag ymddygiad dros gyfnod o amser o dan Ddeddf Troseddau Difrifol 2015.

**Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig:** Mae'r Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig yn galluogi ymateb system gyfan i unigolion. Mae'r model ymarfer hwn yn symud cyfrifoldeb am ddiogelwch oddi wrth ddioddefwyr a goroeswyr unigol tuag at y gymuned a gwasanaethau sy'n bodoli i'w cefnogi. Gelwir y broses ar gyfer integreiddio a rheoli'r gwaith amlasiantaethol hwn yn Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig. Sefydlwyd gan Standing Together Against Domestic Abuse (STADA)

**Cam-drin domestig**: At ddibenion yr adroddiad hwn, defnyddir y diffiniad statudol yn Neddf Cam-drin Domestig 2021. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2021/17/contents

**Marwolaeth sy'n gysylltiedig â Cham-drin Domestig**: Marwolaeth sydd wedi deillio o gam-drin domestig, neu yr ymddengys ei bod wedi deillio o hynny.

**Adolygiadau Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig (Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn flaenorol):** Caiff Adolygiadau Lladdiadau Domestig eu hailenwi'n fuan yn Adolygiadau Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig er mwyn cydnabod marwolaethau drwy hunanladdiad sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. Caiff y newidiadau eu cyflwyno i'r gyfraith drwy basio Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024. Adolygiad amlasiantaethol yw Adolygiad Lladdiad Domestig yn dilyn marwolaeth person 16 oed neu drosodd sy'n bodloni'r meini prawf y cyfeirir atynt yn y canllawiau statudol yr Adolygiadau Lladdiadau Domestig (ar gael yn: www.gov.uk/government/publications/revised-statutory-guidance-for-the-conduct-of-domestic-homicide-reviews). Sefydlwyd yr adolygiadau ar sail statudol yn 2013 o dan Adran 9 o'r Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr (2004).

**'Femicide':** Mae'r Cenhedloedd Uned yn diffinio 'femicide' (neu 'feminicide', fel y cyfeirir ato mewn rhai cyd-destunau) yn Saesneg fel achosion bwriadol o ladd â chymhelliant sy'n gysylltiedig â rhywedd. Mae'n wahanol i laddiad, lle nad yw'r cymhelliant o reidrwydd yn gysylltiedig â rhywedd. Caiff lladdiadau menywod eu hysgogi gan wahaniaethu yn erbyn menywod a merched, cysylltiadau pŵer anghyfartal, stereoteipiau rhywedd neu normau cymdeithasol niweidiol. *UN Women (2024) Five essential facts to know about femicide | UN Women – Headquarters.*

**Croestoriadedd:** Term a bennwyd gan Kimberlé Crenshaw, wedi'i wreiddio'n gadarn mewn profiadau menywod Du o hiliaeth a mathau gwahanol o orthrwm, gan gynnwys cam-drin domestig. I gael rhagor o wybodaeth, gweler: Ysgol y Gyfraith Columbia (2017). *Kimberlé*

*Crenshaw on Intersectionality, More than Two Decades Later*. Gweler ar-lein yn www.law.columbia.edu

**Lladdiad partner agos:** Pan fydd oedolyn 18 oed neu drosodd yn cael ei ladd gan bartner agos presennol neu gyn-bartner agos.

**Nodweddion gwarchodedig:** Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn person oherwydd nodwedd warchodedig. Ceir naw nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: oedran, anabledd, statws ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

**Ymholiad cyffredinol:** Term a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses o ofyn i bob defnyddiwr gwasanaeth am ei brofiad o gam-drin domestig. Nid oes angen unrhyw arwyddion nac amheuon o gamdriniaeth gan fod ymholiad cyffredinol yn golygu gofyn i bawb. Gall hyn helpu i wneud yr ymholiad yn haws oherwydd y gallwch gyfeirio ato fel hynny yn union – cwestiwn a ofynnir i bawb.

**Marwolaeth amheus** – pan fydd amheuaeth bod marwolaeth wedi'i hachosi gan weithred droseddol.

**Marwolaethau annisgwyl:** Marwolaeth annisgwyl yw pan nad oedd disgwyl i unigolyn farw, gan olygu na ragwelwyd y farwolaeth neu nad oedd yn gysylltiedig â chyfnod o salwch a ddiffiniwyd yn derfynol. Nid oes achos amlwg dros y farwolaeth, neu bu farw'r unigolyn o achos hysbysadwy, er enghraifft gallai hyn fod o ganlyniad i ddamwain, hunanladdiad ymddangosiadol neu weithred droseddol.

Dioddefwyr a goroeswyr: Rydym yn defnyddio'r term hwn i gyfleu'r broses o fframio pobl sy'n destun cam-drin domestig yn gyfreithiol (‘dioddefwyr’) ac i gyfrif am ddewisiadau unigol oedolion sydd wedi profi cam-drin domestig (‘goroeswyr’).

**Atodiad A: Cylch Gorchwyl: Proses Goruchwylio Lladdiadau Domestig: Prosiect Goruchwylio Peilot Lleol**

## DIBEN Y DDOGFEN HON

Diben pennu cylch gorchwyl yw sicrhau bod yr ardaloedd sy'n cymryd rhan yn y Prosiect Peilot Lleol ar gyfer Proses Goruchwylio Lladdiadau Domestig yn deall y canlynol:

- Nodau, amcanion a chwmpas y Prosiect Peilot Lleol ar gyfer Proses Goruchwylio Lladdiadau Domestig
- Rôl a chyfrifoldebau'r asiantaeth arweiniol
- Rôl a chyfrifoldebau partneriaid
- Rôl a chyfrifoldebau Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig
- Yr ymrwymiad a ddisgwylir o ran ymgysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, rhannu gwybodaeth, rhannu arferion da a chymryd rhan mewn unrhyw werthusiad o'r prosiect peilot.

## CYLCH GORCHWYL

### Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi'r cylch gorchwyl ar gyfer y Prosiect Peilot Lleol ar gyfer Proses Goruchwylio Lladdiadau Domestig, yr ardaloedd sy'n cymryd rhan, a rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n ymwneud â phrofi model a arweinir gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r model a arweinir gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

Mae'r prosiect peilot yn cael ei gynnal gan y Comisiynydd Cam-drin Domestig.

Diben y Broses Goruchwylio Lladdiadau Domestig yw ychwanegu elfen o annibyniaeth at brosesau Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar ôl i adolygiadau gael eu cyhoeddi er mwyn sicrhau atebolrwydd lleol a chenedlaethol am y gwaith o roi argymhellion Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar waith yn ogystal â nodi themâu cyffredin a thueddiadau a chefnogi newid ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu'n genedlaethol, gan wella effeithiolrwydd argymhellion Adolygiadau Lladdiadau Domestig a dangos y newidiadau a wneir o ganlyniad i'r argymhellion hynny. Nod Proses Goruchwylio Lladdiadau Domestig y Comisiynydd Cam-drin Domestig yw ychwanegu gwerth, sicrhau cysondeb, a gwella ansawdd prosesau Adolygiadau Lladdiadau Domestig.

Diben y prosiect peilot goruchwylio lleol yw profi a dysgu am y ffordd orau i'r Comisiynydd Cam-drin Domestig oruchwylio'r broses o roi argymhellion a chamau gweithredu Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar waith, a llywio'r gwaith o ddatblygu'r broses oruchwylio i'w chyflwyno'n genedlaethol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ddeall y capasiti a'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau goruchwyliaeth effeithiol, anghenion ardaloedd lleol a'r ffordd orau y gall goruchwyliaeth helpu i roi argymhellion ar waith yn lleol a dangos effaith.

**Nodau:**

- Profi dau fodel goruchwylio lleol yng Nghymru a Lloegr, un wedi'i arwain gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r llall wedi'i arwain gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, gydag amrywiaeth eang o ardaloedd.
- Gwerthuso pob model a phenderfynu pa un y dylid ei gyflwyno.

**Amcanion:**

- Llywio'r gwaith o gyflwyno Proses Goruchwylio Lladdiadau Domestig yn genedlaethol.
- Sefydlu proses ar gyfer uwchgyfeirio pryderon am y gwaith o Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar waith ar lefel genedlaethol.
- Rhannu arferion gorau a dysgu oddi wrth ardaloedd eraill.
- Cefnogi ardaloedd lleol lle mae heriau'n codi, yng nghyd-destun pwerau ac annibyniaeth y Comisiynydd Cam-drin Domestig.

**Amlder gweithgarwch ymgysylltu / cyswllt**

- Bydd disgwyl i ardaloedd lleol ddarparu gwybodaeth i Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig ar ddechrau'r prosiect (Ionawr 2024), ar ôl chwe mis (Mehefin 2025) ac ar ddiwedd y prosiect (Rhagfyr 2024).
- Bydd amlder yr ymgysylltu y tu hwnt i rannu gwybodaeth yn dibynnu ar bob ardal, ond ni ddisgwylir i hyn fod yn amlach nag unwaith y mis.
- Bydd disgwyl i ardaloedd peilot gymryd rhan mewn digwyddiadau dysgu, y bydd o leiaf 3 ohonynt, a heb fod yn fwy na 6, yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn.
- Bydd hefyd yn ofynnol i ardaloedd peilot fynychu grŵp rhanddeiliaid yn unol â'r cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp hwnnw (i ddilyn), a fydd yn cyfarfod bob chwarter.

**Rôl y Comisiynydd Cam-drin Domestig ac Ymgysylltu**

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn arwain y ffordd mewn perthynas â goruchwylio, gan hyrwyddo'r broses o rannu gwersi a ddysgwyd ar draws yr ardaloedd peilot a gweithio gydag ardaloedd lleol i ddylunio a rhannu arferion da a chanlyniadau yn briodol.

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn gwneud y canlynol:

- Gweithio gydag ardaloedd peilot i gytuno ar y fforwm mwyaf priodol ar gyfer rhannu themâu, gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau.
- Cynnull grŵp llywio o gyrff goruchwylio cenedlaethol i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu model goruchwylio lleol.
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd Adolygiadau Lladdiadau Domestig lleol perthnasol a digwyddiadau dysgu a, lle y bo'n briodol, digwyddiadau rhanbarthol mewn ardaloedd peilot.
- Nodi a rhannu themâu a thueddiadau mewn argymhellion Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar lefel genedlaethol.
- Ceisio deall rhwystrau/heriau lleol a fframweithiau atebolrwydd lle nad yw argymhellion Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn cael eu rhoi ar waith yn gyson.
- Darparu cymorth lle y bo'n briodol. Lle y caiff rhwystrau i weithredu eu nodi, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn darparu cymorth i alluogi asiantaethau perthnasol i roi eu cynlluniau gweithredu ar waith yn effeithiol.

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i adrannau'r Llywodraeth[1] a chyrff cenedlaethol eraill am faterion neu bryderon sy'n dod i'r amlwg a rhoi diweddariadau perthnasol i ardaloedd peilot fel y bo'n briodol.

### Rôl Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

- Rhannu'r holl Adolygiadau Lladdiadau Domestig a Chynlluniau Gweithredu a gwblhawyd[2] ac a gyhoeddwyd yn ystod y tair blynedd blaenorol.
- Cwblhau datganiadau i Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig bob chwe mis ar y broses o roi eu cynlluniau gweithredu ar waith.
- Cwblhau ffurflen weithredu bob 6 mis ar ôl cyhoeddi Adolygiad Lladdiad Domestig, yn nodi cynnydd.
- Cyfrannu at a/neu gymryd rhan mewn digwyddiadau dysgu cenedlaethol.
- Hyrwyddo arferion da ar draws partneriaethau ehangach i sicrhau bod gwersi a ddysgwyd o Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn cael eu hymgorffori ar draws ardaloedd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol/Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.
- Enwebu arweinydd dynodedig ar gyfer goruchwylio pwy fydd yn cydgysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig.

Drwy gytuno i gymryd rhan yn y Prosiect Peilot Lleol ar gyfer Proses Goruchwylio Lladdiadau Domestig, rydych hefyd yn cytuno i'r cylch gorchwyl a amlinellir uchod.


Gall y cylch gorchwyl newid.

### Adendwm i'r Cylch Gorchwyl: Proses Goruchwylio Lladdiadau Domestig: Prosiect Goruchwylio Peilot Lleol

O ran rôl a gweithgarwch ymgysylltu'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, mae'r newidiadau canlynol yn gymwys i adlewyrchu rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wrth oruchwylio pan fo prosesau'n bodoli eisoes neu pan fo prosesau lleol yn cael eu datblygu.

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn arwain y ffordd mewn perthynas â hyrwyddo'r broses o rannu gwersi a ddysgwyd ar draws ardaloedd peilot, a bydd yn gweithio gydag ardaloedd lleol i'w helpu i ddylunio a rhannu arferion da a chanlyniadau yn briodol lle nad oes proses o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd neu lle mae ardaloedd yn ceisio datblygu prosesau sy'n bodoli eisoes.

**Atodiad B: Model ar gyfer cyflwyno proses oruchwylio leol ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu**



## Atodiad C: Ffurflen casglu data ar broses oruchwylio ardaloedd peilot

| This section will gather details about your Domestic Homicide Review | |
|---|---|
| DHR Reference number; Please use format (CSP area - DHRname/number - date of publication) | |
| Name of Chair | |
| Name Author, if different to Chair | |
| CSP area | Please select from drop down |
| Tier 1 area | Please select from drop down |
| Tier 2 area (if applicable) | Please select from drop down |
| If this DHR is a joint review with a partner, please select the partnership | Please select from drop down |
| Is this DHR a joint review with another CSP | Yes/No |
| If yes, was your CSP area the lead? | Yes/No |
| Date of first DHR panel meeting | dd/mm/yyyy |
| Date sent to QA panel | dd/mm/yyyy |
| Date first heard by QA panel | dd/mm/yyyy |
| Date signed off by QA Panel | dd/mm/yyyy |
| Has this DHR been published? | Yes/No |
| If yes, what was the date of publication? | dd/mm/yyyy |
| If no, please explain why | |
| If no, has any learning from the DHR been published? | Yes |
| If yes, please provide details | |

**PLEASE ENSURE YOU SCROLL DOWN TO THE BOTTOM OF EACH PAGE TO COMPLETE THE IMPLEMENTATION SECTION**

## This section will gather details of the first recommendation made in your DHR.

**Recommendation 1**

Is this a recommendation for the CSP? | Which level is this recommendation for?

## This section will gather details of the actions in the first recommendation in your DHR.

**Action 1**

Which level is this action for?

Which agency(ies) is Action 1 of Recommendation 1 for? *Please select all that apply*

| | | |
|---|---|---|
| Accident and Emergency | Drug and alcohol services | MATAC |
| Adult Safeguarding Board | DWP | Mental health services |
| Adult Social Care | GP | Midwifery |
| Care provider | HMCTS | Ministry of Justice |
| Children Safeguarding Board | HMCPSI | NHS England |
| Children's Social Care | HMICFRS | Office of the Domestic Abuse Commissioner |
| Community health | Home Office | Parole |
| Community Safety Partnership | Hospital | Police |
| Council community safety team | Housing | Police and Crime Commissioner |
| CQC | Immigration Enforcement | Probation Service (NPC/CRC) |
| Crown Prosecution Service | Integrated Care Board | Public Health |
| DfE | Local Authority | Safeguarding Adults Board |
| DHSC | Local Authority Commissioners | School |
| DLUHC | Local Health Trust | Specialist by and for DA services |
| Domestic Abuse Partnership Board | MARAC | University |
| Domestic abuse services | MASH | Youth Offending Service |

Other | If Other, please specify

What is the progress status of this action?

If completed, please provide details

If not started, abandoned or incomplete - please explain why | If other reason, please provide details

If in progress, what progress has been made? | Please provide details

## This section will gather details on the implementation of the first recommendation in your DHR.

How would you assess the status of the implementation of this recommendation?

Please provide rationale/ evidence for this assessment

How would you assess the quality of the implementation of this recommendation?

Please provide rationale/ evidence for this assessment

Has this assessment been agreed by the partnership?

Do you have any concerns about the implementation of this recommendation?

If yes, please explain your concerns

**Please go on to the next tab for Recommendation 2**

**Atodiad D: Canllawiau i arweinwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar gwblhau ffurflen oruchwylio Adolygiad Lladdiad Domestig**

## Cynnydd Camau Gweithredu

- Heb ei ddechrau.
- Yn mynd rhagddynt.
- Rhoddwyd y gorau iddo – mae hyn yn golygu nad oes angen y cam gweithredu mwyach am fod camau gweithredu amgen wedi'u cymryd sy'n cyflawni'r canlyniad bwriadedig, neu nad yw'r cam gweithredu yn berthnasol mwyach.
- Heb ei gyflawni – mae hyn yn golygu nad yw'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi gallu canfod pa gamau sydd wedi'u cymryd i gyflawni hyn.

## Lefel y gweithredu

- Cyflawnwyd yn llawn – mae'r holl gamau gweithredu wedi'u cyflawni.
- Cyflawnwyd yn rhannol – mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cyflawni ac mae'r rhai nad ydynt wedi'u cyflawni eto yn mynd rhagddynt yn dda a disgwylir iddynt gael eu cyflawni yn ystod y chwe mis nesaf neu o fewn yr amserlen a bennwyd yn y cynllun gweithredu.
- Cyflawnwyd i raddau – mae rhai camau gweithredu wedi'u cyflawni a disgwylir i'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n weddill gael eu cyflawni yn ystod y 2 mis nesaf neu o fewn yr amserlen a bennwyd yn y cynllun gweithredu.
- Heb eu cyflawni eto.

## Fframwaith ar gyfer asesu ansawdd y gweithredu

### Aur

- Mae tystiolaeth gref o newid o ganlyniad i'r camau gweithredu ar gyfer yr argymhelliad hwn.
- Mae tystiolaeth ansoddol a meintiol gref fod yr argymhelliad hwn yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i oroeswyr, plant a theuluoedd.
- Mae'r broses o roi'r argymhelliad ar waith yn newid ymarfer, agweddau a/neu ddiwylliant.
- Mae newid systemig o ganlyniad i'r argymhelliad hwn sy'n cynnwys partneriaid lluosog neu'r holl bartneriaid mewn ymateb cymunedol cydgysylltiedig.
- Cyflawnwyd newid sefydliadol ac mae'r gwersi a ddysgwyd o'r argymhelliad hwn wedi'u hymgorffori mewn ymarfer.
- Mae gwersi a ddysgwyd wedi cael eu rhannu mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys drwy rwydweithio wyneb yn wyneb, (yn bersonol neu'n rhithwir), drwy bapurau briffio neu ddeunyddiau a rennir, ac ar draws ffiniau daearyddol ac asiantaethau, ac maent wedi'u ffurfioli a'u cynnwys yn yr hyfforddiant tymor hwy a gynigir i bob partner/partneriaid perthnasol.
- Mae tystiolaeth gref o gynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol (gallai hyn gynnwys strategaeth cam-drin domestig gyffredinol, dangosyddion perfformiad allweddol y camau gweithredu neu ddangosyddion perfformiad allweddol).

### Arian

- Bu newid mewn ymarfer o ganlyniad i'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r argymhelliad hwn.
- Mae'r broses o roi'r argymhelliad ar waith yn newid ymarfer, agweddau a/neu ddiwylliant.
- Mae gwersi a ddysgwyd wedi'u rhannu mewn nifer o ffyrdd a'u hailadrodd/mae cynlluniau i'w hailadrodd o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.
- Cyflawnwyd newid sefydliadol a disgwylir iddo gael ei ymgorffori yn ystod y chwe mis nesaf.

### Efydd

- O blith y camau gweithredu a gyflawnwyd, mae tystiolaeth bod y gwersi a ddysgwyd wedi cael eu rhannu drwy'r sefydliad neu rwydweithiau proffesiynol.
- Mae gwersi a ddysgwyd wedi'u rhannu drwy friffiadau neu ddigwyddiadau hyfforddiant/dysgu annibynnol.
- Cyflawnwyd newid sefydliadol a disgwylir iddo gael ei ymgorffori yn ystod y chwe mis nesaf.
- Mae'n bosibl y rhoddwyd y gorau i rai camau gweithredu neu efallai eu bod wedi eu hoedi, ond cytunwyd ar gamau gweithredu amgen ar lefel leol sy'n mynd i'r afael â'r argymhelliad yn uniongyrchol.

### Heb ei gyflawni eto (Ar gam cynnar y broses weithredu)

- Mae sefydliadau wedi cymryd camau cyflym i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn ac mae'r bartneriaeth wedi gofyn am dystiolaeth ei fod wedi'i roi ar waith. Disgwylir iddo gael ei gyflawni neu disgwylir tystiolaeth o hynny yn ystod y 6-12 mis nesaf neu o fewn yr amserlen a bennwyd yn y cynllun gweithredu.

### Heb ei gyflawni

- Prin yw'r dystiolaeth bod yr argymhelliad hwn yn cael ei roi ar waith, neu nid oes unrhyw dystiolaeth o gwbl o hynny.
- Nid yw'r camau gweithredu wedi cael eu cyflawni neu rhoddwyd y gorau iddynt, ac nid oes unrhyw gamau gweithredu amgen wedi'u rhoi ar waith gan bartneriaid perthnasol.

**Atodiad E: Ymarfer nodedig o'r prosiect peilot**

Mae cyfleoedd i nodi enghreifftiau o ymarfer nodedig ac i gysylltu ardaloedd â gwersi blaenorol a ddysgwyd o adolygiadau fel rhan o broses oruchwylio ag adnoddau da. Er bod capasiti cyfyngedig i ymgysylltu ag ardaloedd ar y camau gweithredu a gwblhawyd ganddynt, nodwyd rhai camau gweithredu yr oedd yn werth rhoi sylw iddynt. Fodd bynnag, ym mhob achos, ni ellid dilysu eu heffeithiolrwydd o ganlyniad i amser ac adnoddau. Dim ond drwy ymrwymiad cadarn gan lywodraeth i oruchwylio fel yr amlinellwyd yn y crynodeb o'r adroddiad hwn y gellir cyflawni hyn.

***Enghraifft o ymarfer***

Nododd un o argymhellion adolygiad y dylai'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol "*seek assurance that all health services in their area have implemented policies, pathways and staff training to support routine enquiry in domestic abuse.*"

Nododd y cam gweithredu dilynol ar gyfer yr ymddiriedolaeth iechyd y dylai "*implement a rapid assessment tool in the emergency departments to support routine enquiry.*"

Mewn ymateb i'r oruchwyliaeth, nododd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol "*the rapid assessment tool went live as a mandated assessment for both Emergency Departments on 18th March 2024.  This is also an active tool for community staff. Staff across Safeguarding, Emergency Dept and digital IT to enable this, the plan would be to audit in the future. It is early days.*"

Cysylltodd swyddfa'r Comisiynydd â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r ymddiriedolaeth iechyd ym mis Mawrth 2025 a chafodd sicrwydd bod cynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn yn cael ei adolygu'n barhaus drwy gynnwys y cam gweithredu hwn mewn gwaith cynllunio ar draws ardaloedd drwy'r Grŵp Goruchwylio Adolygiadau Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig mewn perthynas â lleoliadau iechyd ac ymarfer cam-drin domestig, polisi, a phrosesau yn ardal y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Er bod camau gweithredu wedi'u cwblhau mewn perthynas â rhai agweddau ar yr argymhelliad, roedd asiantaethau yn onest yn eu hymatebion, gydag un ardal yn nodi *"Staff work at pace under considerable demands. Incorporating changes to practice, despite up-to-date policies and good training, does not guarantee a complete shift to new ways of working.*"

Mae hyn yn cadarnhau'r angen am i oruchwyliaeth fynd y tu hwnt i grynodeb o fesurau perfformiad ar lefel leol, ac mae'n dangos yr ymdrech sydd ei hangen er mwyn sicrhau newid gwirioneddol ac wedi'i ymwreiddio mewn diwylliant sefydliadau. Uchelgais tymor hwy proses oruchwylio ag adnoddau da yw dangos newid dros amser.

***Enghraifft o ymarfer***

Nododd argymhelliad a cham gweithredu cysylltiedig:

*"[CSP] to consider the learning from this DHR in relation to meeting the needs of local communities, including the provision of culturally appropriate services, a diverse workforce and creating opportunities to build trust with communities*."

Partneriaeth rhwng y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol, y GIG, awdurdod lleol, ac eraill yw hon, sy'n canolbwyntio ar wella iechyd a llesiant pobl yn ardal yr Awdurdod Lleol a lleihau'r anghydraddoldebau iechyd a wynebir ganddynt drwy system gofal iechyd integredig.

Ystyriodd y bartneriaeth yr argymhelliad hwn a'r cam gweithredu ac aeth ati i sefydlu Grŵp Cydraddoldebau lleol, a ymgymerodd â darn penodol o waith ar gynrychioli'r gweithlu a chymhwysedd diwylliannol. Cafodd hyn ei gefnogi gan arbenigwr o wasanaeth 'gan ac ar gyfer' arbenigol sy'n aelod o'r Grŵp Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant.

Disgrifiodd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol y ffordd yr oedd y gwaith hwn wedi llywio'r broses o ddatblygu cynllun yr Awdurdod Lleol hyd at 2030 ac wedi cyfrannu at y broses honno. Roedd hyn yn amlwg yn y datganiad o weledigaeth ar gyfer y cynllun hwn, a oedd yn cynnwys ymrwymiadau sylweddol yn ymwneud â chydraddoldeb, tegwch a chyfiawnder ac a arweiniodd at sicrhau cyllid yn yr ardal i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac iechyd. Dywedodd hefyd fod y gwaith hwn yn bwysig i'r Awdurdod Lleol fel cyflogwr.

Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn adborth rhanddeiliaid lleol i dîm y Comisiynydd ar y ffordd y mae'r ardal hon yn gweithio yn unol ag ymateb cymunedol wedi'i gydgysylltu'n dda. Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn yr ardal hon wedi dylanwadu ar yr Awdurdod Lleol ac mae'n anelu at ddull systemau cyfan sy'n ystyriol o gam-drin domestig.

Mae rhai enghreifftiau o ymarfer nodedig wrth roi argymhellion ar waith, ac mae'r enghraifft isod yn dangos sut y gall argymhellion wella ymatebion ar lefel strategol a gweithredol wedi'u llywio gan brofiadau bywyd.

***Enghraifft o ymarfer***

*"As part of the refresh of the local domestic violence and abuse strategy, the CSP [Manchester City Council] should develop a targeted domestic abuse education campaign to the local African and Caribbean community, this should involve community representatives in designing education and support."*

Y cam gweithredu ar gyfer y tîm diogelwch cymunedol a rhwydwaith y trydydd sector oedd:

*"Research and learn from other examples of successful practice in this area (including CCR network). Work in partnership to design campaign and deliver campaign."*

Comisiynwyd Rhwydwaith Iechyd Cymunedau Caribïaidd ac Affricanaidd (CAHN), sy'n cynnwys goroeswyr Du ac ethnig lleiafrifol, i ddatblygu panel Llais Dioddefwyr. Er nad oedd

wedi datblygu ymgyrch benodol, mae adborth gan y panel wedi llywio gwaith datblygu polisi a strategaeth ac yn parhau i wneud hynny. Byddai ymgyrchoedd ymwybyddiaeth wedi'u teilwra at ddemograffeg benodol yn rhan o'r strategaeth newydd ar gyfer 2024/25. Ers hynny, mae'r Comisiynydd wedi cysylltu â CAHN a ddywedodd fod y panel yn cael ei gomisiynu gan Gyngor Dinas Manceinion ac yn agored i bobl o bob cefndir a hil (menywod, dynion, Affricaniaid, Caribïaid, Asiaid o Dde Asia, Tsieineaid, Pwyliaid, Cawcasiaid, LHDTC, pobl ifanc, yr henoed, ac ati).

Ei brif nod yw helpu i wella gwasanaethau cam-drin domestig lleol.

Mae'r Panel Llais Defnyddwyr sydd wedi'i sefydlu wedi helpu i feithrin safbwynt mwy cynhwysol a diwylliannol ymwybodol ar gam-drin domestig. Drwy ymgysylltu a darparu mewnbwn yn gyson, mae'r panel wedi rhoi sylw i brofiadau penodol goroeswyr o gefndiroedd Affricanaidd a Charibïaidd a anwybyddwyd yn flaenorol wrth gynllunio'n strategol a darparu gwasanaethau yn lleol.

Mae'r panel wedi gwneud cyfraniadau uniongyrchol at y canlynol:

– Gwella dealltwriaeth ddiwylliannol gweithwyr proffesiynol yn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol drwy brofiadau cyffredin a thrafodaethau myfyriol.

– Dylanwadu ar negeseuon ymgyrchoedd sy'n cyd-fynd â gwerthoedd, iaith, a phrofiadau bywyd go iawn y cymunedau targed.

– Ennyn ymddiriedaeth rhwng gwasanaethau a chymunedau sydd, yn hanesyddol, wedi teimlo eu bod wedi'u hymyleiddio neu eu camddeall gan adnoddau cam-drin domestig traddodiadol.

Drwy ganolbwyntio ar brofiadau bywyd, mae'r Panel Llais Defnyddwyr wedi dechrau cau bwlch dysgu pwysig – sef y duedd i strategaethau cam-drin domestig drin cymunedau fel rhai homogenaidd, yn hytrach na gwerthfawrogi'r ffactorau croestoriadol sy'n effeithio ar fregusrwydd, mynediad ac ymateb.

Mae sefydlu'r Panel Llais Defnyddwyr wedi bod yn ymateb arwyddocaol ac effeithiol yn bennaf i'r argymhellion a wnaed gan yr Adolygiad Lladdiad Domestig. Mae wedi ysgogi'r broses o fynd i'r afael â bylchau hirdymor mewn dealltwriaeth a gweithgarwch ymgysylltu â chymunedau Affricanaidd a Charibïaidd mewn perthynas â cham-drin domestig.

*"At CAHN (Caribbean and African Health Network), we prioritise culturally sensitive facilitation in our approach. We understand that discussing these topics can sometimes lead to re-traumatisation. "Our efforts have led to the creation of a platform where individuals with lived*

*experiences feel secure and empowered to share their valuable contributions."*

Cred y Comisiynydd fod cynnwys lleisiau pobl â phrofiadau bywyd yn enwedig mewn perthynas â grwpiau lleiafrifol yn rhywbeth i'w ganmol, ac mae hyn yn enghraifft o lle y gall argymhellion fod yn allweddol i ddylanwadu ar ddulliau o ddatblygu strategaeth a gwella ymarfer.

**Atodiad F: Crynodeb o ddadansoddiad thematig a gynhaliwyd gan HALT**

Yn ystod hydref 2022, er mwyn paratoi ar gyfer datblygu'r broses oruchwylio, comisiynodd y Comisiynydd brosiect Homicide Abuse Learning Together Prifysgol Fetropolitan Manceinion (HALT) i lunio pedwar adroddiad thematig yn ymwneud ag Adolygiadau Lladdiadau Domestig. Diben hyn oedd ein helpu i feithrin dealltwriaeth well o'r mathau o argymhellion a wneir mewn Adolygiadau Lladdiadau Domestig ar draws amrywiaeth o feysydd ymarfer, fel gofal cymdeithas i oedolion, iechyd, cyfiawnder troseddol a gwasanaethau plant. [69] Bwriad y gwaith hwn oedd rhoi dealltwriaeth well o'r hyn y gallai proses oruchwylio ei gyflawni mewn perthynas â dadansoddiad thematig. Daeth themâu cyson i'r amlwg o'r gwaith ymchwil hwn fel y nodwyd gan ddadansoddiad y Swyddfa Gartref. Fodd bynnag, dangosodd y dadansoddiad hwn hefyd pa asiantaethau yr oedd y themâu hyn yn fwyaf perthnasol iddynt ac y gwnaed argymhellion ar eu cyfer. Mae'r dadansoddiad yn yr astudiaeth hon yn rhoi dadansoddiad cyfoethog a manwl o argymhellion mewn cyd-destun penodol, gan nodi bylchau mewn gwybodaeth, polisi ac ymarfer.

Er mwyn gosod yr argymhellion hynny yn eu cyd-destun, gofynnwyd i brosiect HALT ystyried cwestiynau allweddol mewn adolygiadau. Mae'r adroddiadau'n tynnu sylw at y mathau gwahanol o laddiadau (lladdiadau partner agos neu aelod o'r teulu sy'n oedolyn a'u nodweddion, demograffeg, math o gydberthynas, trefniadau byw, ffactorau risg a bregusrwydd, cyswllt â gwasanaethau a gwybodaeth am gam-drin domestig, dull o ladd); ffocws ar nodweddion gwarchodedig,[70] oedolion hŷn (mewn perthynas â'r adroddiad ar ofal cymdeithasol i oedolion, gweler hefyd Chantler et al, 2024); plant a phobl ifanc (mewn perthynas â gwasanaethau plant – gweler hefyd yr adroddiad ar wasanaethau plant[71]).

Nododd pob adroddiad thematig negeseuon allweddol a oedd yn cynnwys themâu cyson, fel yr angen am ymarfer mwy pendant ac ymholgar, mwy o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar draws pob agwedd ar gam-drin, asesiadau gwell gan gynnwys asesiadau gofalwyr ac asesiadau risg, mwy o sylw i faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth a dulliau gwell o gofnodi a rhannu gwybodaeth. Er bod y themâu yn gyfarwydd, mae'r adroddiadau yn rhoi gwybodaeth gyd-destunol ddefnyddiol am y maes gwasanaeth penodol hwnnw, gan ddarparu perthnasedd. Mae dadansoddiad thematig manwl o'r fath yn allweddol i ddatblygu polisi ac ymarfer mewn perthynas â cham-drin domestig.

Ar ôl eu cyhoeddi, cynhaliodd y Comisiynydd nifer o weminarau thematig wedi'u harwain gan brosiect HALT ac estynnodd wahoddiad i bartneriaid allweddol ar draws y pedwar adroddiad thematig er mwyn clywed mwy am y canfyddiadau o'r adroddiadau hyn. Daeth dros 1,000 o weithwyr proffesiynol ynghyd i rannu gwersi a ddysgwyd ac ymarfer, gan ddangos yr awydd i wella ymatebion i gam-drin domestig.

---

[69] HALT (2023) *Domestic Homicide Oversight Mechanism briefings*.

[70] Gunby, C. et al (2025) An Analysis of Gendered, Intersectional Dynamics in Domestic Homicide Reviews. *The British Journal of Criminology*.

[71] *HALT (2023) Domestic Homicide Oversight Mechanism, Children's Services, Research Report*

Mae'r adnoddau a'r capasiti a flaenoriaethwyd ar gyfer y broses oruchwylio wedi canolbwyntio ar gynllunio camau gweithredu lleol a rhoi argymhellion ar waith yn hytrach nag ymchwil thematig. Fodd bynnag, mae gan y ddau beth rôl i'w chwarae wrth hwyluso newid ac mae'r llinell sylfaen a ddarparwyd gan brosiect HALT yn rhoi mesur pwysig ar gyfer adolygu cynnydd yn rheolaidd.

**Atodiad A: Datblygu system ddigidol ar gyfer y Broses Goruchwylio Marwolaethau sy'n gysylltiedig â Cham-drin Domestig**

---

## Llywio

**Adrannau 1 – 2: System beilot:** yr hyn a gyflawnwyd gan y system Excel beilot, ei gwendidau, a sut y gellir troi'r gwersi hynny yn argymhellion ar gyfer system genedlaethol newydd.

**Adrannau 3 – 4: System DARDOM newydd:** grwpiau defnyddwyr, anghenion craidd ac argymhellion o ran dyluniad

**Adrannau 5 – 6: Sail resymegol dros fuddsoddi a chost/amserlen amcangyfrifedig**

---

## Diben y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r achos dros ddatblygu system Proses Goruchwylio Marwolaethau sy'n gysylltiedig â Cham-drin Domestig ddigidol genedlaethol. Ei nod yw dangos pam mae system o'r fath yn hanfodol, pa broblemau y bydd yn eu datrys, a sut y bydd yn gweithio yn ymarferol. Mae'n amlinellu anghenion a gofynion y gweithwyr proffesiynol a fydd yn defnyddio'r system – o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol i gyrff goruchwylio cenedlaethol – ac mae'n disgrifio cyfyngiadau'r ffurflen Excel bresennol.

Gan ddefnyddio gwersi a ddysgwyd o'r prosiect peilot a oedd yn cynnwys 20 o ardaloedd, mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r llwyddiannau a'r rhwystrau a wynebwyd wrth olrhain a dysgu o farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. Yna, mae'n cyflwyno argymhellion ymarferol clir ar gyfer system sydd wedi'i diogelu rhag datblygiadau yn y dyfodol y gellir ei hehangu'n genedlaethol. Y nod yn y pen draw yw gwella atebolrwydd, cefnogi dysgu, a rhoi'r adnoddau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar randdeiliaid lleol a chenedlaethol i leihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig – a helpu i haneru nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod a merched dros y degawd nesaf.

---

## System beilot: Heriau

Mae'r system Excel a dreialwyd yn llafurus, yn dameidiog ac yn anodd ei rheoli o safbwynt mewnbynnu a goruchwylio data. Gall gymryd nifer o ddiwrnodau staff i baratoi cynlluniau gweithredu ar ôl pob marwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, ac mae'n rhaid i wybodaeth gael ei chopïo â llaw rhwng dogfennau, gan gynyddu'r risg o wallau. Ni all asiantaethau partner, fel yr heddlu neu wasanaethau iechyd, gael mynediad i'r system yn uniongyrchol, felly mae'n rhaid i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol dreulio amser yn cysylltu â nhw am ddiweddariadau. Mae diffyg safoni o ran y ffordd y caiff gwybodaeth ei mewnbynnu (fel cofnodion testun rhydd neu gylchoedd dilynol afreolaidd) yn golygu bod cymariaethau cenedlaethol yn annibynadwy. Caiff gwybodaeth ddadansoddol ei chladdu yng nghanol taenlenni beichus, ac nid oes unrhyw drywydd archwilio cadarn i olrhain pwy wnaeth beth, a phryd. Yngryno, ni ellir ehangu'r dull presennol i gefnogi goruchwyliaeth genedlaethol neu ddysgu systematig.

| Thema | Problemau nodweddiadol |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Llwyth gwaith â llaw** | Mae'n cymryd 3-5 diwrnod person i baratoi cynlluniau gweithredu Excel fesul Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, fesul adolygiad. |
| **Dyblygu** | Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn copïo diweddariadau partneriaid i daflenni lleol ac yna i dempled y Comisiynydd Cam-drin Domestig. |
| **Cyfranogiad asiantaethau partner** | Nid oes gan asiantaethau partner unrhyw fynediad uniongyrchol. Mae'n rhaid i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol fynd ar drywydd diweddariadau, rheoli rhyngweithiadau, uwchgyfeirio achosion o ddiffyg ymateb, a newidiadau mewn statws cofnodion. |
| **Tacsonomeg anghyson** | Mae dosbarthiad testun rhydd argymhellion a chamau gweithredu yn llesteirio'r gallu i'w cyfuno ar lefel genedlaethol. |
| **Cysylltiadau dilynol amrywiol** | Mae cylchoedd tri mis, chwe mis a 12 mis yn golygu bod cymariaethau yn anghyson. |
| **Dadansoddeg gyfyngedig** | Ffyrdd o ddatrys problemau tablau colynnu; mae tueddiadau ac allanolion yn anodd eu nodi. |
| **Trywydd archwilio gwan** | Mae sgoriau ansawdd yn dibynnu ar hunanddatganiadau; mae'r dystiolaeth ar wasgar. |

## System beilot: Manteision, Bylchau ac Argymhellon

Roedd y system Excel beilot yn brawf gwerthfawr o gysyniad. Dangosodd ei bod yn bosibl casglu a chyfuno data o nifer o ardaloedd lleol i lunio darlun cenedlaethol o gynnydd. Drwy orfodi templed cyffredin, daethpwyd â chysondeb i'r hyn a oedd yn waith tameidiog yn flaenorol a bu modd casglu gwybodaeth gynnar am themâu fel bylchau mewn hyfforddiant neu brosesau rhannu gwybodaeth gwael. Yn fwyaf pwysig efallai, dangosodd botensial goruchwyliaeth genedlaethol, gan helpu i ddatblygu momentwm ymhlith rhanddeiliaid.

Er gwaethaf ei llwyddiant, buan y dangosodd y system Excel beilot ei chyfyngiadau. Roedd yn cymryd wythnosau o amser staff i fewnbynnu dros fil o gamau gweithredu â llaw, a gallai diweddariadau ddyddio'n gyflym o ganlyniad i ddiffyg mynediad amser real. Dim ond Partneriaethau Diogelwch Cymunedol allai olygu'r ffeiliau, gan wthio asiantaethau partner i'r ymylon. Roedd gwahaniaethau mewn terminoleg rhwng taenlenni yn golygu bod dadansoddiadau cenedlaethol yn annibynadwy, ac roedd diffyg system atgoffa awtomataidd yn golygu bod yn rhaid i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol fynd ar drywydd diweddariadau â llaw. Er bod modd ymdopi â hyn ar gyfer system beilot fach, ni ellir ehangu'r system Excel i lefel genedlaethol, lle y gellid disgwyl dros 60,000 o gamau gweithredu y flwyddyn.

*Cyflawniadau'r system beilot:*

| Mantais | Sut y cafodd ei defnyddio gan randdeiliaid |
|---|---|
| **Prawf o gysyniad** | Dangosodd ei bod yn bosibl cyfuno data gan nifer o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a llunio darlun cenedlaethol gyfraddau gweithredu. |
| **Templed cyffredin cyntaf** | Galluogodd 20 o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol i nodi meysydd cyffredin (math o adolygiad, argymhelliad, statws). |
| **Dadansoddeg gynnar** | Galluogodd y Comisiynydd Cam-drin Domestig i gyhoeddi themâu cychwynnol (e.e., bylchau mewn hyfforddiant, rhwystrau i rannu gwybodaeth) a mesur camau gweithredu a gwblhawyd yn erbyn rhai sydd yn yr arfaeth. |
| **Momentwm dros newid** | Rhoddodd iaith gyffredin i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig a dangosodd werth goruchwyliaeth genedlaethol, gan ennyn diddordeb rhanddeiliaid. |

*Gwendidau'r system beilot*

| Cyfyngiad | Effaith |
|---|---|
| **Proses mewnbynnu data lafurus** | Cymerodd wythnosau o amser staff i drawsgrifio 1,129 o argymhellion a 1,815 o gamau gweithredu. |
| **Dim diweddariadau amser real** | Anfonwyd taenlenni drwy e-bost bob chwarter; roedd gwybodaeth am gynnydd yn dyddio yn gyflym. |
| **Oedi o ganlyniad i un golygydd** | Dim ond staff y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol allai agor neu olygu'r ffeil – derbynyddion goddefol oedd asiantaethau o hyd. |
| **Amrywiadau testun rhydd** | Roedd mân wahaniaethau mewn geirfa yn ("Heddlu", "Cwnstabliaeth") yn amharu ar waith dadansoddi tueddiadau a thablau colynnu. |
| **Dim system archwilio neu atgoffa** | Roedd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn parhau i ddibynnu ar negeseuon atgoffa yn Outlook ac yn mynd ar drywydd gwybodaeth â llaw. |
| **Terfyn ar y gallu i ehangu** | Mae 20 o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn hydrin; gallai 300 o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol gynhyrchu >60k o gamau gweithredu y flwyddyn – daw Excel yn ansefydlog. |

## System DARDOM newydd: defnyddwyr a nodau

Bydd system DARDOM yn gwasanaethu amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol, pob un ohonynt yn chwarae rôl hanfodol i atal marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn y dyfodol. Ar lefel leol, bydd **arweinwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol** yn defnyddio'r system i gofnodi pob adolygiad lladdiad domestig, cydlynu argymhellion, ac olrhain camau gweithredu dilynol gan sicrhau na chaiff dim ei golli. Bydd **asiantaethau partner** fel yr heddlu, gwasanaethau iechyd, a thimau tai yn cael budd o'r gallu i ddiweddaru'r camau gweithredu a neilltuwyd iddynt, gan leihau gwaith gweinyddol diangen a sicrhau atebolrwydd cliriach.

Bydd **staff goruchwylio** Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn cael darlun cyffredinol o ba mor dda y mae camau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith ledled y wlad, gan eu helpu i nodi materion systemig a phwyso am welliant lle bo angen. Gall **Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu** fonitro Adolygiadau Lladdiadau Domestig mewn ardaloedd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, a all feithrin trefniadau cydweithio a thargedu adnoddau yn fwy effeithiol. Mae'n bosibl hefyd y gallai **Cadeiryddion Annibynnol** adolygiadau lladdiadau domestig gael mynediad i lyfrgell ganolog o wersi a ddysgwyd a gynhyrchwyd o ddata yn y system. Yn olaf, bydd y **Swyddfa Gartref a chyrff cenedlaethol eraill** yn gallu monitro cynnydd tuag at nodau hirdymor fel haneru nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod a merched mewn degawd drwy gael gafael ar ddata cyfredol dibynadwy sy'n cefnogi penderfyniadau craff am bolisi a chyllid.

| Grŵp defnyddwyr | Nod(au) cyffredinol |
|---|---|
| **Arweinwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol** | Cofrestru pob marwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, cydlynu argymhellion, datblygu ac olrhain cynlluniau gweithredu, dangos cynnydd. |
| **Perchnogion Asiantaethau Partner** (Yr heddlu, iechyd, gwasanaethau plant, tai, ac ati) | Derbyn camau gweithredu a neilltuwyd, diweddaru statws, darparu tystiolaeth heb waith gweinyddol ailadroddus. |
| **Staff Goruchwylio'r Comisiynydd Cam-drin Domestig** | Monitro ansawdd y gweithredu, nodi rhwystrau systemig, uwchgyfeirio achosion parhaus o ddiffyg cydymffurfio, cyhoeddi gwybodaeth genedlaethol. |
| **Gwylwyr Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu** | Monitro perfformiad cyffredinol Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn eu hardal heddlu er mwyn cyfeirio cymorth ac adnoddau. |
| **Cadeiryddion Annibynnol Adolygiadau Lladdiadau Domestig** | Defnyddio llyfrgell ganolog o ddysgu i gefnogi adolygiadau. |
| **Y Swyddfa Gartref / Cyrff Cenedlaethol Eraill** | Olrhain cynnydd tuag at haneru nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod a merched mewn deng mlynedd; ariannu a llywio polisi yn seiliedig ar ddata y gellir eu hamddiffyn. Ymateb i argymhellion mewn ffordd systemig. |

## System DARDOM newydd: anghenion craidd ac argymhellion o ran dyluniad

Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i'r system newydd gynnig un llwyfan a rennir lle y gall pob asiantaeth berthnasol rannu diweddariadau heb ddyblygu neu oedi. Dylai gefnogi proses casglu data awtomataidd er mwyn ymdrin â miloedd o gamau gweithredu bob blwyddyn o bosibl a galluogi asiantaethau partner i berchnogi eu tasgau. Bydd prosesau uwchgyfeirio a negeseuon atgoffa awtomataidd yn atal oedi, a bydd strwythur safonol yn rhoi'r cyfle i lunio dadansoddiadau cenedlaethol pwerus a dysgu ar draws ardaloedd. Rhaid i'r system hefyd roi'r cyfle i olrhain statws ac ansawdd pob cam gweithredu, rhoi darlun cyfunol i bob asiantaeth o'i chyfrifoldebau, a chynnig dangosfyrddau ac adnoddau meincnodi clir i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a chyrff cenedlaethol fonitro a chymharu cynnydd.

Rhaid i'r system ar gyfer y dyfodol fod yn system aml-ddefnyddiwr, y gellir ei hehangu, ar y we. Dylai arwain defnyddwyr drwy broses mewnbynnu data strwythuredig gyda chwymplenni safonol a chynnig ffyrdd cyflym o lanlwytho nifer o gamau gweithredu ar yr un pryd, gan leihau'r amser a dreulir yn mewnbynnu data yn sylweddol. Dylai asiantaethau allu diweddaru eu camau gweithredu drwy fynediad syml a diogel, a dylid cyflwyno negeseuon atgoffa awtomatig yn lle'r broses o fynd ar drywydd gwybodaeth â llaw. Bydd trywydd archwilio cadarn a phroses sgorio camau gweithredu yn helpu i sicrhau atebolrwydd, a bydd dangosfyrddau hawdd eu defnyddio ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol yn cefnogi ymyriadau wedi'u targedu. Bydd y system hefyd yn cynnwys llyfrgell gwersi a ddysgwyd y gellir ei chwilio a data y gellir eu hallforio at ddibenion polisi ac adrodd. Bydd yn teimlo'n gyfarwydd ac yn hawdd ei defnyddio ac, ar yr un pryd, yn cyrraedd safonau hygyrchedd ac yn cefnogi defnydd uchel hirdymor.

| **Angen** | **Gofyniad** | **Pam mae hyn yn bwysig** | **Ymateb dylunio** |
|---|---|---|---|
| 4.1 Un Ffynhonnell o Wirionedd | Un gweithle ar y we ar gyfer cynlluniau gweithredu yn lle taenlenni lleol. | Mae'n atal achosion o ddyblygu a materion yn ymwneud â rheoli fersiynau. | Mae **llwyfan datblygu heb lawer o godau** yn cynnig rhyngwyneb defnyddiwr arddull grid cyflym, un gronfa ddata berthynol, a system RBAC (Rheoli Mynediad ar sail Rôl) integredig. Dau borth:<br>• **Porth Partneriaethau Diogelwch Cymunedol** (gweithrediadau CRUD llawn)<br>• **Porth Partneriaid** (gallu cyfyngedig i hunanddiweddaru). |
| 4.2 Mynediad Amlasiantaethol ar sail Rôl | Proses fewngofnodi ddiogel heb fawr ddim clicio (neu ddolen arbennig i fewngofnodi heb gyfrinair ('magic link')) ar gyfer asiantaethau partner; caniatadau penodol ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol/y Comisiynydd Cam-drin Domestig. | Mae'n trosglwyddo perchnogaeth i arweinwyr camau gweithredu, gan leihau'r baich ar Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. | |
| 4.3 Proses Casglu Data â Chymorth | Y gallu i fewnforio ffeiliau PDF / CSV mewn swp a'u dilysu ar y sgrin. | Mae'n lleihau'r amser a dreulir yn mewnbynnu data â llaw o ddiwrnodau i funudau. | Parsydd ffeiliau PDF a gynorthwyir gan ddeallusrwydd artiffisial + llwythwr ffeiliau CSV mewn swp; mae dilysydd maes gorfodol yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | sicrhau bod defnyddwyr yn cwblhau pob maes gorfodol. |
| 4.4 Proses Uwchgyfeirio a Negeseuon Atgoffa Awtomataidd | Negeseuon atgoffa bob 3, 6 neu 12 mis y gellir eu ffurfweddu; ysgol uwchgyfeirio ar gyfer y Comisiynydd Cam-drin Domestig i ymdrin ag achosion o ddiffyg ymateb. | Mae'n golygu nad oes rhaid mynd ar drywydd gwybodaeth â llaw ac yn sicrhau amseroldeb. | Mae'r amserlennydd yn sbarduno negeseuon atgoffa Mae'r ysgol uwchgyfeirio yn anfon llythyr statudol at y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol → Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu → y Comisiynydd Cam-drin Domestig drwy e-bost yn awtomatig |
| 4.5 Tacsonomeg Safonol | Rhestrau dewis a reolir ar gyfer enwau asiantaethau, themâu, statws, ansawdd. | Mae'n golygu bod modd llunio dadansoddiadau cenedlaethol dibynadwy a dysgu ar draws ardaloedd. | Gall tîm gweinyddol y Comisiynydd Cam-drin Domestig olygu tablau tacsonomeg canolog; mae rhestrau dewis yn atal achosion o lithro mewn testun rhydd. |
| 4.6 Statws Camau Gweithredu a Sgorio Ansawdd | Aur / Arian / Efydd gyda thystiolaeth wedi'i lanlwytho a thrywydd archwilio. | Mae'n rhoi atebolrwydd penodol ac yn cefnogi gwybodaeth systemig. | Togl statws mewnol; dewisydd ansawdd; tystiolaeth (ffeil / URL / nodyn); caiff pob newid ei stampio ar gofnod archwilio digyfnewid. |
| 4.7 Gweithle Partneriaid Cyfunol | Un dangosfwrdd yn rhestru pob cam gweithredu agored ar gyfer pob asiantaeth allanol. | Mae'n atal achosion lle mae 10 e-bost sydd bron yn unfath. | Mae'r dangosfwrdd "My-Agency" yn dangos pob cam gweithredu a berchnogir gan yr asiantaeth honno ar draws Partneriaethau Diogelwch Cymunedol; allforio dogfennau CSV. |
| 4.8 Dangosfyrddau a Meincnodau Aml-lefel | Y gallu i weld gwybodaeth benodol: Cenedlaethol → Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu → Partneriaeth Diogelwch Cymunedol → Adolygiad, yn ogystal â chymharydd "Partneriaeth Diogelwch Cymunedol fwyaf tebyg". | Mae'n galluogi pob haen i nodi bylchau a thargedu cymorth. | Mae haen gwybodaeth fusnes sefydledig y feddalwedd codau isel yn pweru dangosfyrddau ar draws rhanddeiliaid yn unol â safonau cenedlaethol. |
| 4.9 Llyfrgell Gwersi a Ddysgwyd | Crynodebau un dudalen dewisol ac arteffactau, y gellir eu chwilio ar draws adolygiadau. | Mae'n cyflymu'r broses o drosglwyddo gwybodaeth ar gyfer Cadeiryddion Adolygiadau Lladdiadau Domestig a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol. | Micro-wasanaeth storio ffeilio wedi'i gysylltu ag adolygiadau; fersiynau darllen unig i bob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, hawliau golygu i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol darddiadol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.10 Archwilio, Diogelwch, Graddfa, Perfformiad | Cofnod newidiadau llawn, rhyngwyneb defnyddiwr sy'n cydymffurfio ag WCAG, saernïaeth gwmwl ar gyfer 200k+ o gamau gweithredu dros bum mlynedd. | Mae'n bodloni gofynion llywodraethu, hygyrchedd a thwf. | Wedi'i lletya mewn seilwaith cwmwl yn y DU/UE gyda'r gallu i ehangu'n awtomatig; llwytho 95 o dudalennau < 3 eiliad; AES-256 a TLS 1.3 ar gyfer data sy'n cael eu trosglwyddo; copïau wrth gefn wedi'u hamgryptio bob nos; RTO ≤ 2 h, RPO ≤ 4 h. |
| 4.11 Dilysu a Gwasanaeth Cofrestru Unwaith | Proses fewngofnodi syml a diogel i ddefnyddwyr. | Mae'n gwella diogelwch mewn perthynas â data sensitif. | Yn barod ar gyfer gwasanaeth Cofrestru Unwaith Azure AD / y Llywodraeth;  gall asiantaethau allanol ddefnyddio dolenni arbennig heb fod angen cyfrinair (cedwir cofnod archwilio). |

## System DARDOM newydd: sail resymegol dros fuddsoddi

Mae'r dirwedd bresennol ar gyfer cynllunio a chyflawni camau gweithredu ar draws Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn dameidiog ac yn dibynnu'n fawr ar daenlenni lleol a phrosesau â llaw. Mae hyn yn arwain at aneffeithlonrwydd, goruchwyliaeth gyfyngedig, ansawdd data anghyson, a beichiau gweinyddol. Mae'r llwyfan digidol arfaethedig yn cyflwyno datrysiad diogel cydweithredol y gellir ei ehangu a ddyluniwyd i fynd i'r afael â heriau systemig hyn a chefnogi rhwymedigaethau statudol.

**Gweithle Digidol Unedig**

Mae'r llwyfan yn cynnig un amgylchedd ar y we sy'n cyfuno gwaith cynllunio gweithredu ar draws asiantaethau. Drwy gael gwared ar daenlenni gwahanol, mae'n atal achosion o ddyblygu, yn sicrhau bod modd rheoli fersiynau, ac yn cefnogi cydweithrediad amser real.

**Mynediad Amlasiantaethol ar sail Rôl**

Mae rheolaethau mynediad penodol yn galluogi asiantaethau partner i ryngweithio â'r system drwy ddull mewngofnodi / dolenni diogel gyda chaniatadau wedi'u teilwra at rolau penodol. Mae hyn yn datganoli'r broses o fewnbynnu data, gan rymuso perchnogion camau gweithredu a lleihau gorbenion gweinyddol Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.

**Dull Syml o Lwytho Data**

Gallai adnoddau menwforio a gynorthwyir gan ddeallusrwydd artiffisial roi'r cyfle i lanlwytho data PDF a CSV mewn swp gyda gwiriadau dilysu mewnol. Mae hyn yn lleihau'r angen i fewnbynnu data â llaw ac yn sicrhau bod data yn gyflawn ac yn gywir.

**Protocolau Uwchgyfeirio a Hysbysiadau Awtomataidd**

Mae'r llwyfan yn cynnwys system atgoffa y gellir ei chyflunio gydaa llwybrau uwchgyfeirio sy'n cyd-fynd â chyfrifoldebau statudol. Mae llifai gwaith awtomataidd yn disodli'r angen i fynd ar drywydd gwybodaeth â llaw ac yn sicrhau diweddariadau amserol ar draws pob haen o'r llywodraeth.

**Tacsonomeg Safonol i sicrhau Cysondeb Cenedlaethol**

Mae'r defnydd o eirfâu a reolir ar gyfer asiantaethau, themâu, statysau, a sgoriau ansawdd yn sicrhau bod data yn gyson. Mae hyn yn ategu dadansoddiadau cenedlaethol dibynadwy ac yn rhoi'r cyfle i ddysgu ar draws ardaloedd.

**Monitro a Sicrhau Ansawdd Camau Gweithredu**

Caiff camau gweithredu eu holrhain gan ddefnyddio system ddosbarthu Aur / Arian / Efydd, gyda chymorth ar gyfer lanlwytho tystiolaeth a chofnod archwilio na ellir ymyrryd ag ef. Mae hyn yn hwyluso gwaith olrhain perfformiad manwl ac atebolrwydd.

**Dangosfyrddau sy'n canolbwyntio ar Bartneriaid**

Mae asiantaethau allanol yn cael budd o gael crynodeb o'r camau gweithredu a neilltuwyd iddynt ar draws pob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, gan sicrhau nad ydynt yn cael eu llethu gan ormod o wybodaeth a'u galluogi i reoli tasgau yn fwy effeithiol.

**Prosesau Adrodd a Meincnodi Aml-haen**

Mae dangosfyrddau rhyngweithiol yn rhoi'r cyfle i weld gwybodaeth ar lefel genedlaethol a lefel leol. Gall rhanddeiliaid feincnodi perfformiad, nodi bylchau, a chyfeirio gwybodaeth yn effeithlon.

**Rheoli Gwybodaeth drwy Lyfrgell Gwersi a Ddysgwyd**

Gallai'r system gynnwys storfa y gellir ei chwilio o ddogfennau a chrynodebau allweddol, gan gyflymu'r dysgu, yn enwedig i arweinwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chadeiryddion Adolygiadau Lladdiadau Domestig newydd.

**Saernïaeth Gadarn ar gyfer Diogelwch, Hygyrchedd a'r Gallu i Ehangu.**

Wedi'i lletya yn seilwaith cwmwl y DU/UE, mae'r system wedi'i dylunio ar gyfer 200k+ o gamau gweithredu, yn cydymffurfio'n llawn â WCAG ac yn cynnwys amgryptio o un pen i'r llall (AES-256, TLS 1.3), a chaiff copïau wrth gefn eu gwneud yn awtomataidd.  Mae'r amcanion adfer yn cyd-fynd â safonau parhad busnes (RTO ≤ 2h, RPO ≤ 4h).

**Prosesau Dilysu a Rhyngweithredu Di-Dor**

Mae integreiddio â gwasanaeth Cofrestru Unwaith Azure Active Direct a'r Llywodraeth galluogi rhanddeiliaid mewnol ac allanol i fewngofnodi'n ddiogel heb gyfrinair, gyda thrywydd archwilio llawn at ddibenion cydymffurfiaeth.

---

## Amcangyfrifon costau

Nodir isod ddisgrifiad bras o ddau opsiwn datblygu ar gyfer system DARDOM – mae un yn canolbwyntio ar ddarparu swyddogaethau yn gyflym ac yn gosteffeithiol, ac mae'r llall yn cynnig llwyfan cadarn sy'n barod ar gyfer y dyfodol sy'n rhoi'r cyfle i weld gwybodaeth fanylach ar lefel genedlaethol.

Mae **Opsiwn A ("Darbodus / Sylfaenol Hyfyw")** yn cynnig llwybr costeffeithiol ar gost o **£500,000** i'w ddatblygu a **£15,000 y flwyddyn** i letya a thrwyddedu'r llwyfan. Mae'n cefnogi nifer cyfyngedig o ddefnyddwyr (hyd at 500 o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a 20 o ddefnyddwyr y Comisiynydd Cam-drin Domestig), gydag asiantaethau allanol yn defnyddio'r system drwy ddolenni diogel. Mae'r fersiwn hon yn cynnig galluoedd craidd: proses mewnbynnu data ddiogel, negeseuon atgoffa, dangosfyrddau sylfaenol, a prosiect peilot 12 mis cyn ei chyflwyno'n genedlaethol. Mae'n ddelfrydol ar gyfer profi effaith a swyddogaeth ar raddfa y gellir ei rheoli.

Mae angen **£1 miliwn** i ddatblygu **Opsiwn B ("Cynhwysfawr / Yn Barod ar gyfer y Dyfodol")** a **£100,000 y flwyddyn** i'w redeg. Mae'n cefnogi **50,000 o ddefnyddwyr**, gan alluogi pob asiantaeth bartner i integreiddio'n llawn ar draws pob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae'n adeiladu ar nodweddion yr opsiwn darbodus, gan ychwanegu dull prosesu data a gynorthwyir gan ddeallusrwydd artiffisial, dadansoddeg uwch, adnoddau meincnodi, a llyfrgell gwersi a ddysgwyd. Mae'r fersiwn hon yn galluogi'r Swyddfa Gartref i sicrhau effaith hirdymor ar draws y system gyfan ar unwaith, gan gadw o fewn yr un amserlen gyflawni, sef **6–10 mis**.

Gellid cyflawni'r ddau opsiwn yn dechnegol mewn blwyddyn; y penderfyniad allweddol yw p'un a ddylid dechrau'n ddarbodus ac ehangu neu fuddsoddi ymlaen llaw mewn seilwaith cenedlaethol llawn.

---

## Casgliad

Profodd y system Excel beilot y cysyniad a grymusodd rhanddeiliaid, ond mae ei natur â llaw, ei ddyluniad un defnyddiwr, a'i ddiffyg awtomeiddio yn pwysleisio'r angen am system gwmwl sy'n seiliedig ar rôl y gellir ei hehangu. Mae buddsoddi yn y llwyfan hwn yn gam strategol tuag at ddull effeithlon a thryloyw sy'n canolbwyntio mwy ar ddata o sicrhau diogelwch cymunedol. Mae'n sicrhau cysondeb â dyletswyddau statudol, yn gwella trefniadau cydweithio rhwng asiantaethau, ac yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd mesuradwy ar draws gweithgareddau gweithredol ac adrodd.

Bydd diwallu'r anghenion a bodloni'r gofynion uchod yn lleihau baich gwaith Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn sylweddol, yn cynnwys asiantaethau partner yn uniongyrchol, ac yn rhoi'r wybodaeth amser real sydd ei hangen ar y Comisiynydd Cam-drin Domestig – ac, yn y pen draw, y Swyddfa Gartref – i atal marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.

E03400492

978-1-5286-5892-8